

Y GYMRAEG YN
Y GWASANAETH
IECHYD:
Ehangder, Natur a
Digonolrwydd
Darpariaeth Gymraeg
yn y Gwasanaeth
Iechyd Gwladol yng
Nghymru

Andrew Misell

2000

NODIADAU AR IAITH YR ADRODDIAD:

Cyhoeddwyd yr adroddiad yma yn ddwy-ieithog. Lle cafwyd dyfyniad yn Saesneg, caiff ei gyflwyno yn yr iaith wreiddiol yn y ddau adroddiad, er mwyn cyfleu effaith a hwyluso cyfeirio at y ffynhonnell wreiddiol os am wneud ymchwil pellach. Lle ceir dyfyniadau dwy-ieithog, megis cyhoeddiadau y swyddfa Gymreig fe'i cyflwynir yn yr iaith berthnasol. Roedd mwyafrif y cyfweiliadau wedi eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle dyfynir rhan o'r cyfweiliad, cedwir mor agos â phosib at y geiriau gwreiddiol. O ganlyniad nodir y dyfyniadau yn yr iaith wreiddiol, gan gyfieithu i'r Saesneg lle bo angen yn y fersiwn Saesneg.

CYNNWYS

Pennod 1 - CYFLWYNIAD A CHEFNDIR	7
Pennod 2 - DULLIAU YMCHWIL	8
2.1 Ymchwil Desg	8
2.2 Cysylltiadau ag Unigolion a Sefydliadau Allweddol	8
2.3 Cyfweiliadau gyda Defnyddwyr a Staff	9
2.4 Arsylwi Mewn Ysbytai	10
2.5 Arolwg Holiadur Beaufort Research	10
Pennod 3 - YR IAITH GYMRAEG FEL MATER DEFNYDDWYR	11
Pennod 4 - Y CYD-DESTUN EHANGACH - AMLIEITHRWYDD YNG NGHYMRO A'R BYD	13
4.1 Cymru Ddwieithog mewn Ewrop Amlieithog	13
4.2 Y Gymru Gymraeg a'r Gymru Saesneg	13
4.2.1 Ardaloedd "Cymraeg" a "Di-Gymraeg" - Chwalu'r Myth	13
4.2.2 Disgwyliadau Isel	16
Pennod 5 - IAITH A MEDDYGAETH - PWYSIGRWYDD CYFATHREBU	18
Pennod 6 - EGWYDDORION SYLFAENOL	20
6.1 Pum Egwyddor CCETSW	20
6.2 Cylchlythyr 1975 y Swyddfa Gymreig ynglŷn â'r Iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol	20
6.3 Siatr y Claf- Siatr i Gleifion yng Nghymru 1996	20
6.4 Papur Gwyn 1998 Rhoi Cleifion yn Gyntaf	20
6.5 Cynlluniau Iaith Gymraeg Statudol	21
Pennod 7 - TESTUNAU TRAFOD	22
7.1 Canfod Dewis Iaith y Claf	22
7.2 Pedair Carfan Allweddol	24
7.2.1 Iechyd Meddwl	25
7.2.2 Pobl Gydag Anableddau Dysgu ac Anghenion Arbennig Eraill	29
7.2.3 Yr Henoed	30
7.2.4 Plant Ifanc	31
7.3 Therapi Iaith a Lleferydd	33
7.4 Gofal yn y Cartref	35
7.4.1 Ymwelwyr Iechyd	35
7.4.2 Gofal Parhaol yn y Cartref	37
7.5 Beichiogrwydd a Bydwreigiaeth	38
7.6 Ymarferwyr Annibynnol - Meddygon Teulu, Deintyddion a Fferyllwyr	41
7.6.1 Meddygon Teulu	41
7.6.2 Fferyllwyr	42
7.6.3 Deintyddion	42
7.6.4 Ymarferwyr Annibynnol sy'n Dysgu'r Gymraeg	42
7.7 Gwasanaethau Argyfwng a Brys	42

7.8 Agweddau Anfeddygol	44
7.8.1 Radio a Theledu, Cylchgronau a Phapurau Newydd	44
7.8.2 Crefydd a Chaplaniaid	45
7.9 Traffferthion gyda Ffurflenni	46
7.10 Iaith, Tafodiaith a Therminoleg	47
7.11 Sensitifrwydd Diwylliannol	48
7.12 Lledaenu'r Gair - Gwasanaethau Gwybodaeth	49
7.12.1 Gwasanaethau Ffôn	49
7.12.2 Posibiliadau'r Radio	50
PENNOD 8 - DELWEDD A SYLWEDD	52
8.1 Delwedd Allanol	52
8.2 Y Gymraeg ar Bapur	53
8.2.1 Cynhyrchu Deunydd Dwyieithog	53
8.2.2 Cyhoeddi Deunydd Dwyieithog	55
PENNOD 9 - DARPARIAETH CYNHWYSOL I'R GYMRAEG	57
9.1 Sensitifrwydd Iaith	58
9.2 Digon o Gymraeg i Wneud y Tro	59
9.3 Y Gymraeg fel Sgil Hanfodol	60
PENNOD 10 - RECRIWTIO A HYFFORDDI	61
10.1 Hyfforddiant Galwedigaethol ar Gyfer Siaradwyr Cymraeg	61
10.2 Hyfforddiant Iaith ar Gyfer Staff Di-Gymraeg	63
10.3 Hyfforddiant ymwybyddiaeth a Sensitifrwydd	64
PENNOD 11 - MONITRO DARPARIAETH GYMRAEG	66
PENNOD 12 - CYRFF GWIRFODDOL AC ELUSENNOL	68
PENNOD 13 - CASGLIADAU	69
PENNOD 14 - ARGYMHELLION	71

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cyngor Defnyddwyr Cymru wedi bod yn gynyddol gymryd rhan yn y ddaddl ynglyn â rôl, statws a defnydd yr iaith Gymraeg led led Cymru. Mae'r diddordeb yn seiliedig ar y ffaith bod iaith yn fater defnyddwyr go iawn, yn ogystal a bod yn fater o ddiwylliant, gwleidyddiaeth, hunaniaeth ac wrth gwrs cyfathrebu.

Dechreuodd Cyngor Defnyddwyr Cymru ddiffinio diddordeb defnyddwyr mewn iaith yn ei hadroddiad yn 1996, Cymraeg fel mater defnyddwyr. Pwysleisiodd yr adroddiad yma sut a pham y dylid ystyried y cyfleoedd i ddefnyddio yr iaith Gymraeg o safbwynt defnyddwyr. Yn gyffredinol, mae darparwyr gwasanaethau yn dda am edrych ar ôl eu hunain – ond yn aml mae'r defnyddiwr mewn cymhariaeth yn wan.

Dyma'r thema sydd yn codi yn yr adroddiad yma – Y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd. Ehangder, Natur a Digonolrwydd Darpariaeth Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Tra bod yr adroddiad yn cydnabod yn aml, bod gwasanaethau iaith Gymraeg yn gysylliedig â darparu cyfle cyfartal a sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel sydd yn sensitif i anghenion defnyddwyr. Mae hefyd yn cydnabod grwpiau lle bo gwasanaeth yn eu hiaith gyntaf yn angenrheidiol.

Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod achosion gyda cleifion sydd yn siarad Cymraeg, lle na allant gael eu trin yn effeithiol ond drwy eu hiaith gyntaf, neu yn eu dwy iaith. Mae hyn yn arbennig o wir gyda rhai sydd yn derbyn therapi siarad a iaith, ac ar gyfer y grwpiau canlynol:

- ❖ pobl â phroblemau iechyd meddyliol
- ❖ pobl â anabledd dysgu ac anghenion arbennig eraill
- ❖ pobl hŷn, a
- ❖ phlant ifanc

Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion ac yn galw ar newid sylfaenol o ran y GIG yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd yn galw am fwy o arweiniad gan y Cynulliad Cenedlaethol ei hun. Yn bennaf, mae'r adroddiad yn galw am newid yn y meddylfryd. Rhaid iddo fod yn glir bod y cyfrifoldeb, am sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir o fewn y gwasanaeth iechyd yn un y bo pawb yn gyfforddus gydag e, ac yn gyfrifoldeb y darparwyr gwasanaeth ac nid defnyddwyr.

Mae Y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd. Ehangder, Natur a Digonolrwydd Darpariaeth Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn ddarn o waith awdurdodol. Mae'r awdur, Andrew Misell, yn cyflwyno achos cryf a chadarn am newid yn y GIG yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cynnig darllen difrifol ac yn annog sylw y lefel uchaf o lywodraeth yng Nghymru.

Dr Chris Llewelyn, Uwch Swyddog Polisi a Datblygu

Dr Nich Pearson, Cyfarwyddwr

Cyngor Defnyddwyr Cymru



Pennod 1 - CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Dechreuodd y prosiect hwn ar 10 Awst 1998 fel arolwg 6 mis o natur, ehangder a digonolrwydd y ddarpariaeth o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru ar gyfer cleifion Cymraeg eu hiaith a'u teuluoedd. Rhan ydyw o waith parhaol Cyngor Defnyddwyr Cymru dros hybu'r Gymraeg fel cyfrwng defnyddio gwasanaethau yng Nghymru, a rhan hefyd o ymroddiad parhaol y Cyngor i sicrhau hawliau defnyddwyr bregus, yn enwedig mewn sefyllfaoedd anodd a phoenus fel a geir yn aml ym maes gofal iechyd. Oherwydd yr amser byr a oedd ar gael i'w gyflawni, nid arolwg cynhwysfawr mo hwn o bell ffordd. Er hyn, gobaith yr awdur yw ei fod yn rhoi darlun clir a theg o sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y GIG yng Nghymru ar hyn o bryd.

Deilliodd yr adroddiad hwn yn rhannol o bryderon ynghylch agweddau rhai darparwyr gofal iechyd at gyflwyno gwasanaethau yn newis iaith y claf, yn bennaf oll y syniad mai peth atodol yw darpariaeth ddwyieithog y gellir ei gynnwys neu'i hepgor yn ôl y dymuniad. Teimlid hefyd fod y diffiniad o ansawdd gwasanaeth yn un cul iawn, a bod angen rhoi i ddewis iaith y claf ei ystyriaeth ddyledus fel ffactor o bwys ym mhroses trin y "claf cyfan", yn unol â'r syniadau meddygol diweddaraf. Gwelwyd enghraifft ddadlennol iawn o'r diffiniad cul hwn ar waith ar ddechrau'r prosiect yn ymateb un Cyngor Iechyd Cymuned i ymholiad am ddarpariaeth Gymraeg:

"In general, I feel that patient concern about quality of services relates to clinical and care issues and that most people would not be aggrieved if staff, be they medical, nursing or administrative, were unable to converse in the patient's language of choice."

Yn groes i hyn, cred yr awdur na ellir gwahaniaethu mor dwt rhwng materion clinigol a gofal ar y naill law, a materion ieithyddol ar y llaw arall. Dengys y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad fod rhaid ystyried yr holl ystod o anghenion sydd gan gleifion os am eu trin yn effeithiol ac yn llwyddiannus.

Edrychwyd ar wahanol agweddau o'r GIG, yn rhychwantu'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir yn y cartref, mewn meddygfydd lleol, ac mewn ysbytai mawrion. Ni chwiliwyd am ddiffygion a methiannau yn unig; eithr am enghreifftiau hefyd o arfer da y gellid eu trosglwyddo i'r rhannau o'r Gwasanaeth lle y mae'r ddarpariaeth yn ddiffygiol neu'n fethiannus mewn rhyw fodd. Nid yw'n fwriad gan yr awdur fwrw'r bai ar neb na chwilio am fychod dihangol; eithr edrych yn adeiladol ar yr hyn a wneir

ar hyn o bryd a'r hyn y gellid ei wneud o fewn cyfyngiadau adnoddau prin yr GIG ac amser prin ei staff prysur. Ni fwriedir chwaith danbriso na thanseilio ymdrechion clodwiw'r miloedd o staff sy'n gweithio o fewn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru. Dylid nodi ar y dechrau na chafwyd oddi wrth ddefnyddwyr a holwyd yn ystod ymchwil y prosiect ddim byd ond clod a chanmoliaeth ar gyfer y mwyafrif llethol o staff yr GIG, boed yn Gymraeg neu'n ddi-Gymraeg.

Er y rhoddwyd ystyriaeth i'r gwahanol bolisiau iaith a Chynlluniau Iaith Gymraeg sydd i'w cael ym maes iechyd, rhoddwyd sylw yn anad dim i ddefnyddioldeb ymarferol y ddarpariaeth Gymraeg sydd i'w cael i gleifion mewn gwirionedd. Wrth wneud hyn, canfuwyd dau gategori o gleifion Cymraeg eu hiaith:

- (i) Y rhai y mae darpariaeth Gymraeg yn angen clinigol wrth eu trin; naill ai am na ellir cyfathrebu'n effeithiol â nhw ond y Gymraeg, neu am fod eu triniaeth yn ymwneud yn benodol â'u hiaith neu'u lleferydd. O fewn y dosbarth cyntaf hwn o bobl, canfuwyd pedair carfan allweddol a disgrifir y rhain a'u hanghenion yn Adran 7.2.
- (ii) Y rhai y mae mater o arfer da yw rhoi iddynt wasanaeth yn eu dewis iaith lle y bo hynny'n bosibl.

Ar ddiwedd yr adroddiad, ceir nifer o argymhellion ymarferol a realistig, sy'n seiliedig ar gydnabod natur gymhleth y sefyllfa ieithyddol yng Nghymru a'r problemau gwirioneddol sy'n wynebu darparwyr gofal iechyd wrth geisio darparu'n briodol ar gyfer poblogaeth gwlad ddwyieithog. Mae'r astudiaeth yn canolbwynto ar y maes iechyd ond mae yna berthnasedd hefyd i fathau eraill o wasanaeth i'r cyhoedd. Hynny yw, mae gwersi i feiysydd eraill o fewn y ddogfen.

Dangosodd yr arolwg a gynhaliwyd gan NOP ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym Mawrth 1995 fod cryn gefnogaeth i hybu defnyddio'r Gymraeg yn y sector cyhoeddus, ac 83% o'r rhai a holwyd yn credu y dylai pob corff cyhoeddus allu delio â phobl yn Gymraeg a Saesneg. Adeiladu ar sail y gronfa honno o ewylllys da tuag at yr iaith yw amcan yr adroddiad hwn, a symud tuag at Wasanaeth Iechyd Gwladol a fedr ymateb yn well i anghenion ieithyddol pobl Cymru.

Dewiswyd methodoleg ar gyfer y prosiect hwn ar sail confensiynau gwyddor gymdeithasol, gan edrych ar y dulliau sydd wedi gweithio'n dda yn astudiaethau Cyngor Defnyddwyr Cymru yn y gorffennol a'u haddasu at y maes penodol dan sylw. Rhoddir y prif bwyslais ar geisio barnau defnyddwyr cyffredin, ac i raddau llai barnau proffesiynolion meddygol a syniadau ymchwilwyr ac arbenigwyr ym meysydd gofal ac/neu iaith. Gosodir y wybodaeth hon yng nghyd-destun y corff o waith ymchwil sydd eisoes wedi'i wneud ym meysydd iaith a gofal iechyd.

2.1 Ymchwil desg

Parhaodd yr ymchwil desg drwy'r rhan fwyaf o'r prosiect wrth i fwy o ddeunydd ddogfennau amser. Edrychwyd ar nifer fawr o ddogfennau swyddogol ynglŷn â'r iaith Gymraeg ac ynglŷn â gwahanol agweddau ar ofal iechyd, gan gynnwys pob Cynllun iaith Gymraeg a gyhoeddwyd gan gyrrff iechyd hyd yn hyn. Astudiwyd nifer o erthyglau ac adroddiadau yn ymwneud â materion Gymraeg ond heb ynddynt ddim sôn yn benodol am ofal iechyd, a vice versa rhoddwyd sylw i ddogfennau yn ymdrin â gofal iechyd ond nad oes a wnelont ddim byd yn benodol ag iaith. Gobaith yr awdur yw trosglwyddo rhai o'r gwersi a ddysgwyd eisoes mewn meysydd eraill lle y mae iaith wedi bod yn destun trafod, a hefyd cyfeirio at syniadau cyfoes ynglŷn ag ansawdd gofal iechyd wrth ystyried iaith a dwyieithrwydd yng nghyd-destun y GIG yng Nghymru.

Ceir llyfryddiaeth gynhwysfawr ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

2.2 Cysylltiadau ag Unigolion a Sefydliadau Allweddol

Cysylltwyd â'r sefydliadau canlynol:

Age Concern Cymru

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru / Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Canolfan Bedwyr, Prifysgol Cymru, Bangor
Cefn

Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (Royal College of Speech and Language Therapists)
Cymdeithas Atal Dweud Prydain (British Stammering Association)

Cymdeithas Genedlaethol y Cynhalwyr (National Carers Association)

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Cymdeithas y Strôc (The Stroke Association)

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifainc Cymru

Y Gymdeithas Feddygol Gymraeg

Y Gymdeithas Ddeintyddol Gymraeg

Y Gymdeithas Sgitsoffrenia Genedlaethol (National Schizophrenia Fellowship)

Holl Gyngorau Iechyd Cymuned Cymru

Mencap yng Nghymru

Menter Caerdydd

Menter Cwm Gwendraeth

Menter Hiraethog

Menter Maldwyn

Menter Taf Elái

Mercator (Rhwydwaith Gwybodaeth a Dogfennau ar Gyfer Ieithoedd Llai yr Undeb Ewropeaidd)

Merched y Wawr

Mind Cymru

Mudiad yr Ysgolion Meithrin

PIGO (Pwyllgor i Gymreigio Ogwr)

Sefydliad y Merched

Sefydliad Iechyd Gwledig / Institute of Rural Health, Neuadd Gregynnog

Urdd Gobaith Cymru

Cysylltwyd â'r cyrff canlynol heb gael ymateb:

Awdurdod Iechyd Dyfed Powys

Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed

Cyngor Iechyd Cymuned Caerfyrddin / Dinefwr

Cyngor Iechyd Cymuned Conwy

Cyngor Iechyd Cymuned Dyffryn Clwyd

Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Ddwyrain Cymru

Cyngor Iechyd Cymuned Maldwyn

Cyngor Iechyd Cymuned Ynys Môn

Ymddiriedolaeth GIG Derwen a Phenfro

Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys

Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Gwynedd

Ymddiriedolaeth Ysbyty Maelor Wrecsam

Cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb manwl â'r 20 unigolyn allweddol canlynol:

Arvind Bhatt, Ymchwilydd i ieithoedd lleiafrifol yn ardal Caerlŷr

Cefin Campbell, Cyfarwyddwr Mentrau Iaith Myrddin

Eleri Carrog, Ysgrifennydd Gweithredol y mudiad hawliau iaith Cefn

Dr Carl Clowes, Cyfarwyddwr Meddygol

Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Powys

Dr Dorothi Clowes, Cynghorwraig Therapyddion Iaith a Lleferydd yng Nghymru

Elaine Davies, Ymchwilydd llawrydd ym maes gwaith cymdeithasol

Karen Davies, Cydlynnydd Rhaglenni, Ysgol Gwyddor Iechyd, Prifysgol Cymru, Abertawe

Jeremy Evans, Myfyriwr Ymchwil, Adran Gymraeg Prifysgol Cymru, Caerdydd

Dr Dafydd Huws, Seiciatrydd ymgynghorol

Rhian Huws Williams, Pennaeth CCETSW Cymru

Twm Jones, Nyrs iechyd meddwl yn ardal Arfon ac un o sylfaenwyr Grŵp Cymraeg Gweithwyr Iechyd Meddwl Gwynedd

Yr Athro Marilyn Martin-Jones, Athro Dwyieithrwydd ac Addysg Prifysgol Cymru, Aberystwyth

Siân Munro, Therapydd lleferydd a Phrif Ddarlithydd, Cyfadran Gwyddorau Iechyd Cymunedol / Faculty of Community Health Sciences, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC)

Siân Pugh Davies, Bydwraig yn Ysbyty Singleton, Abertawe, ac ymchwilydd i'r Gymraeg ym maes iechyd

Gwerfyl Roberts, Darlithydd gyda Chyfrifoldeb am Ddatblygiadau Trwy'r Gymraeg, Ysgol Astudiaethau Nyrsio a Bydwreigiaeth Prifysgol Cymru, Bangor

Mik Standing, Swyddog Cydraddoldeb, Anabledd Cymru / Disability Wales

Gwenan Thomas, Bydwraig yn ardal Llanbedr Pont Steffan ac ymchwilydd ym maes iechyd ym Mhrifysgol Morgannwg

Dafydd Wigley, Aelod Seneddol Caernarfon

Yr Athro Colin Williams, Athro Ymchwil, Adran Gymraeg Prifysgol Cymru, Caerdydd

Hywel Williams, Cymad, Canolfan Adnoddau Gwledig, Porthmadog

Cyfwelwyd dros y ffôn â'r 4 unigolyn allweddol canlynol:

Delyth Byrne, Cymorth i Fenywod yng Nghymru

Gareth Kiff, Cyn-Gadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Elfrys Jones, Swyddog Iaith, Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru

Dr Glyn Williams, Canolfan Ymchwil Cymru / Research Centre Wales, Prifysgol Cymru, Bangor

2.3 Cyfweiliadau gyda Defnyddwyr a Staff

Rhwng 19 Hydref a 9 Rhagfyr cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb cyfrinachol â 43 o bobl (yn ogystal â'r 20 o unigolion allweddol a enwir

uchod). Defnyddwyr cyffredin gwahanol rannau o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol oedd y rhan fwyaf o'r rhain, er bod yn eu plith nifer o broffesiynolion meddygol a nifer o gyn-weithwyr iechyd wedi ymdeol. Mewn modd lled-strwythuredig, penagored, holwyd am unrhyw brofiadau penodol yr oedd y cyfweledigion am eu trafod, a hefyd am eu profiadau cyffredinol fel siaradwyr Cymraeg yn mynd trwy'r system gofal iechyd. Lluniwyd rhestr o gwestiynau ar gyfer y cyfweiliadau rhag ofn iddynt droi'n sgorsiau digyfeiriad, ond ni ofynnwyd pob cwestiwn i bob person bob tro gan mai ysgogi defnyddwyr i siarad am eu profiadau oedd y nod, yn hytrach na chasglu data i'w ddadansoddi'n ystadegol. Holwyd gweithwyr a chyn-weithwyr iechyd am eu profiadau o ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio, a hefyd am eu profiadau fel cleifion.

Recriwtiwyd cyfweledigion mewn tair prif ffordd:

- (i) Cyhoeddwyd llythyr agored yn gwahodd gweithwyr iechyd a defnyddwyr y Gwasanaeth Iechyd i gyfrannu at y prosiect yn y papurau dyddiol canlynol: *The Western Mail*, *The Daily Post*, *South Wales Argus*, *South Wales Echo*, *South Wales Evening Post*, ac yn y ddau wythnosolyn Cymraeg, *Y Cymro* a *Golwg*. Danfonwyd fersiynau o'r llythyr hefyd at holl bapurau bro Cymru, at bob papur wythnosol a gyhoeddir yng Nghymru. Cyhoeddwyd erthygl fer am y prosiect yn *Big Issue Cymru*, a rhoddwyd sylw iddo hefyd ar y rhaglen radio *Post Prynawn*.
- (ii) Cytunodd Cymdeithas Genedlaethol y Cynhalwyr a'r Gymdeithas Sgitsoffrenia Genedlaethol i bostio llythyron agored ymlaen at bob un o'u haelodau y gwyddys eu bod yn siarad Cymraeg. Rhoddodd *Mind Cymru* restr o'u holl drefnyddion sirol inni, inni gael danfon gwybodaeth am y prosiect atynt iddynt ei phasio ymlaen at aelodau lleol.
- (iii) Daethpwyd i gysylltiad â nifer o bobl eraill trwy rwydweithiau personol, a thrwy awgrymiadau rhai o'r bobl y cysylltwyd â nhw yn y ddwy ffordd uchod.

Yn ogystal â'r cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb, cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn â 7 o ddefnyddwyr a staff meddygol. At hyn, derbyniwyd llythyron hir yn sôn am eu profiadau gan 4 o bobl eraill na chyfwelwyd â nhw yn bersonol. Cysylltwyd hefyd â nifer o bobl oedd wedi cysylltu â Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyda sylwadau a chwynion ynglŷn â'r iaith Gymraeg ym maes gofal iechyd, a sicrhawyd caniatâd y rhain i astudio eu tystiolaeth i'r Bwrdd.

Pennod 2– Dulliau Ymchwil

Gwelwyd yr un themau yn codi yn weddol gyson mewn cyfweiliadau a chleifion a staff Cymraeg a disgrifir y themâu hyn ym Mhennod 7: Testunau Trafod.

2.4 Arsylwi Mewn Ysbytai

Fel prawf bach o'r graddau y mae Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru rhoi'r argraff i gleifion Cymraeg fod croeso iddynt ddefnyddio eu dewis iaith, gwnaethpwyd gwaith arsylwi ym mannau derbyn 7 ysbyty cyffredinol ar draws Cymru. Yn ystod y gwaith hwn, edrychwyd ar y pethau canlynol:

- (i) Ymateb staff y dderbynfa i ymholiad llafar syml yn Gymraeg.
- (ii) Amllder, ansawdd, ac eglurder arwyddion dwyieithog.
- (iii) Dwyieithrwydd pamffledi a thafleini sydd ar gael i gleifion
- (iv) Dwyieithrwydd posteri a hysbysiadau ar hysbysfyrddau
- (v) I ba raddau y mae cyfnodolion Cymraeg ar gael yn y siop(au) a ddarperir o fewn cyffiniau'r ysbyty ar gyfer staff a chleifion a'u teuluoedd.

2.5 Arolwg Holiadur Beaufort Research

Yn ategol i'r ymchwil ansoddol a ddisgrifir uchod, comisiynwyd cwmni ymchwil Beaufort Research i wneud astudiaeth ystadegol o brofiadau defnyddwyr o'r Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd ar sail arolwg holiadur o sampl o 452 o bobl a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 1998.

Pennod 3 - YR IAITH GYMRAEG FEL MATER DEFNYDDWYR

Hyd yn gymharol ddiweddar, un o bynciau llosg y Gymru gyfoes oedd yr iaith Gymraeg, ei phwysigrwydd a'i dyfodol. Rhywbeth yr oedd disgwyl i rywun fod naill o'i blaid neu yn ei erbyn oedd yr iaith; rhywbeth a oedd naill ai yn hollol hanfodol i unrhyw ddiffiniad o Gymreictod, neu'n weddill o'r gorffennol a holltai'r boblogaeth ac ychwanegu'n ddiangen at gost gweinyddiaeth y wlad. Daeth yn gynyddol amlwg yn ystod y deng mlynedd diwethaf fod troi ar fyd yn digwydd yn agweddau'r Cymry at y Gymraeg. Er gwaethaf ymdrechion diweddar rhai o bleidwyr a dilornwyr selocaf y Gymraeg i ailgynnu fflamau'r ffraeo gwleidyddol, nid yw "pwnc yr iaith" bellach yn un dadleuol yn rhyb y rhan fwyaf o bobl Cymru. Dangosodd arolwg NOP ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 1995 fod 77% o'r bobl a holwyd yn gweld y Gymraeg yn gaffaeliad i Gymru, ac 88% yn ei gweld yn rhywbeth i fod yn falch ohono. Mae'n glir bellach fod consensws eang wedi tyfu o blaid ffyniant yr iaith, ymhlith siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd. Hanfodol bwysig i ddyfodol yr iaith ac i lwyddiant a chynnydd gwasanaethau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg yw cynnal a chadw'r consensws hwnnw, a hybu'r ymdeimlad ymhlith pawb yng Nghymru eu bod yn berchen ar yr iaith ac yn gallu ymfalchio ynddi.

Yn y cyd-destun anwleidyddol hwn, y mae edrych ar gwestiynau ynglŷn â'r Gymraeg trwy sbectol defnyddiaeth yn arbennig o fuddiol. Trwy ystyried dewis iaith fel rhan o wasanaeth o safon i ddefnyddwyr, gellir tynnu'r Gymraeg yn gyfan gwbl allan o dalwrn ceiliogod ymgecu pleidiol, ac yn rhydd rhag pob dadl ynglŷn â chenedligrwydd a diffiniadau o Gymreictod. Fel y nododd Dr Dafydd Huws, y mae pedwar rheswm posibl dros ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg:

- (i) er mwyn yr iaith
- (ii) er mwyn yr egwyddor
- (iii) er mwyn y darparwr
- (iv) er mwyn y defnyddiwr
(Roberts, G., 1997)

O safbwynt defnyddiaethol, yr olaf a dim ond yr olaf o'r pedwar rheswm hyn sy'n ddilys a pherthnasol. Nid sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg, na chynnal egwyddor dwyieithrwydd, na hwyluso gwaith darparwyr gwasanaethau yw'r nod yr anelir ato; eithr darparu'n addas ar gyfer defnyddwyr Cymraeg eu hiaith.

Amlinellir safbwynt Cyngor Defnyddwyr Cymru ar yr iaith Gymraeg yn y ddwy ddogfen **Defnyddwyr a'r Iaith Gymraeg** (Cyngor Defnyddwyr Cymru, 1993) ac

Y Gymraeg fel Mater Defnyddwyr / Welsh as a Consumer Issue (Cyngor Defnyddwyr Cymru, 1996). Yn y gyntaf o'r ddwy ddogfen hyn, ceir crynodeb twt o safbwynt y Cyngor ar y Gymraeg:

"Yng Nghymru gwelir iaith yn aml fel mater gwleidyddol a diwylliannol. Hynny yw, caiff iaith ei gweld yng nghyddestun statws, hanes, hawliau a dyheadau a hunaniaeth grwpiau o bobl. Ond gellir hefyd ystyried iaith fel mater defnyddwyr. Hynny yw, medrir ei hystyried yn nhermau dewis, cyrchedd a thegwch i'r unigolyn." (Cyngor Defnyddwyr Cymru, 1993)

Ar hyn o bryd, y mae defnyddio'r Gymraeg wrth geisio mynediad i lawer o wasanaethau yn dal i fod yn debyg o arwain at un o ddau beth:

- (i) naill ai at storm o ffwdan anghyffyrddus wrth i helpa ddechrau am yr aelod o staff sy'n gwybod am y fath bethau;
- (ii) neu ar y gwaethaf at wrthdrawiad personol rhwng y darparwr a'r defnyddiwr unigol.

Ni all y fath brofiadau â'r rhain ond atgyfnerthu'r duedd draddodiadol ymhlith rhan fawr o boblogaeth ddwyieithog Cymru i gadw'r Gymraeg at ddefnydd cymdeithasol a theuluol tra'n troi at y Saesneg mewn sefyllfaoedd cyhoeddus a/neu swyddogol. Nid yw hon yn broblem sy'n unigryw i Gymru, a sylwyd arni hefyd yng Nghatalonia, cymdeithas ddwyieithog arall sydd â hanes o wrthdaro ieithyddol. Mewn un o ddogfennau polisi llywodraeth ranbarthol Catalonia ar yr iaith Gatalaneg, disgrifir fel y mae rhai yn amharod i ddefnyddio'r Gatalaneg gyda chyrrff cyhoeddus gan na ellir bod yn sicr y cânt eu deall. Os defnyddir Sbaeneg, gellir bod yn sicr na fydd rhaid newid iaith nac "establish a sort of below-the-surface argument with the civil servant attending him or her, an argument that is explicitly expressed through disfunctions in the interaction." (Generalitat de Catalunya, 1995).

Fel y nodwyd uchod, cyrchedd, dewis a thegwch i'r unigolyn yw'r cyd-destun yn yr adroddiad hwn ar gyfer pwyso a mesur pwysigrwydd darpariaeth Gymraeg. Yr un syniad o gyrchedd a dewis a ymgorfforir yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer paratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg:

"O hyn ymlaen, ddylai siaradwyr Cymraeg ddim gorfod pwyso am wasanaeth yn Gymraeg... Dylai gwneud cais i ddefnyddio'r Gymraeg ddod yn ddim mwy na gwneud dewis / It should no longer be the case that Welsh speakers have to press for a service in Welsh... A request to use Welsh should become no more than making a choice." (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996)

Pennod 3– yr Iaith Gymraeg Fel Mater Defnyddwyr

Er mwyn i'r fath ddewis fod yn un gwirioneddol a realistig, y mae rhaid iddo fod yn un rhwydd a chyfleus i bob ddefnyddiwr, gan gynnwys y rhai sydd leiaf abl i fynegi eu dewis yn glir a hyderus. Nid yw'r huotlaf na'r mwyaf hyderus o ddefnyddwyr yn debyg o fynnu gwasanaeth Gymraeg os byddant yn pryderu y cânt eu gweld yn gwsmeriaid trafferthus, neu y bydd rhaid iddynt dindroi am amser maith yn aros amdano, neu y cânt waeth gwasanaeth o'i gael yn Gymraeg. Wrth reswm, y mae hyn yn wiriach fyth am ddefnyddwyr sydd eisoes yn teimlo'n ddihyder neu mewn cyflwr bregus. I ryw raddau, defnyddwyr bregus yw pob un ohonom pan awn at y meddyg neu i'r ysbyty gan ein bod yn mynd yno i geisio cymorth i wella anaf neu salwch, ac yn aml i drafod materion pur bersonol a sensitif. Prin iawn yw'r rhai sy'n teimlo y gallant fynnu eu hawliau fel defnyddwyr yn y fath sefyllfa, faint bynnag mor hyderus fyddant fel arfer. At hyn, canfuwyd pedair carfan allweddol o ddefnyddwyr gofal iechyd sydd efallai yn arbennig o fregus, a'r bregusrwydd hwnnw yn gyflwr parhaol. Y pedair carfan a ddynodwyd yw:

- (i) cleifion iechyd meddwl
- (ii) pobl a chanddynt anableddau dysgu ac anghenion arbennig eraill
- (iii) yr henoed
- (iv) plant ifanc

Cleifion o blith y pedwar grŵp hyn yn aml yw'r lleiaf tebygol o fynnu cael cyfathrebu yn eu dewis iaith, ond nhw hefyd yw'r rhai sydd weithiau a'r angen mwyaf i wneud hynny. Yn Adran 7.2 o'r adroddiad hwn, rhoddir ystyriaeth arbennig i anghenion penodol y pedair carfan hyn. Edrychir ar yr hyn a wneir ar hyn o bryd i gwrdd ag anghenion y siaradwyr Cymraeg yn eu plith, ac ar yr hyn y gellid ei wneud i wella'r ddarpariaeth ar eu cyfer.

Pennod 4 - Y CYD-DESTUN EHANGACH - AMLIEITHRWYDD YNG NGHYMURU A'R BYD

4.1 Cymru Ddwieithog mewn Ewrop Amlieithog

Mae'r iaith Saesneg o'n cwmpas ar bob ochr ac yn rhan gyson o fywydau bron pob un ohonom. Trwy gyfrwng y diwylliant Eingl-Americanaidd bywiog a deniadol, y mae'r Saesneg wedi codi o'i dechreuadau distadl i fod yn iaith rymus a phoblogaidd, a lledaenir ei dylanwad i bob cwr o'r byd trwy gyfryngau torfol. Tuedd go gyffredinol yng ngwledydd Prydain a pharthau eraill lle y mae'r Saesneg yn dominyddu yw i weld unieithrwydd Saesneg yn rhyw fath o norm digyfnwid, ac y mae Prydeinwyr ac Americanwyr fel ei gilydd yn ddjarhebol bron mewn gwledydd tramor am eu hanallu wrth fynd i'r afael ag ieithoedd estron. O'r sefyllfa hon, tyfodd camdybiaeth sylfaenol ymhlith rhai siaradwyr uniaith Saesneg mai peth anghyffredin a diangen o drafferthus yw dwyieithrwydd. Mae'r realiti ychydig yn wahanol, fel y dengys y ffeithiau isod:

- Amcangyfrifir bod 60-70% o boblogaeth y byd yn byw gweithio'n ddwyieithog neu'n amlieithog o ddydd i ddydd.
- O fewn yr Undeb Ewropeaidd (UE) y mae'r Deyrnas Unedig yn rhan annatod ohoni, y mae tua 50 miliwn o bobl yn defnyddio iaith yn eu bywydau beunyddiol sy'n wahanol i iaith swyddogol y wladwriaeth y maent yn byw ynddi.
- Yn Sbaen, er mai Castileg (yr iaith a adweinir fel arfer fel "Sbaeneg") yw prif iaith y wladwriaeth, mae 5 miliwn o bobl yn medru'r Gatalaneg a niferoedd sylweddol iawn yn siarad Galiseg a Basgeg.
- O holl wledydd yr UE, Portiwgal yn unig sydd heb leiafrif ieithyddol tiriogaethol.

Yng ngolau'r ffeithiau hyn, nid yw sefyllfa ddwyieithog Cymru yn ymddangos hanner mor rhyfedd â phan edrychir arni o safbwynt unieithrwydd Saesneg fel norm. O'r safbwynt Ewropeaidd hwn, gallwn ni gydnabod dwyieithrwydd Cymru yn sefyllfa hollol naturiol ac arferol i'w derbyn a'i chrosawu, yn hytrach nag yn broblem y mae'n rhaid ymgodymu â hi. A thrwy gydnabod amlieithrwydd yn norm, cawn fynd ymlaen i wrthweithio effeithiau camddealltwriaethau traddodiadol am natur meddwl y siaradwr dwyieithog a phwysigrwydd ei ddwy iaith yn ei brosesau meddwl:

"Mae perygl o drin person sy'n siarad Cymraeg fel petai'n ddau berson mewn un - yn rhywbeth od. Gellid osgoi camsyniadau sylfaenol trwy ddeall sut mae gwybodaeth o ddwy iaith oddi mewn i berson cyflawn ac integredig yn cael ei rheoli. Mae ystyried un o'r ieithoedd fel ffactor

niwsans yn anghydawns â thrin y cleient fel person cyflawn ac integredig. Felly mae'n hanfodol i fframweithiau sefydliadol a statudol gydnabod bod y ddwy iaith yn angenrheidiol a bod defnydd ohonynt yn rhan hollol normal o weithgaredd proffesiynol. / There is a danger of treating the Welsh-speaker as somehow two persons in one - a kind of oddity. Fundamental misconceptions can be avoided by understanding how knowledge of two languages can be controlled within a single complete and integrated person. Regarding one of the languages as a nuisance factor is incompatible with treating the client as an integrated and complete whole. Hence it is crucial that institutional and statutory frameworks recognise both languages as necessary and their use as a perfectly normal part of professional activity." (Bellin W. yn Huws Williams, Rh., Williams, H. & Davies E., 1994)

4.2 Y Gymru Gymraeg a'r Gymru Saesneg

4.2.1 Ardaloedd "Cymraeg" a "Di-Gymraeg" - Chwalu'r Myth

Tybiaeth go gyffredin ond camarweiniol yw'r un fod y fath bethau yng Nghymru ag ardaloedd "Cymraeg" a rhai "di-Gymraeg". Mewn tair ffordd, y mae'r dybiaeth hon yn un anghywi'r:

- (i) Mae'n dibynnu ar resymeg wallus sy'n ystyried prinder siaradwyr Cymraeg yn gyfystyr â'u habsenoldeb llwyr.
- (ii) Mae'n seiliedig ar syniadau hen-ffasiwn a rhagfarnllyd am natur ac ehangder tiriogaeth ddaeryddol yr iaith Gymraeg, syniadau na fuont erioed yn wirioneddol ddilys, ac sy'n mynd yn gynyddol ddiystyr bob dydd. Yn bennaf oll ymhlith y rhain y mae'r gred mai iaith yr henoed, trigolion cefn gwlad, a gogledd a gorllewin Cymru yn unig yw'r Gymraeg.
- (iii) Yng nghyd-destun darparu gwasanaethau, gall arwain at y gred y caiff darparwyr anwybyddu a diystyru'r Gymraeg wrth gynllunio gwasanaethau mewn rhai ardaloedd.

Mae cipolwg ar ffigurau'r Cyfrifiad diweddaraf, a gynhaliwyd yn 1991, yn ddigon i chwalu'r myth fod yr iaith Gymraeg yn gyfyngedig i rai rhannau o Gymru. Yn 1991, cofnodwyd bod 18.6% o boblogaeth Cymru yn medru'r Gymraeg (508,098 o bobl allan o gyfanswm poblogaeth o bobl dros dair oed o 2,723,623). Yn arwynebol, y mae'r ffigurau'n

cadarnhau'r dybiaeth mai iaith y gogledd a'r gorllewin gwledig yw'r Gymraeg - yn hen siroedd Dyfed a Gwynedd y cafwyd 55.7% o'r 18.6% - ond y mae rhaid edrych yn ddyfnach ac yn fanylach i gael hyd i'r gwir ddarlun. O gyfrif cyfansymiau o bobl mewn ardaloedd penodol, fe geir darlun eithaf gwahanol i'r un gorsymyl a welir os edrychir ar ganrannau o'r boblogaeth. Er enghraifft, er mai dim ond 6.6% o drigolion Caerdydd sy'n medru'r Gymraeg, golyga hynny fod tua 18,000 bobl y Brifddinas yn siaradwyr Cymraeg, dwywaith cymaint o siaradwyr ag sydd i'w cael yng Nghaernarfon. At ei gilydd, y mae mwy o siaradwyr Cymraeg yn Abertawe a Chaerdydd (47,637) nag sydd yn Ynys Môn i gyd (41,240). Hyd yn oed yn hen sir Gwent, lle y mae'r Gymraeg ar ei gwanaf yn draddodiadol, cofnodwyd 10,339 o bobl yn medru'r Gymraeg yn 1991, ac ni chafodd y Cyfrifiad yr un ward etholiadol yng Nghymru i gyd a oedd yn gwbl ddi-Gymraeg. Wyesham a St. Mary's (bellach yn sir Fynwy) oedd dwy ward leiaf Cymraeg y wlad, a chanddynt 14 yr un o siaradwyr Cymraeg (0.8% o boblogaeth y ddwy ward ar gyfartaledd).

Ar ben hyn, ffactor arall na ddylid ei anwybyddu yw natur ansefydlog a chyfnewidiol tiriogaeth yr iaith, wrth i batrwm y boblogaeth newid ac wrth i agweddau at yr iaith ddatblygu. Os bu'n wir erioed mai iaith cefn gwlad y gogledd a'r gorllewin yw'r Gymraeg, yn sicr ni ellir honni hynny mwyach. Yn nhrefi'r de-ddwyrain y mae twf yr iaith i'w weld yn fwyaf trawiadol ar ffurf ffyniant addysg Gymraeg i blant a thwf mudiadau fel yr Urdd, ac ar ffurf presenoldeb gweladwy amlycach o dipyn i'r iaith mewn siopau a swyddfeydd. Dengys dadansoddiad John Aitchison a Harold Carter o ffigurau'r Cyfrifiad o ddechrau'r ganrif hyd at 1991 mai cynyddol amherthnasol yw'r cysyniad o "Fro Gymraeg" fel caer o Gymreictod yng nghanol môr o Seisnigrwydd:

"Past censuses have all drawn attention to the gradual break up of a once discrete and distinctive core area (Y Fro Gymraeg)... The decline in the heartland has a reciprocal in the resurgence that has been identified in the areas lying outside it."

Cydnabyddir y newidiadau hyn a'u heffeithiau posibl o ran darparu gofal iechyd yn y cyflwyniad i Gynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Iechyd Gwent, sy'n gwasanaethu ardal y mae prin 2% o'i phoblogaeth yn medru'r Gymraeg ar hyn o bryd:

"Rydym yn cydnabod fod diddordeb cynyddol yn y Gymraeg yng Ngwent a bod ysgolion Cymraeg yn ffynnu yn rhai o'r ardaloedd mwyaf Seisnigedig. Fe allai cenhedlaeth newydd o siaradwyr Cymraeg fynnu eu hawl i ymwneud â'r

GIG lleol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bosibl y byddai llawer mwy yn gwneud hynny petai ganddyn nhw hyder y gallai eu hymholiad gael ei drin yn llwyddiannus drwy gyfrwng yr iaith. / We recognise that there is a growing interest in Welsh in Gwent and that Welsh language schools are flourishing in some of the most anglicised areas. A new generation of Welsh speakers might assert their right to relate to the local GIG through the medium of Welsh. Many more might already do so if they were confident their query could be dealt with successfully in the language."

Ymddengys, felly, fod angen ailystyried o ddirif syniadau confensiynol am diriogaeth yr iaith Gymraeg. Bydd defnyddwyr yr iaith yn fwyfwy yn rhai trefol, ifanc, ac yn rhai sydd wedi ennill yr iaith y tu allan i'w cartrefi. I lawer o'r fath siaradwyr, y mae'r iaith Gymraeg yn "ail iaith" yn gymaint ag mai hi oedd yr ail iaith a ddysgasant. Ond ni ddylid estyn ystyr y term "ail iaith" i olygu bod yr iaith Gymraeg rywsut yn iaith eilradd iddynt, yn llai canolog i'w hunaniaeth neu'n gyfrwng y maent yn llai medrus ynddo na'r siaradwyr a gafodd y Gymraeg yn famiaith.

Mae'r newidiadau hyn yn arwain at ffurfio mathau newydd o rwydweithiau Cymraeg sy'n wahanol iawn i'r hen bentrefi uniaith Gymraeg - rhwydweithiau trefol o siaradwyr yn byw mewn amgylchedd lle na fydd y Gymraeg byth yn brif iaith y gymdeithas:

"Towns are cosmopolitan places where Welsh is inevitably brought face to face with English. It follows that it is much more difficult to live a life wholly Welsh in an urban area, and the larger the town the more difficult it is, regardless of the number of Welsh speakers."
(Aitchison & Carter, 1994).

Mwy buddiol erbyn hyn, yn hytrach na meddwl am "gymunedau Cymraeg" yw meddwl unigolion a theuluoedd Cymraeg yn y gymuned. Ar wahân i ychydig bentrefi unigol, prin iawn yw'r llefydd y mae'r gymuned leol yn drwyadl Gymraeg. Mewn nifer fawr o lefydd y mae unigolion a theuluoedd Cymraeg ar wasgar dros ardaloedd daearyddol helaeth, ac wedi'u cysylltu â'i gilydd trwy rwydweithiau personol trefnedig yn hytrach na rhwydweithiau cymunedol traddodiadol. Gall rhai siaradwyr Cymraeg fod yn bur ynysedig, heb fod yn rhan o unrhyw gymuned Gymraeg ond er hynny yn awyddus i gael mynediad i wasanaethau yn y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig berthnasol wrth ystyried y rhai sy'n trigo yn y fath lefydd â Wyesham a St. Mary's, sir Fynwy. ac oni bai ein bod am ddweud nad yw buddiannau'r 28 o Gymry Cymraeg yn y ddwy ward hyn ddim o bwys, ni allwn

gyfiawnhau eu diystyru trwy alw eu hardaloedd yn rhai "di-Gymraeg".

At hyn, y mae rhaid cofio mai fel unigolion y daw cleifion at y Gwasanaeth Iechyd ar gyfer triniaeth, yn hytrach nag fel cynrychiolwyr cymunedau, ac mae anghenion a dymuniadau arbennig pob claf unigol cyn bwysiced â'i gilydd. O edrych ar bethau fel hyn, nid yw Cymreictod neu ddiffyg Cymreictod yr ardal mae'r claf yn byw ynnddi yn berthnasol o gwbl wrth ystyried a ddylid darparu ar ei gyfer yn Gymraeg. Pwynt yw hwn a gydnabuwyd yng Nghylchlythyr 1975 y Swyddfa Gymraeg ar yr iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd (gweler Adran 6.2):

"Fodd bynnag, gellir yn aml gynorthwyo'r berthynas rhwng y rhai sy'n ceisio gwasanaeth a'r rhai sy'n ei roi yng Nghymru drwy gydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r sawl sy'n ei defnyddio fel iaith gyntaf. Mae hyn yn amlwg ddigon mewn ardaloedd Cymraeg ac y mae yr un mor wir yn hanes unigolion sy'n byw mewn ardaloedd Saesneg. / Relationships between those seeking and those providing service in Wales can often be assisted by recognising the importance of the Welsh language to those whose first language it is. This is self-evident in predominantly Welsh-speaking areas, and applies equally to many individuals living in English-speaking areas."

Cydnabuwyd y pwynt hwn hefyd mewn cyswllt â chwestiynau ynglŷn â darparu ar gyfer ieithoedd lleiafrifol eraill yn llyfryn Uned Iechyd Ethnig yr GIG, *Ethnicity and Health in England*. Sylwir yn hwnnw ar y perygl yn Lloegr, fel yr un a geir ynglŷn â'r iaith Gymraeg yng Nghymru, o dybio bod poblogaethau o leiafrifau ethnig i'w cael mewn rhai ardaloedd penodol yn unig. O feddwl fel hyn, ceir y perygl difrifol, fel yn achos y Gymraeg, y caiff poblogaethau bychain eu hesgeuluso a'u hanwybyddu am nad yw eu presenoldeb yn ddigon amlwg i ysgogi darparwyr gwasanaethau i drefnu a chynllunio ar eu cyfer:

"The issue is important not just for health authorities with large black and minority ethnic populations, but also for authorities where the numbers are smaller and hence there is a risk that their needs will be overlooked. Relatively small minority ethnic populations can be the most isolated and disadvantaged in terms of access to health care." (Balarajan & Raleigh, 1995)

Mewn cyfweiliadau gyda staff gofal iechyd, disgrifiodd un nyrs, un cyn-nyrs, a gweithwraig gymdeithasol ysbyty eu gwahanol brofiadau o ddarganfod y "Cymry cudd" mewn ardaloedd a gyfrifir yn gyffredinol yn un "ddi-Gymraeg". Soniodd y tri hyn

am ddiolchgarwch a gwerthfawrogiad y bobl hyn wrth ganfod bod aelod o staff yn medru cyfathrebu â nhw yn eu hiaith gyntaf. Dyma ddisgrifiad y nyrs wedi ymddeol o'i brofiadau ef o ddod ar draws cleifion Cymraeg wedi iddo symud i weithio i ysbyty mewn ardal draddodiadol "ddi-Gymraeg":

"Oedd llai o bobl, unigolion o dro i dro. 'Oedden nhw'n dod o'r pentrefi, yn enwedig yr hynafwyr... O! o'n nhw'n falch bod nhw'n gallu cael cwrdd â rhywun oedd yn siarad Cymraeg. Achos, yn fewnol, yn wreiddiol, Cymry o'n nhw."

Ar lefel fwy difrifol, disgrifiodd y nyrs fel y galwyd arni yn ystod ei gwaith i ddod i siarad â gwŷr oedrannus a oedd yn ceisio tynnu tiwb draenio o'i drwyn. Methiant fu pob ymdrech i'w ddarbwylllo yn Saesneg i adael llonydd i'r tiwb, ond trwy siarad ag ef yn Gymraeg, llwyddwyd i'w dawelu a bodloni ar gadw'r tiwb am y tro. "Oh, that foreign language, " oedd ymateb nyrs arall wedyn.

Mwy difrifol fyth yw tystiolaeth y weithwraig gymdeithasol ysbyty, gan iddi awgrymu bod anghenion ieithyddol claf Cymraeg oedrannus a dryslyd wedi'u hanwybyddu a'u diystyru'n fwrriadol er gwaethaf fod staff wedi cael gwybod amdanynt. Wrth ymweld â'r claf yn ei chartref i asesu ei hanghenion sylwodd y weithwraig ei bod yn amharod iawn i gyfathrebu, gan eistedd yn dawel ar ei phen ei hunan. Yr oedd ymwelydd arall yn digwydd bod yn y tŷ ar yr un pryd, ac wrth sgwrsio gyda'r weithwraig gofynnodd hwnnw iddi o ble roedd yn dod ac wedyn gofyn yn Saesneg, "Do you speak Welsh then?" Atebodd hithau yn Gymraeg, "Ydw, wi'n siarad Cymraeg," gan ennyn ymateb yn syth bin gan y claf a ddechreuodd siarad yn frwd yr un iaith. Ar wahân i rai o'i theulu a ddeuai i'w gweld weithiau, y weithwraig gymdeithasol oedd yr unig berson a oedd wedi siarad Cymraeg â'r ddynes ers tro. Cododd y weithwraig y mater wedyn gyda'i cydweithwyr di-Gymraeg. "Oh, that does happen sometimes," oedd yr unig ymateb a gafodd, a hyd y gwyddai hi ni wnaethpwyd dim byd wedyn i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r claf.

Y gwir syml yw nad oes, ac na fu erioed, y fath beth ag ardal "ddi-Gymraeg" yng Nghymru, ni all y fath syniadau hen-ffasiwn am diriogaeth ddaearyddol y Gymraeg ond bod yn rhwystr i ddatblygu a chynnyddu gwasanaethau Cymraeg. Mae siaradwyr Cymraeg i'w cael ymhob rhan o Gymru, ac mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf Seisnigedig y mae cynnydd mwyaf yr iaith. Nid oes diben, felly, ceisio cyfiawnhau cyfyngu darpariaeth Gymraeg gyflawn i rai llefydd yn unig. Yn unol â'i egwyddorion sylfaenol, y mae Cyngor Defnyddwyr Cymru yn

cefnogi agwedd Gymru gyfan at ddarparu gwasanaeth Cymraeg, sy'n parchu hawliau a dewisiadau defnyddwyr unigol ymhob rhan o'r wlad.

Un ffactor arall y mae angen tynnu sylw ato yw'r ffaith fod meddygfeydd ac ysbytai, ac yn enwedig ysbytai mawr, mewn trefi a dinasoedd cymharol "ddi-Gymraeg" yn aml yn gwasanaethu talgylchoedd eang lle y mae'r iaith Gymraeg yn llawer mwy cyffredin ei defnydd. Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, yw'r enghraifft amlycaf, am ei fod ef, fel canolfan arbenigedd, yn darparu ar gyfer cleifion o bob cwr o Gymru. Golyga hyn, yn ogystal â chydabod anghenion ieithyddol eu poblogaethau lleol, fod rhaid i'r Ysbyty Athrofaol a sefydliadau cyffelyb gydnabod patrymau ieithyddol mewn ardaloedd llawer ehangach, sydd efallai'n wahanol iawn i'r patrwm a geir yn lleol. Pwynt yw hwn a godwyd yng Nghylchlythyr 1975 y Swyddfa Gymreig ar yr iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd (gweler Adran 6.2):

"Gyda'r gwasanaethau arbenigol yn cael eu datblygu fwyfwy mewn ysbytai arbennig, bydd y rhan fwyaf o brif ysbytai Cymru yn delio â rhai cleifion a fyddai'n llawer mwy cartrefol pe gallent gael siarad Cymraeg, gwrandao ar Gymraeg ar y radio neu wyllo rhaglenni Cymraeg ar y teledu / With the increasing development of specialist services at selected hospitals there are few major hospitals in Wales which do not treat some patients who will be put more at ease by a conversation in Welsh or by listening to Welsh radio or television programmes."

4.2.2 Disgwyliadau Isel

Gwelir ffrwyth rhagdybiaethau am ba rannau o Gymru y siaredir yr iaith Gymraeg ynddynt ar ffurf syniadau dwfn wreiddiedig am ba rannau o'r wlad y gellir ac y dylid disgwyl derbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn fras iawn, rhennir y wlad yn ogledd a gorllewin lle y dylai rhywun ddisgwyl darpariaeth Gymraeg, ac yn dde a dwyrain lle na ddylid disgwyl hynny. Patrwm a welwyd yn gyson mewn cyfweiliadau oedd fod gan ddefnyddwyr yn byw mewn ardaloedd a ddynodwyd yn y meddylfryd poblogaidd fel rhan o'r Gymru "ddi-Gymraeg", ddisgwyliadau isel iawn am faint o gymorth y gallent ac y dylent ei gael gan y Gwasanaeth Iechyd yn eu dewis iaith. Fel arfer, bydd defnyddwyr sy'n byw yn y fath ardaloedd wedi hen arfer â derbyn gwasanaethau uniaith Saesneg, ac yn arwynebol wedi bodloni ar hynny. Er hyn, ymddengys o'r dystiolaeth a gasglwyd mewn cyfweiliadau fod y duedd hon i dderbyn gwasanaethau Saesneg weithiau'n cuddio dymuniadau cudd am well darpariaeth Gymraeg. Er enghraifft, ar ôl dweud yn bendant iawn nad oedd dim

gwahaniaeth ganddo a gâi ei drin gan feddyg Cymraeg neu beidio, ychwanegodd un claf o'r de-ddwyrain efallai y byddai'n meddwl yn wahanol pe bai'n byw ymhellach i'r gorllewin. Mynegwyd teimladau tebyg gan berson arall a oedd newydd symud o ganolbarth Cymru i'r de-ddwyrain:

"Efallai lle 'ron i'n byw o'r blaen baswn i wedi creu mwy o stŵr a mynnu gweld rhywun oedd yn siarad Cymraeg. Ond fan hyn, mae'n wahanol - Saesneg yw iaith y lle a dych chi jyst yn arfer â fe."

Ategwyd yr hyn a ddywedodd y ddau ddefnyddiwr hyn gan aelod o staff mewn ysbyty yn y de-ddwyrain a hanai'n wreiddiol o orllewin Cymru:

"Wi'n gwybod pan fi'n mynd yn ôl gartref, wi'n siŵr byddai fe yn wahanol gartref am ryw reswm... Wi'n credu achos bo' fi yn [yr ardal hon] wi yn tueddu i fod mwy Seisnigaidd mewn ffordd, ond unwaith wi'n mynd gartre mae popeth yn troi."

Os yw disgwyliadau defnyddwyr Cymraeg mewn rhai ardaloedd yn isel iawn, ymddengys fod disgwyliadau rhai darparwyr am faint o gleifion Cymraeg sy'n debyg o ddod atynt yn is fyth. Mewn cyfweiliadau gyda defnyddwyr, clywyd am sawl achos lle yr oedd darparwyr gwasanaethau iechyd wedi ceisio cyfiawnhau peidio â darparu ar gyfer cwsmeriaid Cymraeg ar sail y ddadl nad oeddynt i'w cael yn lleol. Soniodd un fenyw am y modd yr atebwyd ei hymholiad am ymwelydd iechyd Cymraeg ar gyfer ei phlentyn gan aelod o staff. Dywedodd y gweithiwr nad oedd yn gwybod dim byd am y fath bethau, gan ychwanegu, "There aren't many Welsh speakers in [this area]," a hynny mewn sir lle y mae mwy na 15,000 o bobl yn medru'r iaith. Disgrifiodd dynes arall a oedd newydd symud i'r De o'r Gogledd fel y chwaddodd derbynyddes deintyddfa pan fentrodd ofyn a oedd y deintydd yr oedd wrthi yn cofrestru gydag ef yn medru'r Gymraeg. I'r fenyw hon, cwestiwn digon dilys oedd hwn am un o sgiliau'r deintydd a fyddai'n trin ei phlant ifanc. I'r dderbynyddes, ymholiad hollol wirion ydoedd, a'i hymateb hi iddo yn adlewyrchu'r gred fod y deintyddfa mewn ardal "di-Gymraeg", er ei bod, mewn gwirionedd, mewn sir lle y mae mwy na 10,000 o siaradwyr Cymraeg. Profiad tebyg a gafodd siaradwr Cymraeg arall wrth geisio dod o hyd i feddyg teulu Cymraeg mewn ardal lle y mae'r Gymraeg yn draddodiadol wan:

"Pan wyt ti'n mynd o gwmpas ac yn gofyn, mae nhw bron â chwerthin."

Wrth reswm, hawdd iawn ydyw i staff uniaith Saesneg yn yr ardaloedd hyn beidio â sylweddoli pan

ddônt ar draws siaradwyr Cymraeg, ac i gleifion Cymraeg beidio â dod i wybod pa rai o'r staff sy'n ymwneud â nhw sy'n medru'r iaith:

- (i) Mae'r Saesneg yn norm mor gryf mewn rhai rhannau o Gymru fel na fydd siaradwyr ieithoedd eraill hyd yn oed yn ystyried posibilrwydd siarad eu hiaith eu hunain â dieithriaid. Gwyddant yn dda y byddai gwneud hynny yn fwy na thebyg o arwain at ddryswch ac efallai'n achosi drwgdeimlad a drwgdybiaeth.
- (ii) Nid oes gan Gymry Cymraeg unrhyw nodweddion gweladwy amlwg, megis lliw croen neu dulliau gwisgo, sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth eu cyd-Gymry di-Gymraeg. Nid oes ganddynt yn aml enwau nac acenion gwahanol chwaith.

Am y ddau reswm hyn, arbennig o bwysig yw mabwysiadu dulliau systematig i ganfod dewis iaith defnyddwyr a'i chofnodi (gweler Adran 7.1 - Canfod Dewis Iaith y Claf).

Yn ddiddorol, sylwyd mewn cyfweiliadau fod y cwynion mwyaf chwynr am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg yn dod oddi wrth ddefnyddwyr mewn ardaloedd lle y mae'r ddarpariaeth Gymraeg ar ei mwyaf cynhwysfawr, sef Arfon a Llŷn. Cryfder naturiol y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn, yn hytrach nag unrhyw bolisi bwriadol, yw'r prif reswm ei bod mor rhwydd cael hyd i gymorth meddygol yn Gymraeg yno. Ar y llaw arall yr un cryfder traddodiadol hwn sy'n peri bod disgwyliadau eithriadol o uchel gan rai pobl o ran faint a ddylai fod ar gael iddynt yn Gymraeg. Cwynodd rhai pobl nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael bob tro yr aent i'r ysbyty, peth y byddai siaradwyr Cymraeg trefi'r De, er enghraifft, yn ei gymryd yn ganiataol. Mae'n glir, felly, fod profiadau anghyson rhwng gwahanol ardaloedd wedi esgor ar lefelau anghyson iawn o ddisgwyliadau.

Mae llwyddiant unrhyw ddiagnosis meddygol a phob cwrs o driniaeth yn dibynnu'n drwm iawn ar gyfathrebu effeithiol a pherthynas dda ar sail cyd ddeall a chydymdeimlad rhwng darparwyr gofal a defnyddwyr. Rhaid yw i'r claf fedru egluro'i symptomau a'i deimladau i'r ymarferydd sy'n ei drin, ac i hwnnw allu deall a dehongli'r hyn a ddywed y claf wrtho. Fel y nodwyd yn adroddiad y Comisiwn Archwilio, *What Seems to be the Matter: Communication Between Hospitals and Patients*, "There are compelling human reasons for making sure communication with patients works well. Good communication can transform that patient's experience of hospital care, lessening the impact of what may be painful, difficult or anxiety provoking situations and decisions." (Comisiwn Archwilio, 1993)

Wrth reswm, er mwyn sicrhau cyfathrebu y mae angen iaith gyffredin y bydd y defnyddiwr a'r darparwr fel ei gilydd yn deall yn iawn (oni bai y defnyddir cyfieithydd i gyfryngu rhwng y ddau). Ar hyn o bryd yn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, ar y claf yn aml iawn y gosodir y cyfrifoldeb am wneud yn siŵr y defnyddir yr iaith gyffredin honno, sef Saesneg. Yn ei hastudiaeth hi o ferched beichiog Cymraeg eu hiaith yn nalgylch Ysbyty Glangwili, soniodd Gwenan Thomas am yr euogrwydd a deimlai un fam na fedrai ymateb i anghenion ei bydwraig ddi-Gymraeg am iddi gollu pob gfael ar ei Saesneg yn ystod yr esgor. Un thema a welodd Thomas yn ystod ei hymchwil oedd mai ar y merched beichiog y rhoddwyd y cyfrifoldeb am siarad iaith yr oedd y rhai o'u cwmpas yn gyffyrddus â hi. (Thomas, G., 1998)

Ar y llaw arall y mae digon o dystiolaeth i'w chael am y gwelliant sylweddol a welir pan symudir y cyfrifoldeb am ddod o hyd i iaith gyffredin oddi wrth gleifion a'i roi ar ysgwyddau darparwyr gofal iechyd. Codwyd y mater hwn yng Nghylchlythyr 1975 y Swyddfa Gymraeg ar yr iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd:

"Mewn gwasanaeth personol sy'n ymwneud ag iechyd cleifion, rhaid i'r berthynas rhwng y gwasanaeth a'r unigolion sy'n ceisio cyngor neu driniaeth fod yn un glòs a chyfeillgar. Bydd llawer yn dibynnu ar greu dealltwriaeth ffyddiog rhwng y rhai sy'n darparu'r gwasanaeth a'r rhai sy'n ceisio'r gwasanaeth hwnnw. Yr elfen bwysicaf yn hyn yw medr ac ymroddiad y rhai sy'n rhoi'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gellir yn aml gynorthwyo'r berthynas rhwng y rhai sy'n ceisio'r gwasanaeth a'r rhai sy'n ei roi yng Nghymru drwy gydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r sawl sy'n ei defnyddio fel iaith gyntaf... Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd ganddynt,

argyhoeddwyd Gweithgor Bwrdd Ysbytai Cymru o'r gwerth a gaiff claf o allu defnyddio ei famiaith mewn sefyllfa ddiethr a phryderus. / In a personal service concerned with the health of patients, the relationship between the service and individuals seeking advice or treatment must be close and intimate. Much depends on the establishment of confidence between those administering the service and those who seek it. In this, paramount is the skill and devotion of those who provide the service. However, relationships between those seeking and those providing the service in Wales can often be assisted by recognising the importance of the Welsh language to those whose first language it is... The evidence received by the Welsh Hospitals Board's Working Party convinced it of the value to the sick person of being able to use one's mother tongue in what can be perhaps a most disturbing and emotionally fraught situation."

(Swyddfa Gymreig, 1975)

Cefnogir hyn gan gasgliadau Gwerfyl Roberts ar ôl astudio cyfathrebu rhwng nyrsys a chleifion mewn ysbyty mawr mewn ardal draddodiadol Gymraeg:

"Since the essence of nursing is the development of a close therapeutic relationship between nurse and patient, the use of the client's native language can only enhance this relationship and the consequent quality of care that a patient receives." (Roberts, G., 1994)

Yn ystod cyfweiliadau, dywedodd llawer o gleifion eu bod yn teimlo'n "fwy cartrefol" wrth dderbyn eu gofal yn Gymraeg, a syndod o beth oedd faint o bobl a fyddai'n defnyddio'r union ymadrodd hwnnw i ddisgrifio eu teimladau at staff Cymraeg. Sylwodd Gwerfyl Roberts a Gwenan Thomas hwythau ar y duedd amlwg ymhlith cleifion Cymraeg i ddisgrifio gofal trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r staff a'i darparai, fel "cartrefol". (Roberts, G., 1994) (Thomas, G., 1998) Rhoddir isod ddetholiad o rai o'r pethau a ddywedodd cleifion Cymraeg eu hiaith a'u teuluoedd mewn cyfweiliadau am bwysigrwydd y Gymraeg iddyn nhw yng nghyd destun gofal iechyd:

"Os basa 'na ddoctor yn Gymro, baswn i'n gallu bod yn reit agos ato fo."

"On i mor falch jyst i glywed rhywun yn siarad Cymraeg. Wna i byth anghofio hynny."

"Oedd un menyw [yn gweithio yn yr ysbyty] oedd yn Gymraeg, cleaner. Oedd hi'n grêt, o'ch chi'n teimlo mwy cartrefol."

“Byddwn i'n fwy cyffyrddus 'sen ni'n gallu siarad Cymraeg 'da'n gilydd. Mae 'na ryw agosatrwydd sy'n gwbl wahanol pan wyt ti yn dy iaith gyntaf.”

“Mae'n bwysig i mi pan dw i'n sâl gael y Gymraeg, mae cysuro chi'n well yn eich mamiaith, tydi? Pan on i yn yr ysbyty tro diwethaf, buodd dau yna yn gallu Cymraeg a phan on i'n wael iawn un nos 'oeddau nhw ar y gwasanaeth. O, wyddoch chi beth, 'oedd yn braf cael bob yn eu cwmni nhw... 'on i'n teimlo'n saff efo nhw, yn Gymraeg!”

“Oedd e'n licio'r nyrs ys oedd yn siarad Cymraeg... 'Oedd e'n closio atyn nhw. 'Oedd e'n gallu ymlacio efo nhw.”

Ar y llaw arall, disgrifiodd rhai cleifion fel yr agorodd bwllch cyfathrebu rhyngddyn nhw a staff meddygol am na chaent eu mynegi eu hunain yn Gymraeg fel y buasent wedi dewis:

“Wi'n ffaeluo **explaino** i'r doctoriaid beth sy'n bod arna i yn Saesneg.”

“Pan ych chi'n gweud beth ych chi eisiau a pwy siort o help ych chi eisiau, mae'n rhwyddach i mi wneud e'n Gymraeg.”

“Mae hi gymaint haws i siarad yn Gymraeg efo'ch problemau chi. Yn y Gymraeg mae gynnoch chi ddiffiniadau o wahanol fathau o boen, a does gynnoch chi ddim, a dweud y gwir, yn Saesneg sy'n naturiol, oni bai eich bod chi'n Sais naturiol.”

Yn yr un modd, disgrifiodd un fenyw ei phrofiad wrth ymweld ag aelod oedranus o'i theulu yn yr ysbyty:

“Daeth yr arbenigwr efo'i haid o feddygon ifanc yn gofyn cwestiynau iddi hi, ac roedd hi'n ateb pethau'n anghywir. Wedyn dwedodd hi, “On i ddim deall gair oedd o'n ddeud.””

Cafwyd darlun tebyg i'r un a gafwyd oddi wrth gleifion wrth siarad â gweithwyr gofal iechyd dwyieithog am bwysigrwydd y Gymraeg yn eu gwaith. Dyma sylw un nyrs brofiadol iawn er enghraifft:

“Mae rhai pethau allwch byth â chyfieithu. Allwch byth â chyfieithu teimladau pobl... Ych chi'n gwybod beth ych chi'n feddwl yn eich iaith eich hunan.”

Aeth dwy nyrs arall cyn belled â honni eu bod weithiau yn gallu gwneud gwell diagnosis trwy fedru cyfathrebu â chleifion yn eu mamiaith:

“A deud y gwir, dach chi'n cael mwy o wybodaeth ganddyn nhw, y rheini sy'n siarad Cymraeg. Maen nhw'n agor eu hunan allan yn fwy yn Gymraeg.”

“Wi'n gwybod o acen y claf fod e'n siarad Cymraeg, a wi'n gweud, “Ych chi'n siarad Cymraeg?” a maen nhw'n gweud “O, ydw, “a wi'n cael cymaint mwy o wybodaeth allan o'r claf pan wi'n gweud 'na.”

Goblygiad amlwg y sylwadau hyn yw, os yw staff dwyieithog yn gallu cael mwy o wybodaeth oddi wrth gleifion Cymraeg, fod staff di-Gymraeg yn methu â chael cystal gwybodaeth gan rai cleifion Cymraeg oherwydd y bwllch cyfathrebu sydd rhyngddynt. Nid yw rhai cleifion Cymraeg, felly, yn derbyn cystal gwasanaeth gan y Gwasanaeth Iechyd ag y dylent, am nad yw'r Gwasanaeth yn rhoi cyfle iddynt ddisgrifio eu salwch yn eu mamiaith. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn a ddywedodd Neil Wooding o Uned Cyfartaledd GIG Cymru wrth lansio'r adroddiad yr uned ar ddarpariaeth gofal iechyd ar gyfer lleiafrifau ethnig yng Nghymru yn Rhagfyr 1998:

“To communicate service through one language only could deny the chance to some people whose first language is not English to get proper access to health care.” (Turner, R., 1998).

Un peth arall a ddaeth yn amlwg yn ystod cyfweiliadau oedd bod dau brif ffactor sy'n debyg o gynyddu pwysigrwydd iaith ym meddyliau cleifion Cymraeg a'u teuluoedd.

- (i) Os bydd cyfnod y salwch yn un estynedig gan ofyn am ofal tymor-hir. Er enghraifft, pan drinnir claf am ganser neu salwch parhaol cyffelyb.
- (ii) Os bydd trafod a chynghori ar lafar yn rhan bwysig o unrhyw driniaeth a roddir.

Mae'r pwynt hwn yn arbennig o berthnasol i faes gofal iechyd meddwl a seiciatryddiaeth, lle y mae siarad yn rhan fawr o unrhyw driniaeth (gweler **Adran 7.2.1 - Iechyd Meddwl**). Mae mathau eraill o driniaeth, yn enwedig y rhai sy'n arbennig o lym neu boenus, sy'n gofyn am gryn drafod rhwng y darparwr a'r defnyddiwr, ac efallai am gryn gynghori proffesiynol os yw'r claf i ddod i ddeall natur y driniaeth a'i heffeithiau. Yn y cyswllt hwn, diddorol iawn yw sylwadau un ddynes a gawsai lawdriniaeth ddifrifol ar ei hwyneb:

“Wnaiff [iaith] ddim gwahaniaeth i fi. Saeson dw i 'di cael yn **consultants** ar hyd yr adeg. Ond wedi dweud hynny, 'on i'n dod i weld y meddyg i lawr yn fan hyn wedyn, fy meddyg i fy hun, ac 'oedd hi'n braf cael siarad yn Gymraeg efo fo. Mewn ffordd, 'oedd o'n helpu siarad yn y Gymraeg. Y **counselling** oedd yn braf yn Gymraeg.”

6.1 Pum Egwyddor CCETSW

Yn 1994, gosododd Elaine Davies ar ran CCETSW (Cyngor Canolog ar Gyfer Addysg a Hyfforddiant Mewn Gwaith Cymdeithasol) bum egwyddor ynglŷn â dewis iaith ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru:

- Mae gan y cleient yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio gyda'i gweithiwr.
 - Mae iaith yn rhan hanfodol o hunaniaeth person.
 - Gall person fynegi teimladau'n well mewn dewis iaith.
 - Mae rhoi dewis real i gleient ynglŷn ag iaith yn hanfod ymarfer da.
 - Mae gwadu'r hawl yma yn ffordd o orthrymu'r cleient."
 - A client has the right to choose which language to use with a worker.
 - Language is an essential part of a person's identity.
 - A person can express feelings more effectively in a chosen language.
 - Giving a client real choice regarding use of language is the essence of good practice.
 - Denying this right is a way of oppressing a client."
- (Davies, E., 1994)

Deilliodd yr egwyddorion hyn o bryderon dwys CCETSW am y modd y câi siaradwyr Cymraeg eu hanfanteisio gan wasanaethau a gynlluniwyd heb ystyried dewis iaith fel ffactor o bwys. Yr oedd CCETSW fel corff ar flaen y gad o ran codi sensitifrwydd ieithyddol fel mater o bwys wrth ymdrin â chleientiaid bregus, a chyfeiriwyd at sawl un o gyhoeddiadau CCETSW wrth lunio'r adroddiad hwn.

6.2 Cylchlythyr 1975 y Swyddfa Gymreig ynglŷn â'r Iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Cyhoeddwyd y Cylchlythyr hwn ym mis Mawrth 1975 gan Adran Iechyd a Gwaith Cymdeithasol y Swyddfa Gymreig dan y teitl llawn Cylchlythyr Gwasanaeth Iechyd Cymru (Cyfres Dros Dro) Y Gwasanaeth Iechyd a'r Iaith Gymraeg / Welsh Health Service Circular (Interim Series) The Health Service and the Welsh Language. Mae'n ddiddorol iawn fel un o'r dogfennau swyddogol cyntaf yn ymwneud yn benodol â phwysigrwydd dewis iaith yng nghyddestun gofal

iechyd. Wedi'i gyhoeddi rhyw ddeunaw mlynedd cyn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, y mae'r Cylchlythyr yn cynnwys nifer o bwyntiau allweddol a ymgorfforwyd wedyn yn y Cynlluniau Iaith Gymraeg a ddaeth yn sgîl y Ddeddf. Er i gopïau gael eu danfon at bob Awdurdod Iechyd, Pwyllgor Meddygon Teulu (Family Practitioner Committee), Cyngor Sir, Cyngor Dosbarth, a Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru, a hefyd at Swyddfa Gwasanaethau Technegol Iechyd Cymru (Welsh Health Technical Services Organisation) pan gyhoeddwyd y Cylchlythyr, anodd iawn yw dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bendant am yr effaith a gafodd y ddogfen hon ar agweddau at ddarpariaeth Gymraeg ar y pryd. Mae'n ymddangos yn annhebygol bod y Swyddfa Gymreig wedi gwneud unrhyw waith monitro yn sgîl y Cylchlythyr. Mae egwyddorion Cylchlythyr 1975 yn dal yr un mor ddilys heddiw ag oeddynt pan gyhoeddwyd ef, a dyfynnir o'r Cylchlythyr mewn sawl man yn yr adroddiad hwn, lle y mae'n hynny'n addas ac yn berthnasol.

6.3 Siartr y Claf - Siartr i Gleifion yng Nghymru 1996

Mae'r Siartr yn datgan:

"Cewch ddisgwyl y canlynol...

- Cael gwybodaeth, yn Gymraeg a Saesneg cyn belled â phosibl."

"You can expect the following...

- To be given information, as far as possible in English and Welsh."

Ategir hyn yn Siartr y Claf - Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru / The Patient's Charter - Services for Children and Young People in Wales:

"Bydd eich meddyg, nyrs neu ymwelydd iechyd yn esbonio unrhyw driniaeth yn Gymraeg a Saesneg cyn belled â phosibl. /Your doctor, nurse or health visitor will explain any treatment, as far as possible in English and Welsh.

6.4 Papur Gwyn 1998 Rhoi Cleifion yn Gyntaf / Putting Patients First

Cyflwynwyd y Papur Gwyn hwn ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru gerbron y Senedd ym mis Ionawr 1998. Er na cheir ynddo ddim sôn yn benodol am ddewis iaith na'r iaith Gymraeg, cwyd nifer o bwyntiau sydd yn berthnasol i unrhyw drafodaeth ynghylch y Gymraeg ym maes iechyd. Fel y ddogfen bwysig *Changing Childbirth*, a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd yn 1993, y mae *Rhoi Cleifion yn Gyntaf* yn rhagweld Gwasanaeth Iechyd Gwladol lle y rhoddir anghenion a dymuniadau personol unigryw'r

claf i raddau mwyfwy ar ben y rhestr flaenoriaethau wrth gynllunio a darparu gofal iechyd. "Gofal claf-ganolog" yw'r arwyddair newydd, fel y gwelir yn y darn hwn o'r papur gwyn:

"Dylid cynllunio gwasanaethau o amgylch y claf er mwyn i'r GIG, yn unol â gwerthoedd eraill, gyflwyno ansawdd gofal a thriniaeth y mae eu hangen ar gleifion a gofalwyr yn y dull y dymunant ei dderbyn. / Services should be designed around the patient so that, consistent with other values, the GIG delivers the quality of treatment and care that patients and carers need, in the way the want it."

Ac yn nes ymlaen yn y papur gwyn, o dan y bennod **Diffinio Ansawdd / Defining Quality**:

"Yn gynyddol, defnyddir diffiniadau [o ansawdd gofal iechyd] sy'n gogwyddo mwy at y defnyddiwr ac sydd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd anghenion a disgwyliadau pobl... Mae cleifion am gael eu gweld yn gyflym o dan amodau sy'n parchu eu preifatrwydd a'u hurddas a chael gofal gan staff sy'n deall eu hanghenion a'u pryderon fel unigolion. / Increasingly user-orientated definitions [of quality of health care] have been applied which also recognise the importance of people's needs and expectations.... Patients want to be seen quickly in conditions which respect their privacy and dignity and to be cared for by staff who understand their needs and concerns as individuals."

O safbwynt Cyngor Defnyddwyr Cymru, mae'r ymroddiad hwn i deilwra gwasanaethau i anghenion a dymuniadau eu defnyddwyr i'w groesawu'n gynnes. Ein dadl bellach fyddai, er mwyn i'r ymroddiad fod yn un ystyrlon i'r Gymru gyfoes, fod rhaid iddo gynnwys ymrwymiad wrth ehangu diffiniadau o ansawdd i gynnwys dewis iaith.

Ceir sôn hefyd yn y papur gwyn am ansawdd a digonolrwydd y wybodaeth a roddir ynglŷn â'u cyflwr a'u triniaeth:

"Er mwyn i gleifion fod yn bartneriaid cyfartal yn eu gofal iechyd, mae'n rhaid iddynt gael gwybodaeth glir, gynhwysfawr a phersonol am risgiau, manteision a'r dewisiadau ar gyfer triniaeth sy'n berthnasol i'w cyflwr. / If patients are going to be equal partners in their health care, they need clear, comprehensive and personalised information about the risks, benefits and treatment options for their conditions."

Am fod pob gwybodaeth, boed ar lafar neu bapur, yn dibynnu ar iaith i'w chyfleu, os am wella'r wybodaeth a roddir i gleifion a'u teuluoedd ni ellir fforddio

diystyru iaith fel ffactor o bwys. Er mwyn i wybodaeth fod yn ddigonol ac o'r ansawdd orau bosibl ar gyfer pob claf, rhaid iddi gael ei chyflwyno cyn belled â phosibl yn yr iaith y mae'r claf yn ei deall orau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth drafod materion sensitif ac emosiynol yn ymwneud ag afiechyd difrifol y corff a'r meddwl. Yn hyn o beth, mae ergyd y fersiwn Saesneg o'r darn uchod yn llawer grymusach na'r Gymraeg am ei fod yn sôn am roi "personalised information", a'r gair "personalised" yn awgrymu rhywbeth a addaswyd yn benodol ac yn arbennig ar gyfer y claf unigol.

6.5 Cynlluniau Iaith Gymraeg Statudol

Gosodir egwyddorion sylfaenol unrhyw ddarpariaeth Gymraeg yn llawlyfr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cynlluniau Iaith Gymraeg - Eu Paratoi a'u Cymeradwyo yn Unol â Deddf Iaith Gymraeg 1993, lle y sonnir yn benodol am ddefnyddwyr bregus:

- cynnig i'r cyhoedd yng Nghymru yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio â'r sefydliad;
- cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith;
- cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'u dewis iaith yn fater o arfer da, nid yn oddefiad; a
- chydabod y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith roi aelodau'r cyhoedd mewn sefyllfa anfanteisiol.

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus i gyd, ond maent yn enwedig o briodol i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl sydd mewn sefyllfa o wendid, fel y gwasanaethau sy'n ymwneud â chynghori a gofal."

(Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996)

Nid yw'r un prosiect ymchwil yn cychwyn mewn gwagle, ac y mae gan bob ymchwilydd ei ddisgwyliadau ei hunan o ran y pynciau sy'n debyg o godi wrth i'r ymchwil fynd yn ei blaen. Deilliodd y prosiect hwn o nifer o bryderon a oedd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Defnyddwyr Cymru am natur annigonol y ddarpariaeth ar gyfer cleifion Cymraeg, ac o awydd i gael gwybod a gweld faint o sail a oedd i'r pryderon hynny. Ceir isod dadansoddiad o nifer o bynciau a drafodwyd yn y cyfweiliadau cyfrinachol â defnyddwyr a staff, yn y 24 cyfweiliad ag unigolion allweddol, neu yn ystod yr ymchwil desg. Mae rhai o'r pynciau hyn yn rai y disgwyliad cyn cychwyn yr ymchwil y byddent yn codi, ond ffrwyth profiadau staff a defnyddwyr yw y rhan fwyaf ohonynt.

7.1 Canfod Dewis Iaith y Claf

Mae pob Cynllun Iaith Gymraeg a fabwysiadwyd gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru yn cynnwys ymroddiad i sefydlu dewis iaith y claf yn ystod y cyswllt cyntaf â'r gwasanaeth. Fel arfer, bwriedir gwneud hyn trwy ofyn i feddygon teulu gofnodi dewis iaith neu iaith gyntaf a throsglwyddo'r wybodaeth hon i'r Ymddiriedolaeth wrth gyfeirio'r claf. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn awgrymu'n gryf nad yw hyn yn digwydd. Yn yr arolwg a gynhaliwyd gan Beaufort Research yn Rhagfyr 1998, dywedodd 88% o atebwyr nad oedd neb erioed wedi gofyn iddynt wrth ymweld â meddygfa neu ysbyty a fyddai'n well ganddynt siarad Cymraeg. Ymhlith atebwyr o un ardal (y gogledd-ddwyrain, cododd y ganran o atebion negyddol i 95%). Yr un yw'r darlun a welwyd yn y dystiolaeth a gafwyd gan staff a chleifion mewn cyfweiliadau, sy'n awgrymu bod canfod dewis iaith cleifion yn dal i ddigwydd mewn modd hap-damwain, os yw'n digwydd o gwbl. Os yw'r darlun hwn yn un cywir, testun pryder mawr ydyw, am fod yr holl drefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth Cymraeg yn dibynnu ar un weithred syml, sef canfod a chofnodi dewis iaith. Wrth reswm, ni ellir diwallu angen na wyddys dim amdano; ac ni ellir darparu ar gyfer y claf Cymraeg na wyddys mai Cymraeg yw ei ddewis iaith.

Mewn cyfweiliadau, prin iawn oedd y cleifion a allai gofio cael eu holi am eu dewis iaith gan aelod o staff. Yn ôl tystiolaeth staff a defnyddwyr fel ei gilydd, dibynnir bron yn gyfan gwbl ar amrywiaeth o ddulliau damweiniol ac annibynadwy i ganfod pa iaith y byddai'n well gan y claf ei siarad. Un peth sy'n gyffredin rhwng pob un o'r dulliau hyn yw eu bod yn seiliedig i gryn raddau ar syniadau hen-

ffasiwn a statig iawn am ba fath o bobl sy'n siarad Cymraeg ac ymha fath o ardaloedd:

- (i) Mewn ardaloedd traddodiadol Gymraeg eu hiaith, megis Dwyfor a Chaernarfon, y mae tuedd ar y ddwy ochr i ragdybio mai Cymraeg fydd cyfrwng y trafod:
"On i'n cael y teimlad yn ysbyty [un dref] bo' nhw'n siarad Cymraeg â chi os on nhw'n gwybod bo' chi'n siarad Cymraeg neu beidio," meddai un person.
- (ii) Mewn llefydd eraill, dywedodd staff eu bod yn aml yn dibynnu ar glywed cleifion yn siarad Cymraeg gyda'u teuluoedd, a chadarnhaodd nifer o gleifion mai dyma fel roedd staff wedi canfod eu dewis iaith. Er bod y dull hwn yn un gweddol effeithiol, nid yw'n gweithio yn achos y rhai sy'n dod mewn i'r feddygfa neu'r ysbyty ar eu pennau eu hunain, neu sydd ddim yn derbyn ymwelwyr wrth aros yn yr ysbyty. Ni ddylid anghofio chwaith fod 28% o siaradwyr Cymraeg naill ai'n byw ar eu pennau eu hunain neu nhw yw'r unig bobl yn eu cartrefi sy'n medru'r Gymraeg. Nid yw'r fath bobl mor debyg o amlygu eu dewis iaith trwy gael eu clywed yn y fath fodd.
- (iii) Dywedodd nifer o ddefnyddwyr a staff eu bod yn tueddu i ofyn i bobl am ba iaith y maent yn ei siarad ar ôl eu holi am o ble y maent yn hanu'n wreiddiol. Os yw'r person arall yn dod o ardal draddodiadol "Gymraeg", yna gofynnir iddi/iddo a yw'n siarad yr iaith. Daw diffygion y dull hwn i'r amlwg pan gofir bod hanner siaradwyr Cymraeg Cymru yn byw mewn llefydd a ystyrir gan lawer yn rhai "di-Gymraeg".
- (iv) Dibynnir hefyd ar y fath bethau ag acenion a'r modd y mae'r claf yn siarad Saesneg. Am fod gan lawer o Gymry di-Gymraeg acenion Cymreigaidd iawn, a nifer fawr o Gymry Cymraeg yn siarad Saesneg yn weddol ddiacen, nid yw'r dull hwn yn ddibynadwy iawn.
- (v) Bydd rhai yn edrych i weld a oes enw Cymreigaidd gan y claf. Er bod hyn yn gweithio weithiau, ni ellir dibynnu arno. Digon ffasiynol erbyn hyn ymhlith llawer o rieni di-Gymraeg yw rhoi enwau Cymraeg ar eu plant, tra ceir o hyd llawer o siaradwyr mamiaith Gymraeg a chanddynt enwau traddodiadol Saesneg.
- (vi) Datgelodd ymchwil Gwenan Thomas fod rhai pobl yn credu y gallant ganfod pobl eraill sy'n "Gymraeg yr olwg", er na allai neb esbonio sut yn union yr oedd hyn yn gweithio:

"Sain gw'bod beth sy'n wahanol, ond ti'n edrych a meddwl Saesnes yw honna," meddai un fenyw a holwyd am hyn. (Thomas, G., 1998)

(vii) Mae Gwenan Thomas hefyd wedi sôn am ymdrechion rhai merched beichiog i amlygu eu dewis iaith i staff meddygol ac i newid iaith y sgwrs o'r Saesneg i'r Gymraeg trwy ychwanegu ambell air neu ymadrodd Cymraeg i frawddegau Saesneg. Yr oedd llwyddiant y dull hwn yn dibynnu i gryn raddau ar sensitifrwydd y staff i'r hyn a gâi ei wneud, ac os na phrofai'n llwyddiannus ar y cynnig cyntaf yr oedd y merched yn debygol o roi'r ffidil yn y to wedyn. (Thomas, G., 1998). Mae Gwerfyl Roberts hithau wedi disgrifio ymdrechion isymwybodol nyrsys a chleifion i newid iaith y sgwrs trwy daflu ychydig eiriau Cymraeg i mewn i sgwrs Saesneg. (Roberts, G., 1994)

(viii) Dywedodd rhai staff eu bod yn ceisio cael gwybod i ba ysgol y mae plant yn mynd pan ddônt i mewn fel cleifion i weld ai ysgol Gymraeg ydyw; ac ym maes therapi lleferydd, gellir gweld o'i ffurflenni cyfeirio a yw plentyn yn mynychu ysgol Gymraeg. Er bod y dull hwn yn fwy dibynadwy na llawer o rai eraill, nid yw'n fawr o help i blant Cymraeg eu hiaith sydd y tu allan i'r system addysg Gymraeg.

(ix) Dywedodd un cyn-nyrs y byddai'n aml yn edrych ar gofnodion o grefydd cleifion i weld a oeddynt yn perthyn i enwad Cymraeg.

Bydd dibynnu ar y fath ddulliau yn aml yn arwain at ansicrwydd a chyfleoedd coll i gyfathrebu yn Gymraeg, fel tystiodd y ddau berson hyn mewn cyfweiliadau :

"Cawson ni'n cyfeirio gyda'r hwyr at yr ysbyty, a gweld meddyg. 'Oedd hyn i gyd yn digwydd yn Saesneg, mi ddarganfyddon ni wedyn fod y meddyg oeddni ni wedi bod yn siarad efo fo, 'oedd o'n siarad Cymraeg. Ond doeddni ni ddim yn gwybod hynny tan ar ôl. Fallai fod ychydig bach yn ei acen, ond dydy acen ddim yn arwydd da bob tro."

"Bues i'n gweld y nyrs 'ma unwaith yr wythnos am wythnosau, misoedd efallai. I gael treatment. Sawl tro mi fuodd bron i mi ofyn iddi oedd hi'n siarad Cymraeg. 'O'n i ddim yn siwr am ei hacen hi, ond 'oedd hi'n dod o dre ddigon Cymreigaidd. Eto i gyd, dych chi byth yn gwybod."

Un peth a ddaeth yn amlwg yn ystod cyfweiliadau yw mai'r rhai sydd â diddordeb personol mewn pobl

eraill, eu hanes a'u busnes yw'r rhai sy'n ei gael hi'n hawsaf cael gwybod pwy o'u cwmpas sy'n siarad Cymraeg. I'r fath bobl, y mae holi am iaith rhywun y maent newydd gwrdd ag ef yn hollol naturiol, am ei bod eisoes yn arfer ganddynt holi dieithriaid am eu cefndiroedd a hanes eu bywydau. Daethpwyd ar draws nifer fach o ddefnyddwyr a ddywedodd nad oeddynt yn cael bron dim traferth cael gwybod pwy o'r staff a'r cleifion o'u cwmpas a fedrai'r Gymraeg, na dim problemau chwaith wrth ddefnyddio'r iaith wedyn gyda'r bobl hynny. Yr oedd nifer o ffactorau cyffredin yn nodweddu'r defnyddwyr hyn, sef eu bod yn ddieithriad yn ddynion canol oed a gawsai beth profiad o fywyd cyhoeddus, ac a oedd wedi hen arfer ag ymdrin ag ystod eang o bobl. Er enghraifft, dywedodd un:

"Yn uniongyrchol, pan fi'n cwrdd â pobl â wi'n 'neud ymdrech mawr i wybod pwy yn nhw, o ble maen nhw'n dod a beth yw eu hiaith."

I'r llai hyderus a'r llai cymdeithasgar, nid yw mor rhwydd. Am nifer o resymau, ni fydd llawer o gleifion yn awyddus i holi'r staff sy'n eu trin a ydynt yn medru'r Gymraeg:

(i) Teimlad mai'r Saesneg yw iaith arferol y sefydliad. Mae hyn yn arbennig o wir am sefydliadau mewn ardaloedd a ystyrir yn draddodiadol yn "ddi-Gymraeg", ac fe'i hatgyfnerthir gan y fath bethau ag arwyddion uniaith Saesneg a chyfarchion uniaith Saesneg gan staff.

(ii) Ofn ymddangos yn drafferthus neu gael eu gweld yn eithafwyr gwleidyddol.

(iii) Ofn digio staff ac awydd i'w plesio. Mewn cyfweiliad, soniodd aelod o staff meddygol am y modd na fydd llawer o gleifion yn mynnu siarad Cymraeg hyd yn oed pan gynigir yr opsiwn iddynt, gan adael y penderfyniad am iaith y sgwrs yn nwylo'r gweithiwr sy'n eu trin:

"Dydyn nhw ddim eisiau mynd off ar y wrong foot efo rhywun maen nhw eisiau i helpu nhw."

(iv) Ofn anesmwytho staff sydd efallai'n ddi-Gymraeg trwy ei holi am y fath bethau. Er enghraifft, dywedodd un defnyddiwr:

"Roedd y therapist yn wych - arbennig o alluog. 'O'n i'n pendroni trwy'r amser trwy'r amser am ofyn i hi oedd hi'n siarad Cymraeg, achos 'o'n i'n amau bod hi. Ond 'o'n i'n ofni byddai hi'n meddwl wedyn bo fi'n credu bod hi ddim yn ddigon da i fi os oedd hi'n ddi-Gymraeg. Ddywedais i ddim byd yn y diwedd a fe wnaethon ni'r cyfan yn Saesneg."

- (v) Ofn y cânt eu gweld yn dwp am fod eu Saesneg yn ddiffygiol.
- (vi) Teimlad na ddylai fod rhaid iddynt ofyn yn benodol:

“Pan ych chi'n gofyn 'Do you speak Welsh, Ych chi'n siarad Cymraeg,' ych chi fel 'sech chi yn teimlo islaw... Ych chi'n teimlo fel 'sech chi'n gorfod begian.”

Mae o leiaf un Ymddiriedolaeth wrthi'n cyflwyno system, i sicrhau bod sticer yn nodi bod claf yn dymuno siarad Cymraeg yn cael ei roi ar glawr ei nodiadau achos/gofnodion. Mae Ymddiriedolaeth arall yn ystyried defnyddio sticeri fel hyn, ynghyd â nodi dewis iaith ar y plac uwchben y gwely a ddengys enw'r claf, a rhoi breichled liw i bob claf yn ôl pa iaith y mae'n dymuno ei siarad. Yn ddealladwy, y mae pryderon wedi codi mewn rhai mannau am ba mor weddus yw labelu cleifion yn y fath fodd. Yn yr un modd, cafwyd tystiolaeth fod rhai staff Cymraeg mewn un ardal yn anfodlon gwisgo bathodynnau yn nodi eu bod yn medru'r Gymraeg. Aeth un person cyn belled â chyffelybu'r fath fathodynnau â'r sêr melyn y gorfodwyd Iddewon i'w gwisgo yn yr Almaen Natsïaidd. Er bod y fath bryderon yn ddigon hawdd eu deall, y mae rhaid wrth ddulliau ffurfiol i adnabod pa staff a pha gleifion sy'n siaradwyr Cymraeg - er hwylustod i'r ddwy garfan, ac yn sicr er lles y claf. Wrth i hen rwydweithiau cymdeithasol a chymunedol ddirywio, a phobl yn symud yn fwyfwy o ardal i ardal, ni thycia dim inni ddibynnu mwyach ar ddulliau canfod iaith sy'n seiliedig ar wybod pwy yw pwy a beth yw hanes pawb. Anodd iawn yw gweld sut y gallai staff a chleifion Cymraeg eu hiaith adnabod ei gilydd heb ryw fath o system weladwy glir o fathodynnau ac/neu arwyddion a sticeri lliwgar. Nid oes rhaid i unrhyw system o farcio nodiadau cleifion Cymraeg stigmatiddio neb os caiff ei chyflwyno fel rhan o system gynhwysfawr yn nodi gwahanol anghenion y dylai staff wybod amdanynt. Er enghraifft:

- (i) Dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu Saesneg neu unrhyw iaith arall. Gallai hyn gynnwys anghenion siaradwyr ieithoedd lleiafrifol ethnig am gymorth yn eu hiaith gyntaf lle y mae hwnnw ar gael.
- (ii) Deiet llysiuol, Iddewig, Islamaidd ac ati.
- (iii) Cyffuriau safonol neu gyffredin na ellir eu rhoi.

Cwestiwn arall sy'n deillio'n naturiol o ganfod dewis iaith cleifion yw pa ddefnydd a wneir o'r wybodaeth honno wedyn. Hyd yn oed yn y sefydliadau sy'n mynd ati'n bwrpasol i gofnodi dewis iaith, nid yw'n glir i ba raddau y defnyddir y cofnodion hynny wrth

gynllunio triniaeth. Yr argraff a geir at ei gilydd yw fod hyn hefyd yn digwydd mewn modd hap-a-damwain. Yn ddi-ddorol, dangosodd arolwg diweddar gan Uned Cyfartaledd GIG Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol mai'r un mor hap-a-damwain yw'r modd y defnyddir ar sgiliau staff mewn ieithoedd lleiafrifol ar wahân i'r Gymraeg yn rhan fwyaf o sefydliadau iechyd. (Uned Cyfartaledd GIG Cymru & Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, 1998) Mae hyn yn cyd-fynd â'r duedd gyffredinol mewn sawl sector i ddibrisio sgiliau dwyieithog a pheidio â manteisio arnynt i'r graddau y gellid gwneud.

7.2 Pedair Carfan Allweddol

Fel y nodwyd uchod, yn ystod yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, canfuwyd pedair carfan allweddol o ddefnyddwyr bregus sy'n haeddu sylw arbennig:

- (i) Cleifion iechyd meddwl: Gall y poen a'r aflonyddwch difrifol sy'n dod yn sgil afiechyd meddwl gael eu gwaethygu weithiau os na chaiff y claf gyfle i drafod ei brofiadau a'i deimladau gydag ymarferydd meddwl yn ei ddewis iaith. Gan mai adfer cytbwysedd normal y meddwl yw pwrpas gofal iechyd meddwl, ni ellir anwybyddu'r iaith Gymraeg (neu unrhyw iaith arall) fel ffactor os bydd yn rhan arwyddocaol o fywyd a phrosesau meddwl normal y claf.
- (ii) Pobl a chanddynt anabledau dysgu ac anghenion arbennig eraill: Gall yr anawsterau sy'n wynebu'r fath bobl gael eu dwysáu'n ddiangen os y cânt eu gorfodi i gyfathrebu mewn iaith estron. Mae cryn dipyn o dystiolaeth anecdotaidd fod siaradwyr Cymraeg gydag anabledau dysgu yn ymateb yn well i symbyliad trwy eu hiaith gyntaf.
- (iii) Yr henoed: Yn gyffredinol, y mae pob un ohonom yn debyg o gynyddu ein defnydd o wasanaethau gofal iechyd wrth heneiddio. Ymhlith y to hyn o ddefnyddwyr y Gwasanaeth Iechyd y mae grŵp bach ond arwyddocaol o bobl o fröydd Cymraeg iawn eu hiaith na ddysgasant Saesneg yn llawn erioed. Gall y fath bobl ddi-ddorol braw a dryswch gwirioneddol wrth gael eu gorfodi gan salwch neu wendid i symud o'u cynefin Cymraeg i sefydliad meddygol Seisnigaidd ei naws. At hyn, y mae nifer o siaradwyr cwbl ddwyieithog a fydd yn troi'n ôl at ddefnyddio eu hiaith gyntaf yn unig, yn enwedig ar ôl dioddef strôc neu yn ystod cyfnod o ddryswch.
- (iv) Plant ifanc. Mae plant ifanc hefyd yn ddefnyddwyr mynych y Gwasanaeth Iechyd, ac

o holl ddefnyddwyr yr GIG, nhw sydd fwyaf tebyg o fod yn uniaith Gymraeg.

Dyma'r un pedwar categori o bobl y soniwyd yn benodol amdanynt yng Nghylchlythyr 1975 y Swyddfa Gymreig ar yr iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd (gweler Adran 6.2):

"Gellir yn aml gynorthwyo'r berthynas rhwng y rhai sy'n ceisio'r gwasanaeth a'r rhai sy'n ei roi yng Nghymru drwy gydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r sawl sy'n ei defnyddio fel iaith gyntaf... Mae [hyn] yn arbennig o wir yn hanes rhai grwpiau o gleifion - plant a'r henoed - a gaiff anhawster weithiau i fynegi eu hunain mewn ail iaith, ac yn hanes y rhai claf eu meddwl neu rai ag anfantais feddyliol. / Relationships between seeking and those providing the service in Wales can often be assisted by recognising the importance of the Welsh language to those whose first language it is... [This] has particular relevance to certain groups of patients - the young and the elderly - who in some cases may have difficulty in making their wishes known in a second language - and to the mentally ill and the mentally handicapped." (Swyddfa Gymreig, 1975)

7.2.1 Iechyd Meddwl

O'r holl feysydd meddygol a astudiwyd yn ystod y prosiect hwn, y mae'n debyg mai hwn yw'r un lle y mae'r angen am ddarpariaeth yn newis iaith y claf i'w weld yn fwyaf eglur. Am fod triniaeth i'r sawl sydd â salwch meddwl yn ymwneud â dod â'r claf yn ôl ato'r hunan ac adfer cytbwysedd normal ei feddwl, anodd iawn yw gwneud hynny heb fedru amgyffred natur y norm y ceisir mynd yn ôl ato. I'r claf os yw ei normalrwydd yn un Cymraeg, ni fydd triniaeth yn Saesneg bob tro yn briodol nac o gymorth. Mewn cyfweiliad, rhoddodd aelod o'i deulu ddisgrifiad syml iawn o bwysigrwydd iaith i un claf iechyd meddwl:

"Pan fydd e yn ei isymwybod, Cymraeg yw ei iaith e."

Cafwyd barn debyg iawn gan berson wrth sôn am ei brofiadau ei hunan ac eraill wrth dderbyn gofal iechyd (gweler Adran 6.2):

"Mae mynegi teimladau yn rhan fawr o'r peth ac yn Gymraeg 'wyt ti'n teimlo'n naturiol... Nid mater o ba mor hawdd ydy i wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Nid mater o ba mor alluog ydy rhywun yn ieithyddol ydy o - beth sy'n naturiol, lle y mae'r integrity, lle mae'r cyflawnder naturiol ydy o mewn gwirionedd."

Fe ategir y pwyntiau hyn a gododd defnyddwyr gofal iechyd gan asesiad y seicotherapydd Dr Dilys Davies o bwysigrwydd iaith yn ei gwaith:

"Language is an example of the set of rules which gives form and meaning to our experience. Our language is thus an intrinsic part of our sense of self or personality... If you speak another language, the way your constructs are formed and the way you construct yourself and the world are different because the cultural context in which they are embedded is different. If psychotherapy is about exploring meaning systems, there is a need to represent or symbolise a person's experience not ignore it." (Davies, D., drafft anghyhoeddedig)

Ar y llaw arall, casglwyd tystiolaeth sylweddol am yr hyn a all ddigwydd pan fydd darparwyr gofal iechyd meddwl, am ba reswm bynnag, yn methu â darparu ar gyfer cleifion Cymraeg yn eu dewis iaith. Mewn un achos, bu'n rhaid galw aelodau o deulu un claf i mewn i'r ysbyty i'w gysuro am ei fod yn mwydro yn Gymraeg, a staff yn methu dod o hyd i neb cyfiaith i siarad ag ef. Disgrifiodd person arall ei brofiad o fynd â chlaf iechyd meddwl anffodlon iawn i'r ysbyty. Ar ôl cryn dipyn o waith trafod, llwyddwyd i berswadio'r dyn i fynd i'r ysbyty ond cafodd ei siomi yn arw wrth gyrraedd pan dywedwyd wrtho nad oedd dim staff Cymraeg ar gael i siarad ag ef. "Oedd o'n teimlo'n enbyd o ddiymadferth," oedd disgrifiad ei gydymaith o'i ymateb.

Aeth aelod o deulu un claf mor bell â honni fod hwnnw wedi dod adref o gyfnodau o ofal mewn ysbytai wedi'i ddrysu'n lân oherwydd gorfod cyfathrebu mewn dwy iaith yno, ac yntau wedi arfer â defnyddio'r Gymraeg trwy'r amser. Yn fwyaf difrifol, clywyd am achos un claf a oedd naill ai'n methu neu'n gwrthod siarad yr un iaith ond Cymraeg, ond a gedwid am gyfnod o sawl wythnos mewn ysbyty meddwl lle nad oedd yr un aelod o staff Cymraeg ar gael. Yn yr achos hwn, teulu'r claf oedd yr unig bobl y gallai siarad â nhw. Disgrifiodd un nyrs y sefyllfa ar y pryd:

"He can't communicate his feelings to staff... He is improving but there's not a lot we can do, because if you think about the role of a psychiatric nurse, a lot of it is to do with communication and it's a bit hard when you can't communicate."

Cafwyd tystiolaeth hefyd gan staff a theluoedd am yr modd bydd rhai cleifion iechyd meddwl Cymraeg eu hiaith weithiau'n mynnu siarad Saesneg wrth drafod eu problemau. Mae'n debyg bod rhai siaradwyr

mamiaith Gymraeg yn teimlo y gallent ddad-ddwysáu'r sefyllfa y maent ynddi, a sefyll rywfaint y tu allan iddynt eu hunain trwy droi at eu hail iaith. Cadarnhawyd hyn mewn cyfweiliadau gan aelodau o deuluoedd nifer o gleifion iechyd meddwl, a ddisgrifiodd fel yr oeddynt wedi gwrthod siarad Cymraeg am gyfnodau fel modd i ymbellhau oddi wrth eu teuluoedd ac/neu oddi wrthynt eu hunain. Disgrifiodd un ddynes fel y byddai ei gŵr fel arfer yn trafod ei afiechyd meddwl yn Saesneg am ei fod rywsut yn fwy cyffyrddus yn siarad am rywbeth mor bersonol os câi trwy gyfrwng iaith a oedd iddo ef yn swyddogol ac amheronol.

"Wi'n meddwl fod e'n gosod rhywfaint o bellter, rhyw fath o godi wal rhyngoch chi a'r rhai agosa' atoch chi os dych chi'n defnyddio'r Saesneg. Yn y Gymraeg ych chi'n hollol eich hunan, ac mae amddiffynfa lawr on'd yw hi? Mae Saesneg yn iaith ffurfiol ac allanol."

Credai'r wraig hon hefyd fod teimladau ei gŵr ynglŷn â'i salwch wedi'u plethu'n ddryys â'i deimladau am iaith:

"'Oedd e'n teimlo'n gryfach yn y Saesneg; 'oedd e'n teimlo gwendid yn y Gymraeg. Fel on i'n dweud, 'oedd e'n teimlo fod e wedi cael ei israddio amser 'oedd e'n blentyn oherwydd [ei fod yn siarad] y Gymraeg. Ac wedyn... mae teimlo eich bod chi wedi'ch israddio oherwydd y salwch, neu'r mae'r salwch yn gysylltiedig â rhyw deimlad o fod yn waeth na phobl eraill, ac mae cymhlethdod yr iaith yn creu problemau eraill... 'Oedd e'n teimlo'n fwy cadarn, yn fwy siŵr o'i hunan mewn sefyllfa mor ofnadw ac ansicr, yn teimlo bod sgitsoffrenia arnoch chi ac yn ei ofni. 'Oedd e'n well gyda fe bod yn Saesneg."

Er hyn, ymhob achos o'r fath yr edrychwyd arno, dywedodd aelodau'r teulu fod y claf wedyn wedi troi'n ôl ar siarad Cymraeg, a bod hynny fel arfer wedi hwyluso cwrs y driniaeth. Er enghraifft:

"Roedd un nyrs Cymraeg [yn y clinig], a daeth hwnnw wedyn i'r tŷ... Dw i'n gwybod bod hynny wedi bod yn help mawr iddo fe ail-gydio yn y feddyginiaeth... 'On i'n gweld [y claf] wedi ymlacio mwy achos fod e'n Gymraeg... mwy naturiol."

Fel y disgrifir wrth edrych ar therapi iaith a lleferydd (gweler Adran 7.3 isod), yn y fath sefyllfa y mae gweithiwr dwyieithog yn gaffaeliad amhrisiadwy i'r sefydliad sy'n darparu'r gofal. Mewn sefyllfa lle y mae'r claf am unrhyw reswm yn symud rhwng dwy iaith, dwyieithrwydd yn y gweithiwr, yn hytrach na'i

allu mewn unrhyw un iaith, yw'r sgil allweddol. Gall gweithiwr dwyieithog ymdopi'n hwylus â'r fath newid cōd (code switching) gan glaf, gan newid iaith yn ôl dymuniad y claf mewn modd a fyddai'n amhosibl i weithiwr uniaith. Mae'r fath weithiwr hefyd yn fwy tebygol o ddeall rhesymau'r claf dros newid cōd ar wahanol adegau, ac o sylwi ar y gwahanol fath o bethau y mae'r claf yn dewis eu trafod yn ei ddwy iaith wahanol.

Mae Adran 13(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn mynnu y dylai gweithiwr cymdeithasol gyfsweld â'r claf mewn "suitable manner" wrth asesu a ddylid mynd â'r claf i mewn i'r ysbyty yn erbyn ei ewylllys. Ategir hyn gan y Cōd Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Adran 118 o'r Ddeddf. Ym Mharagraff 2.11 o'r Cōd datgenir bod y term "suitable manner" yn golygu y dylai'r claf a'r gweithiwr cymdeithasol ddeall iaith ei gilydd. Os nad ydynt, dylid galw ar wasanaeth cyfieithydd, neu dylid galw ar weithiwr cymdeithasol sy'n deall iaith y claf i wneud yr asesiad neu i helpu ei wneud. Er y gellid dadlau nad yw hyn oll yn berthnasol i Gymry dwyieithog am eu bod i gyd yn deall Saesneg, cwestiwn y mae rhaid ei ofyn yng nghyd destun iaith ac iechyd meddwl yw beth yn union a olygir wrth ddefnyddio'r gair "deall". Os yw claf Cymraeg dryslyd, ar ben ei holl broblemau eraill, yn gorfod cyfathrebu mewn ail iaith am mai honno yw unig iaith y gweithiwr sy'n asesu, digon priodol yw gofyn a oes modd mewn gwirionedd sefydlu dealltwriaeth ddofn a dilys rhwng y claf a'r asesydd. Yn y cyswllt hwn, mynegodd un seiciatrydd profiadol ei farn bendant ei fod yn dod ar draws rhai cleifion yn ystod ei waith na allai fod wedi'u hasesu'n iawn oni bai ei fod yn medru'r Gymraeg:

"Dw i'n meddwl bod hi'n gwbl annheg ar y cleifion.... Yn anffodus, y bobl sydd ddim yn siarad Cymraeg, maen nhw'n tueddu i greu bod eu hasesiad nhw yn ddigonol, wel dw i ddim."

Tystiodd staff iechyd meddwl dwyieithog fod agweddau at y Gymraeg yn y maes wedi gwella yn ystod y deng mlynedd diwethaf, o leiaf mewn ardaloedd traddodiadol Gymraeg. Yn cyd-fynd â hyn, y mae mwy a mwy o bobl yn dechrau mynnu derbyn therapi yn Gymraeg, er ei bod yn dal i fod yn anodd perswadio Cymry Cymraeg efo salwch meddwl i fynnu eu hawliau yn hyn o beth. Yr eironi creulon amdani yw y bydd salwch meddwl yn aml yn dwysáu angen rhywun am gymorth yn Gymraeg wrth ar yr hyn pryd ei amddifadu o'r hyder i fynnu'r fath gymorth. Dengys y dyfyniad isod ddiffyg hyder un claf iechyd meddwl tymor-hir, yn gweld bai arni'i hunan yn hytrach nag ar ddarparwr ei gofal am ei bod yn chwennych cymorth yn Gymraeg ac yn methu â'i gael:

"Efallai bo' fi'n hunanol, ond byddwn i'n hapusach yn siarad Cymraeg."

Gwelwyd yr un diffyg hyder mewn cyfweiliad arall gydag aelod o deulu claf iechyd meddwl a gedwid mewn ysbyty am gyfnod hir. "Trueni na fyddai mwy o staff yna i siarad Cymraeg 'da fe," oedd unig sylw'r aelod o deulu'r claf, nad oedd yn fodlon trafod y mater ymhellach.

Mae'n debyg bod dau reswm dros y diffyg hyder hwn:

- (i) Amharodrwydd traddodiadol llawer o'r Cymry Cymraeg i gwyno, yn enwedig am wasanaethau meddygol.
- (ii) Amharodrwydd teuluoedd cleifion iechyd meddwl i dynnu sylw atynt eu hunain ac at y ffaith fod salwch meddwl i'w gael yn y teulu. Mewn cyfweiliadau, dywedodd mwy nag un person eu bod yn gweld y duedd hon i beidio â sôn am broblemau iechyd meddwl yn gryfach ymhlith y Cymry Cymraeg nag ymhlith y di-Gymraeg. Tystiodd mwy nag un person bod gwaeth stigma o gwmpas iechyd meddwl yn y gymdeithas Gymraeg nag yn y gymdeithas ehangach, a bod teuluoedd Cymraeg yn fwy tueddol o wrthod cydnabod bod salwch meddwl ar aelod o'r teulu. Gwelai un aelod o deulu person sgitsoffrenig yr awydd hwn i guddio salwch meddwl yn rhan o batrwm ehangach o amharodrwydd i gydnabod problemau sy'n bygwth adeiladwaith y gymdeithas Gymraeg:

"Rŷn ni'n gymdeithas sy'n byw dan bwysau mawr... a wi'n meddwl bod ofon arnon ni unrhyw beth sy'n mynd i siglo yr afael ansicr sydd gyda ni ar ein dyfodol ein hunan. A wi'n meddwl bod stigma yn perthyn i salwch meddwl ac efallai mwy o stigma yn y gymdeithas Gymraeg ei hiaith, 'na'r argraff sy' gennyf i... Dyn ni ddim yn cydnabod problemau alcohol, dyn ni ddim yn cydnabod problemau cyffuriau. Yn ni ddim yn cydnabod problemau, ac mae iechyd meddwl yn un ohony'n nhw."

Cwestiwn sy'n dod yn naturiol yn sgîl hynny, yw a yw'r amharodrwydd hwn i gydnabod salwch meddwl o fewn y gymdeithas Gymraeg yn peri i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl yn llai nag y gallent. Posibiliad arall y mae'n rhaid ei ystyried yw y gwaethygir y duedd hon i osgoi gwasanaethau gofal iechyd meddwl ffurfiol oherwydd ymdeimlad nad ydynt yn darparu ar gyfer anghenion cleifion Cymraeg. Diddorol yn y cyswllt hwn yw tynnu cymhariaeth â sefyllfa lleiafrifoedd ethnig Lloegr, lle y mae'r dystiolaeth o ysbytai, meddygfeydd lleol ac arolygon cymunedol yn tueddu i awgrymu

bod trigolion Lloegr a anwyd yn Asia yn llai tebygol o ddiodeff afiechydon seiciatrig na phobl a anwyd yn Lloegr ei hunan. Disgrifiwyd y sefyllfa hon yn 1995 yng nghyhoeddiad Uned Iechyd Ethnig yr GIG, *Ethnicity and Health in England*:

"It is not known whether these patterns reflect genuinely lower levels of mental illness, or differences in detection rates: they could reflect the reluctance of Asians to report mental health problems, or language and communication difficulties making it harder for GPs to recognise such problems when they arise. It is possible therefore that there is an element of unrecognised and untreated mental ill-health in this ethnic group... It has been suggested that there may be considerable unmet need for psychological support among black and minority ethnic people, that many may not be getting the type of service they require, and that some are seeking it outside the GIG... Access to mental health care can(?) be limited by restricted opportunities and insensitive services... The difficulties of diagnosing illnesses like schizophrenia in people of different cultural backgrounds, and in those for whom English is not the first language, undoubtedly account for some of the ethnic differences in levels of diagnosed disease." (Balarajan & Raleigh, 1995)

Yn ôl Dr Dinesh Bhugra, Uwch Ddarlithydd yn Institute of Psychiatry, Llundain, y mae'r gymhariaeth â sefyllfa lleiafrifoedd Lloegr yn briodol iawn. Wrth siarad yng Nghynhadledd Adran Seicotherapi Cymdeithas Seicoleg Prydain yng Nggregynog ym mis Mehefin 1998, dywedodd Dr Bhugra, "In Wales the pattern for Welsh speakers seems to be following that of ethnic minorities even in areas where Welsh speakers form a native majority." (Dubé, S., 1998) Yn yr un gynhadledd, soniodd Dr Dilys Davies am ei phrofiad hi o weithio mewn ardal lle roedd mwy na 60% o'r boblogaeth yn medru'r iaith, ond lle nad oed ond tua 5% o gleifion yn derbyn seicotherapi yn Gymry Cymraeg. Soniodd am y profiad hwn yng nghyd-destun effeithiau'r argyfwng amaeth presennol:

"People like farmers are not coming into the service and one possibility is that they don't suffer emotional stress - that the Welsh-speaking population is an enlightened one. But a cursory look at my own family shows that's not true. A whole range of emotional disorders is apparent in rural Wales as is shown by the high suicide rate among Welsh farmers. There are huge projects in England to deliver counselling for different cultures like Asian and Afro-Caribbean

but a total absence of similar schemes in Welsh speaking Wales, and people like farmers are being missed out completely." (Dubé, S., 1998)

Yr argraff a gafodd Dr Davies yn ystod ei gwaith hefyd oedd fod y ganran o siaradwyr Cymraeg yn uwch yn y wardiau seiciatryddol cyffredinol, lle y byddai cleifion yn fwy tebygol o dderbyn triniaethau corfforol a chemegol, na'r ganran ymhlith cleifion allanol, a dderbyniai "driniaethau siarad" yn amlach. Mae hyn eto'n cyd-fynd â'r patrwm a geir mewn lleiafrifoedd ethnig mewn gwledydd eraill. Er enghraifft, fe nodir yn *Ethnicity and Health in England*:

"There is also compelling evidence of ethnic differences in access to psychotherapy service. African-Caribbeans are less likely to make voluntary contact with health services suggesting that such services may be unsatisfactory or inappropriate to their needs." (Balarajan & Raleigh, 1995)

Cynigiodd Dr Davies ei dadansoddiad ei hunan o'r rheswm dros brinder cleifion seicotherapi Cymraeg yn y rhan o Gymru y bu hi'n gweithio ynddi:

"A service set up by English speakers for English speakers with complete disregard for the cultural context."

Ar hyn o bryd anodd iawn yw ymchwilio'n ystyrion i batrymau mynediad i seicotherapi yng Nghymru, a hynny am na chesglir ystadegau iechyd meddwl i Gymru ar ei phen ei hunan. Cesglir ystadegau Cymru a Lloegr gyda'i gilydd, er bod ystadegau ar wahân ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon nad yw'r modd a gesglir ystadegau yn caniatáu dadansoddiad o brofiad y Cymry neu siaradwyr Cymraeg fel grŵp penodol. Mae ymchwil gyffelyb mewn gwledydd eraill wedi dangos bod gan wahanol grwpiau ethnig batrymau gwahanol o gael eu cyfeirio at wasanaethau seicotherapi, a thuedd at ei gilydd i leiafrifau a charfanau anfreintiedig dderbyn llai o gymorth seicolegol.

Yn ystod yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, cysylltwyd trwy lythyr â phob un o Ymddiriedolaethau Iechyd Cymru sydd â chyfrifoldeb am gleifion iechyd meddwl ac sydd hefyd yn paratoi Cynllun Iaith Gymraeg, er mwyn eu holi'n benodol am eu trefniadau am gleifion Cymraeg gyda phroblemau iechyd meddwl. O'r 8 Ymddiriedolaeth a dderbyniodd lythyrion, cafwyd ymateb gan 4. O'r 4 hyn:

- Dywedodd un nad oedd ganddi bolisi o nodi dewis iaith, ond bod un Ymgynghorydd Cymraeg ar gael i gleifion a ddymuna drafod eu problemau'n Gymraeg.

- Cydnabu un fod ganddi broblem ddifrifol o ddiffyg staff Cymraeg, a dweud ei bod wrthi ar hyn o bryd yn nodi pa swyddi y dylai siarad Cymraeg fod yn "hanfodol" neu'n "ddymunol" ar eu cyfer.
- Dywedodd un ei bod arfer ganddi asesu dewis iaith cleifion yn ystod eu cysylltiad cyntaf â'r gwasanaeth. Yn ogystal â hynny, yr oedd wedi mynd ati i ddatrys problem prinder staff Cymraeg trwy ddefnyddio dimensiwn tîm: "Oherwydd y prinder o siaradwyr Cymraeg mewn rhai lleoliadau o fewn ein gwasanaethau iechyd meddwl, trefnir y staff sydd ar gael i sicrhau fod rhywun sy'n siarad Cymraeg ar ddyletswydd drwy'r amser. O fewn y timau cymunedol, trefnir y patrymau gwaith i sicrhau fod y cleientau sy'n dymuno derbyn gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn medru gwneud hynny."
- Dywedodd un ei bod yn cymryd pob cam posibl i sicrhau gwasanaeth Cymraeg i'r rhai sy'n ei ddymuno, gan gynnwys gofyn am gymorth gan staff mewn ardaloedd eraill o fewn yr Ymddiriedolaeth os nad oes digon o staff Cymraeg mewn un ardal. Dywedwyd hefyd fod yr Ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn cyflwyno system o sticeri ar gloriau cofnodion cleifion yn nodi dewis iaith.
- Yn ol siaradwr ar gyfer un ymddiriedolaeth, staff nyrsio sydd yn gyfrifol ar hyn o bryd am nodi dewis iaith, ond roedd yr ymddiriedolaeth yn y broses o adolygu ei gynllun iaith Gymraeg fel rhan o'r broses ymuno ag ymddiriedolaeth arall o dan ail-gynllunio llywodraethol GIC Cymru. Fel rhan o'r adolygiad hyn, nodwyd fod trafodaeth ar ddewis iaith yn angenrheidiol" i sicrhau bod dewis iaith yn cael ei recordio'n gyson."
- Nododd dwy Ymddiriedolaeth eu bod naill ai eisoes wedi sefydlu gwersi Cymraeg ar gyfer staff, neu wrthi'n sefydlu ar hyn o bryd, er mwyn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu.

Ymhlith y datblygiadau calonogol yn y maes hwn yn ystod y blynyddoedd diweddar y mae sefydlu Grŵp Cymraeg Gweithwyr Iechyd Meddwl Gwynedd yn 1995. Mae'r Grŵp erbyn hyn yn cydweithredu â chyrff cyhoeddus a gwirfoddol ym meysydd iaith ac iechyd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hefyd yn gweithio i hyrwyddo dysgu Cymraeg ymhlith gweithwyr iechyd meddwl profiadol di-Gymraeg, ac i hybu recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r maes. Yn ystod 1998, dechreuodd y Grŵp ar y gwaith o gynnal

arolwg o faint o weithwyr iechyd meddwl dwyieithog sydd o fewn Ymddiriedolaeth Iechyd Cymuned Gwynedd a beth yw eu swyddi. Mynegodd llefarydd dros y Grŵp foddhad mawr â chynllun Cyngor Sir Gwynedd i noddi siaradwyr Cymraeg i ymgymhwyso yn weithwyr cymdeithasol, gan awgrymu y byddai cynllun tebyg i ddenu nyrsys Cymraeg i ail-hyfforddi i fynd yn nyrsys iechyd meddwl yn fuddiol iawn.

7.2.2 Pobl Gydag Anableddau Dysgu ac Anghenion Arbennig Eraill

Wrth ymchwilio i anghenion y categori hwn o ddefnyddwyr, daeth dau ddsbarth o bobl i'r amlwg yn anad dim, sef oedolion gydag anableddau dysgu difrifol a phlant gydag anghenion arbennig.

7.2.2.1 Oedolion Gydag Anableddau Dysgu Difrifol

O holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth Iechyd, y mae'r rhai sydd ag anableddau dysgu difrifol ymhlith y mwyaf diamddiffyn:

- (i) Am eu bod yn aml yn methu mynegi eu dymuniadau'n glir ac yn gorfod dibynnu ar eraill i lefaru drostynt.
- (ii) Am eu bod yn aml yn gorfod dibynnu ar bobl eraill i gynllunio eu bywydau a gwneud dewisiadau allweddol drostynt.
- (iii) Yn achos Cymry Cymraeg gydag anableddau dysgu difrifol gall fod yn anodd weithiau i weithwyr ganfod dewis iaith person na fedr lefaru geiriau.

Ynglŷn â'r trydydd o'r 3 phwynt uchod, cafwyd rhywfaint o dystiolaeth fod rhai gweithwyr llai sensitif yn anwybyddu posibilrwydd dewis iaith i ddefnyddwyr Cymraeg a chanddynt anableddau dysgu, gan dybio nad oes y fath beth â dewis iaith gan rywun na fedr siarad. Mae profiad gweithwyr dwyieithog yn y maes, a'r dystiolaeth a gafwyd gan deuluoedd wrth roi'r adroddiad hwn at ei gilydd yn awgrymu'n ddigamsyniol mai peth peryglus iawn yw anwybyddu dewis iaith y rhai sy'n ddi-leferydd. Disgrifiodd un person brofiad aelod o'i theulu hi gydag anabledd dysgu difrifol a ddaeth yn ddiweddar allan o gyfnod hir o ofal preswyl pan ofelid amdano bron yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Saesneg:

"Ddwy flynedd yn ôl nawr aeth e mas i'r gymuned... 'Oeddwn i'n pwysu pryd hynny i wneud yn siŵr fod e'n mynd yn ôl i awyrgylch Cymraeg, achos mae'n dal i gofio'r geiriau Cymraeg. 'Oedd y nyrs oedd gyda fe, Saesneg oedden nhw, ond 'oedd 'na un oedd yn digwydd bod yn yr ysbyty ac 'oedd hi'n dod a siarad Cymraeg, ac 'oedd hi wastad yn dweud bod e'n ymateb yn well."

Yn yr achos hwn, bu nyrs ddwyieithog yn ddigon craff a sensitif i sylwi ar anghenion ieithyddol person nad oedd ganddo ond gallu cyfyngedig iawn o ran ei leferydd.

Ni ddaeth digon o dystiolaeth i law i ganiatáu tynnu casgliadau pendant ynglŷn â'r garfan hon o ddefnyddwyr arbennig o fregus, ac mae'n amlwg bod angen cryn dipyn rhagor o ymchwil i'w hanghenion a'r modd y cânt eu diwallu gan y Gwasanaeth Iechyd a chyrrff cyhoeddus eraill.

7.2.2.2 Plant Gydag Anghenion Arbennig

Fel ym maes therapi lleferydd (gweler Adran 7.3 isod), cafwyd tystiolaeth ddiamau fod nifer sylweddol o ymarferwyr meddygol mewn sawl rhan o Gymru yn dal i ddweud wrth rai rieni am beidio â siarad Cymraeg gyda'u plant sydd ag anableddau dysgu rhag ofn eu hanfanteisio'n fwy fyth. Casglwyd tystiolaeth am ddau achos lle yr oedd dedwyddwch teuluoedd wedi dioddef yn ddifrifol ar ôl i broffesiynolion gofal iechyd gynghori'r rhieni i beidio â siarad Cymraeg gyda'u plant ar sail y ddadl fod ganddynt anghenion arbennig a allai fynd yn waeth o orfod ymdopi â dwy iaith. Yn y naill achos, trodd mam y plentyn dros nos o siarad Cymraeg ag ef i siarad Saesneg yn unig ag ef ac â'i phlentyn arall. Bellach y ddau blentyn hyn yw'r unig aelodau o'u teulu estynedig mawr sy'n ddi-Gymraeg, gan beri iddynt deimlo'n ynysedig iawn pan fydd y teulu yn ymgynnull, a hwythau yn methu deall y rhan fwyaf o'r sgwrs. Yn yr achos arall, chwalodd perthynas un pâr oherwydd y tensiwn a ddaeth y sgîl cyngor ymarferydd gofal iechyd iddynt beidio â siarad Cymraeg ag un o'u plant. Yr oedd un o'r rhieni yn benderfynol o barhau i siarad Cymraeg, a'r llall am ddilyn cyngor yr ymarferydd. Yr oedd y plentyn ei hunan yn y sefyllfa chwithig iawn o glywed un o'i rieni yn siarad Saesneg ag ef tra'n parhau i siarad Cymraeg â'i frodyr a'i chwirydd, gan arwain unwaith eto at deimlad o arwahanrwydd.

Er bod rhaid gwerthfawrogi'r anawsterau a gaiff staff di-Gymraeg wrth drin plant Cymraeg eu hiaith gydag anghenion arbennig, cwbl annerbyniol yw i ddarparwyr gwasanaethau i'r fath blant a'u teuluoedd fynnu y dylent newid iaith eu haelwyd er mwyn cyfleustra'r darparwr. Enghraifft amlwg yw hon o'r duedd gyffredin iawn i roi'r holl gyfrifoldeb am sicrhau iaith gyffredin ar ysgwyddau cleifion a'u teuluoedd, yn lle ar ddarparwyr eu gofal. Mae'r awgrym y gallai siarad Cymraeg â phlentyn ddwysáu unrhyw anghenion arbennig sydd eisoes ganddo yn deillio o gamddealltwriaeth sylfaenol am natur iaith a dwyieithrwydd. Nid yw chwaith yn cymryd i ystyried y goblygiadau emosiynol a seicolegol i'r plentyn fel rhan o deulu os newidir yr iaith a siaredir rhyngddo

ef a'i rieni i'r Saesneg tra bydd pawb o'i gwmpas yn siarad Cymraeg â'i gilydd.

7.2.3 Yr Henoed

Er nad yw pob defnyddiwr oedrannus o reidrwydd yn ddefnyddiwr bregus, y mae'n wir y bydd henaint weithiau yn effeithio ar allu rhai i fynegi dymuniadau ac i fynnu eu hawliau fel defnyddwyr. Gall y fath bethau fod yn anos fyth os yw'r defnyddiwr oedrannus yn gorfod eu gwneud yn ei ail iaith. Yng nghyd-destun gofal iechyd, bydd henaint yn aml yn dod â gwahanol fathau o wendid ac afiechyd yn ei sgîl, gan olygu bod defnyddwyr hŷn ymhlith cwsmeriaid mwyaf cyson y Gwasanaeth Iechyd.

Yn ystod y gwaith ymchwil, canfuwyd tri phrif gategori o ddefnyddwyr Cymraeg hŷn a allai gael trafferthion wrth orfod trafod materion iechyd neu dderbyn triniaeth trwy gyfrwng y Saesneg:

- (i) Y rhai sydd heb erioed meistrol'r Saesneg yn llawn, a hynny am ei bod yn iaith weddol ddiangen iddynt. Mae'r bobl hyn wedi byw'r rhan fwyaf o'u bywydau preifat a chyhoeddus trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg mewn cymunedau lle na ddefnyddient y Saesneg ond yn achlysurol. Gallant ddiodeff dryswch ac anghysur go ddwys os cânt eu gorfodi gan afiechyd neu wendid i symud o'u cynefin Cymraeg i sefydliadau gofal lle y bydd disgwyl iddynt droi at y Saesneg fel eu prif gyfrwng cyfathrebu. Wrth sôn mewn cyfweiliad am brofiadau aelod oedrannus o'i deulu, rhoddodd un dyn ddarlun twt o'r math hwn o glaf:

"Mae o'n 80 oed, ac mae ei Saesneg o yn eitha bratiog, achos dyna ydy o."

Er nad yw'r fath bobl ond yn garfan fach iawn erbyn hyn, gwirioneddol iawn yw eu hanghenion a daw goblygiadau difrifol iawn o'u diystyru.

- (ii) Mwy cyffredin, efallai, yw siaradwyr sydd fwy neu lai yn ddwyieithog ond bod eu hail iaith yn dechrau dirywio wrth iddynt heneiddio. Proses yw hwn a adweinir fel "athreuliad iaith" ("language attrition") ac mae'i effeithiau wedi'u hastudio a'u cofnodi'n helaeth. Er enghraifft, disgrifiodd un wraig yn ei hwythdegau ei phrofiadau personol hi o weld ei gafael ar ei Saesneg yn llacio, er ei bod yn ddynes broffesiynol a fu'n gweithio'r rhan fwyaf o'i bywyd trwy gyfrwng y Saesneg:

"Dw i ddim mor barod 'nhafod ag ydw i yn Gymraeg, ac mae hwnna'n beth newydd i mi. Wrth gwrs, dw i sbel dros 'mhedwar ugain, ac dw i'n siŵr fod o'n digwydd i bawb."

Disgrifiodd yr un ddynes fel y byddai ei diweddar wr yn ei henaint yn "ymbalfalu am y geiriau yn Saesneg" er ei fod yntau fel hithau yn berson addysgiedig, a chanddo hefyd cryn brofiad o fywyd cyhoeddus yn y ddwy iaith. Ategwyd y dystiolaeth hon gan yr hyn a ddywedodd un meddyg wedi ymdeol wrth iddo siarad am ei brofiad helaeth o weithio mewn gwahanol ysbytai:

"Be' dw i'di sylwi'n fwy na dim yw taw'r plant, sy ddim wedi siarad lot o Saesneg, a'r henoed sy 'di anghofio lot o'i Saesneg yw'r mwyaf pwysig i gael y Gymraeg drosodd iddynt nhw. Mae 'na lot o bobl yn meddwl trwy gyfrwng y Gymraeg - mae eu meddyliau nhw i gyd yn Gymraeg, fel maen nhw'n cyfieithu yn eu pen os oes rhaid iddyn nhw siarad yn Saesneg. A dw i'n meddwl, fel bod pobl yn mynd yn hŷn maen nhw colli'r modd i wneud hynny yn hawdd."

- (iii) Y rhai sydd wedi diodeff strôc ac yn sgîl hynny yn cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf yn unig. Disgrifiodd dau o bobl mewn termau tebyg iawn i'w gilydd yr hyn a ddigwyddodd ar ôl i aelodau oedrannus o'u teuluoedd gael strôc:

"Mi gâth 'nhad strôc, a mi oedd o wedi colli ei leferydd, ac 'oedd yn rhaid iddo fynd i'r ysbyty am gyfnod o fisoedd. Mi oedd 'na nyrsys di-Gymraeg yn gofalu amdano fo'r rhan fwyaf o'r amser... 'Oedd o yn ei saithdegau ac wedi treulio ei oes yn siarad Cymraeg... Mi oedd o allan o'i gynefin, mi oedd 'na afiechyd mawr wedi'i oddiweddyd o."

"Mae hi'n 91, mae hi'n Gymraes iaith gyntaf, ac mae'r Gymraeg yn haws iddi hi fel mae'n mynd yn fwy methodig... Mae hi'n eithaf rhwystredig, mae hi'n cymysgu, mae hi wedi cael sawl strôc. Mae hi'n ffindo fe'n rhwystredig iawn. Wi'n ei chlywed hi'n siarad Cymraeg â'r staff a dyn nhw ddim yn deall gair o Gymraeg... Fe gâth hi strôc iawn yn ddiweddar, a buodd rhaid iddi fynd i'r ysbyty... Ac 'oedd hi, yn wir yn anhapus iawn ar adegau nag oedd 'na wasanaeth yn Gymraeg iddi, ac 'oedd hi'n rhwystredig iawn. Oedd e ddim cymorth o gwbl iddi wella. Ac 'oedd hi'n diodeff o iselder, a lot o hynny oedd y ffaith pan oedd hi'n byw yn ei fflat ei hunan, 'oedd hi'n byw 90% neu ragor o'i bywyd hi yn Gymraeg. 'Oedd bod yn fethedig, yn cael trafferth gyda'i lleferydd achos 'oedd hi wedi cael y strôc mawr 'ma, a ddim yn gallu siarad Cymraeg 'da pobl...wel, 'oedd yn ergyd greulon iawn iddi."

Ar y cyfan, y ffaith syml amdani yw fod pobl oedrannus Cymraeg eu hiaith yn debyg o deimlo'n

llawer mwy cartrefol a chyffyrddus wrth dderbyn triniaeth os cânt gyfathrebu, o leiaf rhywfaint o'r amser, yn yr iaith y maent wedi byw ei hoes trwyddi. Yn hyn o beth y mae tystiolaeth dwy weithwraig mewn ysbytai gwahanol yn werth eu dyfynnu, y gyntaf yn nyrs a'r ail un o staff y gegin :

"Yn enwedig 'da'r hen bobl... 'Oedd 'na ddwy ar y ward lle 'on i, yn siarad Cymraeg, ac 'on nhw'n falch bod rhywun yn gallu [siarad Cymraeg]. Daeth y person hyn lan o *casualty*, wi'n credu oedd hi jyst wedi [clywed] 'n acen fi a wedodd hi'n syth "O, chi'n siarad Cymraeg," a wedodd hi "O, diolch byth am 'ny."

"Mae 'na rai o'r hen bobl sy'n dod mewn, maen nhw yn siarad Cymraeg. A mewn ffordd os ydyn nhw'n gwybod bod rhywun yn siarad Cymraeg, maen nhw ddiolchgar am 'ny. Chi'n gwybod, ambell waith maen nhw'n siarad i nyrsys yn Cymraeg a dyw'r rheini ddim yn gallu deall nhw, a mae'r nyrsys yn dod ataf fi wedyn achos maen nhw'n gwybod bo' fi'n gallu siarad Cymraeg... A chi'n gwybod, ambell waith mae hen bobl, maen nhw'n confused a ddim yn deall bod nhw yn [yr] ysbyty, meddwl efallai bod nhw gartref a maen nhw'n siarad i rywun sy' yn y teulu mewn ffordd, maen nhw ddim yn deall [taw] yn yr ysbyty maen nhw a siarad gyda nyrsys... Pan maen nhw'n gweld fi, neu pan mae rhywun yn dod i ymweld, maen nhw'n dweud, "Mae hon yn siarad Cymraeg." Mae fel 'sen nhw'n falch, a gwên ar eu hwyneb."

Tystiodd mwy nag un person fel y bu iddynt orfod troi'n gyfieithydd rhwng aelod oedrannus o'r teulu a meddygon ysbyty, a disgrifiodd un nyrs fel y byddai hi'n cyfryngu rhwng rhai cleifion oedrannus a meddygon di-Gymraeg:

"Wi'n credu bod yr hen [bobl] yn falch iawn, achos 'on i'n gallu gweud beth 'on nhw'n feddwl yn well nag 'on nhw'n gallu gweud yn Saesneg. 'On i'n gallu gweud, "She is saying. This is what she's saying to you."

Disgrifiodd un fenyw yn glir y bwlch cyfathrebu difrifol iawn a welodd hi rhwng meddygon di-Gymraeg ac aelod o'i theulu:

"Mae'r arbenigwyr *geriatrics* i gyd yn ddi-Gymraeg. Aeth fy mam-yng-nghyfraith oedrannus i mewn [i'r ysbyty lleol]. "Daeth yr arbenigwr efo'i haid o feddygon ifanc yn gofyn cwestiynau iddi hi, ac roedd hi'n ateb pethau'n anghywir. Wedyn dwedodd hi, "On i ddim deall gair oedd o'n ddeud."

Soniodd dyn arall am y profiad positif iawn a gafodd

mewn un ysbyty, lle yr aeth staff i gryn drafferth sicrhau rhywfaint o ofal trwy gyfrwng Cymraeg i un o'i deulu. Esboniodd y dyn hwn pam yr oedd yn ei gweld mor bwysig bod yr ysbyty wedi mynd i'r fath drafferth:

"Mae o'n 80 oed, ac mae ei Saesneg o yn eitha bratiog, achos dyna ydy o. Pan oedd o'n wael iawn efo niwmonia 'oedd o'n tueddu i fod yn colli gafael ar eu synhwyrau a dim ond y Gymraeg 'oedd o'n siarad. Os na fyddai rhywun Cymraeg ar y ward ar yr adeg yna, fydden nhw ddim yn gallu deall beth 'oedd o'n ddweud. Heb y Gymraeg fydden nhw ddim yn gallu dehongli'r sefyllfa. Hynny yw byddai'r holl geriach 'oedden nhw'n rhoi yn sownd ynddo fo wrth gwrs yn rhoi darlun meddygol, ond beth fydden nhw ddim yn neud oedd rhoi darlun o sut 'oedd o'n teimlo a beth 'oedd o'n ceisio ddweud wrthyn nhw."

7.2.4 Plant Ifanc

(Gweler hefyd 7.3 Therapi Iaith a Lleferydd a 7.4.1 Ymwelwyr Iechyd)

Fel yr henoed, y mae plant yn rhai o ddefnyddwyr mwyaf cyson y gwasanaeth iechyd. Ynghyd â'r henoed y maent hefyd yn un o'r carfanau o ddefnyddwyr sydd fwyaf tebygol o fod i bob pwrpas yn uniaith Gymraeg. Wrth reswm, pan ddaw defnyddwyr uniaith Gymraeg i gysylltiad â darparwyr di-Gymraeg, ceir bwlch cyfathrebu sylfaenol iawn na ellir ei bontio'n hawdd. Profiad digon brawychus i unrhyw blentyn yw mynd i'r feddygfa neu'r ysbyty, ond gwaethgir y braw yn sylweddol os bydd y plentyn yn gorfod mynd trwy'r cyfan mewn awyrgylch ieithyddol diethr:

"It is confusing and frightening especially for children who may speak only Welsh at home, to be prodded around by someone with whom they cannot communicate." (Eira Rowley o'r Gymdeithas Gymraeg ar Gyfer Nyrsys Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd, wedi'i dyfynnu yn Walford, J., 1995)

Fel y nodwyd uchod yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, canfuwyd yn ystod yr ymchwil dau gategori sylfaenol o gleifion Cymraeg eu hiaith. Fe ellir defnyddio'r ddau gategori hyn er mwyn didoli'r dystiolaeth a gasglwyd mewn cyfweiliadau ynglŷn â phlant Cymraeg a'u profiadau o ofal iechyd:

- (i) Y rhai y mae darpariaeth Gymraeg yn angen clinigol wrth eu trin, fel arfer am na ellir cyfathrebu'n effeithiol â nhw ond yn Gymraeg. Er enghraifft, soniodd un dyn am yr anawsterau

cyfathrebu a gododd pan aeth â'i ferch ddeg oed i'r ysbyty ar ôl iddi ei hanafu ei hunan mewn damwain:

"Oedd pobl [yn yr ysbyty] yn garedig iawn, ond 'oedden nhw ddim yn sylweddoli. Roedden nhw'n gofyn cwestiynau iddi hi oedd hi ddim yn eu deall... 'Oedd y cwestiynau'n astrus ond 'oedden nhw hefyd yn Saesneg, ac ail iaith i [fy merch] yw Saesneg. Ac wrth gwrs, 'oedd hi'n ei gael yn anoddach i deall y cwestiynau 'na byddai hi yn Gymraeg."

- (ii) Y rhai y mae mater o arfer da yw rhoi iddynt wasanaeth yn eu dewis iaith lle y bo hynny'n bosibl: Clywyd enghraifft o hyn gan un fenyw a ddisgrifiodd ei phrofiad o fynd â merch ifanc i'r ysbyty ar ôl damwain. Enghraifft yw hon o sefyllfa lle nad oedd y Gymraeg yn hanfodol i gyflawni'r driniaeth, gan fod y ferch dan sylw yn ddwyieithog, ond bod ei defnyddio fel cyfrwng cyfathrebu yn arfer da am ei bod yn tawelu pryderon y claf ac yn peri iddi deimlo'n fwy cartrefol:

"Naeth un o'r plant syrthio a torri ei braich. Es i â hi i children's casualty, ac 'oedd 'na nyrs 'fan 'ny oedd yn siarad Cymraeg. Cyn hynny 'oedd y plentyn yn weddol hysterical...' oedd hi erioed wedi bod yn yr ysbyty o'r blaen, ac 'oedd mewn stad uffernol... Ond daeth y nyrs 'ma ac 'oedd hi'n clywed ni'n siarad Cymraeg, a wedodd hi, "O, ti'n siarad Cymraeg," a wedodd hi, "Ydw" trwy'r dagrau i gyd... Dechreuon nhw gael sgwrs ac ymhen dim 'oedd hi wedi cael jab a plastr ac 'oedd hi lot, lot, lot hapusach. Naeth e wahaniaeth mawr."

Un peth a fu'n peri pryder arbennig i nifer o bobl y cyfwelwyd â nhw yw'r arfer o benodi nyrsys a therapyddion di-Gymraeg i ymweld ag ysgolion Cymraeg eu cyfrwng. Cafwyd llythyr gan un rhiant yn sôn am brofiad ei fab gydag ymwelydd iechyd di-Gymraeg:

"Mae fy mab yn uniaith Gymraeg ac yn mynychu ysgol Categori A (cyfrwng Cymraeg). Serch hynny, ymwelydd iechyd uniaith Saesneg a ddaeth i'r ysgol i'w asesu. Dim ond trwy lwc y gallodd ei fam fod yn bresennol ac felly fe fedrodd gyfieithu rhwng y ddau. Pwy a wya'r pa fath o asesiad a fyddai wedi ei dderbyn heb hynny."

Clywyd hefyd am broblemau mewn ysgol pan gynhaliwyd profion golwg. Gofynnwyd i'r plant adnabod y llythyren "u". Rhoddodd y plant i'r llythyren ei sain Gymraeg, a'r nyrs yn meddwl mai "e" Saesneg a ddywedent. Casglwyd tystiolaeth hefyd am ymdrechion trwsogl rhai gweithwyr dwyieithog i

drosi geiriau gwahanol brofion i blant o'r Saesneg gwreiddiol i'r Gymraeg. Mewn un achos, roedd prawf clyw yn dibynnu ar allu gwahaniaethu rhwng geiriau Saesneg tebyg eu sain wrth eu clywed fesul pâr. Troswyd y geiriau i'r Gymraeg yn y fan a'r lle wrth gynnal y prawf, ond am fod y prawf yn dibynnu ar debygrwydd geiriau Saesneg collwyd pob pwrpas pan gyfieithwyd y parau yn eiriau Cymraeg tra gwahanol i'w gilydd. Efallai fod "dog" yn swnio'n debyg i "hog" neu "log" yn Saesneg, ond eithaf hawdd yw gwahaniaethu rhwng "ci", "twrch" a "boncyff" yn Gymraeg.

Er mai am blant oedran ysgol gynradd ac iau y meddylir amdanynt fel arfer wrth sôn am y rhai sy'n cael anawsterau wrth ddefnyddio'r Saesneg, disgrifiodd un athrawes y trafferthion a gaiff rhai plant o oedran ysgol uwchradd i gyfathrebu yn Saesneg:

"Mae ein hysgol ni yn ysgol Gymraeg, ac maen nhw wedi penodi nyrs ardal sy ddim yn gallu siarad Cymraeg. Ac mae lot fawr o'n disgyblion ni yn lot mwy cartrefol yn Gymraeg... Er bod nhw'n oedran ysgol uwchradd.... Mae rhai ohonyn nhw'n Gymreig iawn, dyn nhw ddim yn gyffyrddus yn y Saesneg."

Er bod y pwyntiau hyn yn glŷn â gweithwyr iechyd a benodir i ymweld ag ysgolion yn arbennig o berthnasol i ardaloedd lle y mae'r Gymraeg yn gryf a'r plant felly'n llai tebyg o fod wedi arfer â'r Saesneg, ni ddylid anwybyddu y nifer fawr o ysgolion Cymraeg lle y mae'r iaith Gymraeg, a'r ddarpariaeth Gymraeg gan y Gwasanaeth Iechyd, yn draddodiadol wan. Gall yr iaith Gymraeg fod yr un mor ganolog o bersonoliaeth a hunaniaeth y plant hyn ag yw yn achos plant o lefydd mwy traddodiadol Gymraeg eu hiaith. Mewn llawer man lle na fu'r Gymraeg yn draddodiadol gryf ers tro, y mae to newydd o blant yn mynd trwy addysg Gymraeg yn golygu bod y ganran o bobl ifanc yn y boblogaeth rhwng 3-15 oed sy'n medru'r Gymraeg weithiau'n llawer mwy na'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth gyffredinol. O edrych ar siroedd y Fflint, Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen fel enghreifftiau, gwelir bod y ganran o siaradwyr rhwng 3 a 15 yn fwy na dwbl y ganran gyffredinol, ac y mae tuedd debyg i'w gweld ym mhoblogaethau siroedd Caerdydd a Rhondda Cynon Taf:

Os caiff yr ystadegau hyn eu mynegi ar ffurf galw cynyddol am wasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg, y mae'n glir y byd angen ailystyried yn sylweddol syniadau sefydledig am faint o ddarpariaeth Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer plant mewn sawl ardal. Cydnabuwyd hyn yn y cyflwyniad i Gynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Iechyd Gwent, sy'n

	Holl siaradwyr Cymraeg 3 oed a hyn (%)	Siaradwyr Cymraeg 3-15 oed (%)
Blaenau Gwent	2.2	5.5
Caerdydd	6.6	11.6
Caerffili	6.0	14.6
Rhondda Cynon Taff	9.0	16.9
Sir y Fflint	13.5	28.6
Torfaen	2.5	5.4

gwasanaethu ardal y mae prin 2% o'i phoblogaeth yn medru'r Gymraeg ar hyn o bryd:

"Rydym yn cydnabod fod diddordeb cynyddol yn y Gymraeg yng Ngwent a bod ysgolion Cymraeg yn ffynnu yn rhai o'r ardaloedd mwyaf Seisnigedig. Fe allai cenedlaeth newydd o siaradwyr Cymraeg fynnu eu hawl i ymwneud â'r GIG lleol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bosibl y byddai llawer mwy yn gwneud hynny petai ganddyn nhw hyder y gallai eu hymholiad gael ei drin yn llwyddiannus drwy gyfrwng yr iaith".

("We recognise that there is a growing interest in Welsh in Gwent and that Welsh language schools are flourishing in some of the most anglicised areas. A new generation of Welsh speakers might assert their right to relate to the local NHS through the medium of Welsh. Many more might already do so if they were confident their query could be dealt with successfully in the language.")

7.3 Therapi Iaith a Lleferydd

Mae'r maes hwn yn arbennig o berthnasol wrth edrych ar ddarpariaeth Gymraeg am ddau brif reswm:

- (i) Maes ydyw lle y mae iaith a defnydd iaith yn rhan annatod ac uniongyrchol berthnasol ohono.
- (ii) Mae tua 2 ymhob 3 o gleifion therapi lleferydd yn blant, sef un o'r pedair carfan allweddol o ddefnyddwyr bregus a enwir uchod. Mewn ymateb i ymholiadau, rhestrodd dau Gyngor Iechyd Cymuned (Ceredigion a Sir Benfro) therapi lleferydd yn un o'r meysydd penodol lle y mae mater darpariaeth Gymraeg wedi codi, gan sôn yn arbennig am anghenion plant ifanc yn y cyswllt hwn.

Gwaith amrywiol iawn yw eiddo'r therapydd lleferydd. Bydd yn aml yn ymwneud ag agweddau go gymhleth ar namau llafar y mae'n anodd gweld sut y

gellid eu trin yn effeithiol mewn claf dwyieithog heb ddeall ei ddwy iaith. Er enghraifft, yn achos Anhwylderau Derbyniant Ffonolegol/Gramadegol (Receptive Phonological/Grammatical Disorders) mewn plant, gall y claf gael trafferth i ddeall y ffyrdd amwys y defnyddir iaith weithiau yn y fath bethau â metafforau, sarcasm a jôcs. Yn debyg i hyn, bydd plant gydag Anawsterau Semantig/Pragmatig (Semantic/ Pragmatic Difficulties) yn methu meistrolï rheolau a chonfensiynau sgwrsio, gan gyflwyno datganiadau amherthnasol i'r sgwrs, ac yn methu canfod yr arwyddion a roddir gan bobl eraill i ddechrau siarad ac i beidio. Enghreifftiau amlwg yw'r ddau anhwylder hyn o broblemau lleferydd sy'n ymwneud i gryn raddau â chonfensiynau cymdeithasol a diwylliannol sy'n amrywio rhwng cymuned ieithyddol.

Yn 1990, cydnabuwyd yr angen am therapi dwyieithog i gleifion dwyieithog yng Nghôd Ymarfer Proffesiynol Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac iaith:

"One of the most optimistic findings which comes from the latter day literature is that bilingualism in a child or adult is an advantage and rarely a cause or exacerbating feature of any disability. Thus, the good speech therapist must use both (all) the languages which clients use or are exposed to in their daily lives to differentially diagnose the language impairment and to counsel and remediate. A decision not to use the facility of the client's two (or more) languages and possibly work in the client's less developed language because it is the one shared by the therapist, cannot be clinically upheld." (Royal College of Speech and Language Therapists, 1990)

Ategwyd hyn ar lefel ymarferol iawn gan dystiolaeth un rhiant a siaradodd am ddisprasia ei blentyn:

"Mae'n ychydig bach o jôc bod chi'n asesu plentyn Cymraeg yn Saesneg ar gyfer therapi iaith.... Mi fyddai'r synau'n cael eu plethu, peth fel "bydd" a "byth"... ac ych chi angen cymorth penodol... Yn amlwg, mae plentyn Cymraeg dan anfantais."

Yn yr achos hwn, y mae'n glir fod ar y plentyn angen triniaeth gan therapydd a allai o leiaf adnabod seiniau'r Gymraeg a gwahaniaethu rhyngddynt.

Ar lefel fwy difrifol, y mae rhywfaint o dystiolaeth bod rhai cleifion â nam lleferydd yn cael eu trin yn aflwyddiannus, neu hyd yn oed yn cael y driniaeth anghywir, am nad oes staff Cymraeg ar gael i weithio gyda nhw. Mewn un achos, gorfodwyd claf i gymryd rhan mewn cwrs o driniaeth a waethygodd ei gyflwr

am fod staff di-Gymraeg yn credu mai jargon diystyr oedd y gymysgfa o regfeydd a geiriau Cymraeg a ddeuai o'i geg. Mewn gwirionedd, roedd y claf yn ceisio esbonio yn Gymraeg fod yn driniaeth yn anaddas. Mewn achos arall, rhoddwyd y gorau i drin un claf mewn ysbyty yn Lloegr am fod staff yn credu nad oedd modd adfer ei leferydd, ond pan symudwyd ef i ysbyty lle y gellid ei drin yn Gymraeg canfuwyd bod y nam yn un y gellid ei drin yn llwyddiannus.

Ar lefel wahanol, cofnodwyd tystiolaeth am effaith bersonol ac emosiynol rhoi therapi lleferydd uniaith Saesneg i gleifion sydd wedi hen arfer â chyfathrebu trwy'r Gymraeg yn bennaf. Mae rhywfaint o ymchwil wedi dangos mai'r iaith gyntaf y trinnir claf strôc trwyddi yw'r un fydd yn adfer orau, a chafwyd enghraifft glir o hyn mewn un cyfweiliad. Disgrifiwyd fel derbyniodd gwraig oedrannus therapi dwys iawn wedi anaf a effeithiodd ar ei lleferydd. Ni holwyd am ei dewis iaith cyn rhoi'r therapi, a gafodd ei gyflwyno yn Saesneg gyda chryn lwyddiant. Pan welodd y wraig ei mab hi am y tro cyntaf ar ôl y cwrs o driniaeth cyfarchodd hi ef yn Saesneg - y tro cyntaf erioed iddi siarad yr iaith ag ef.

Dangosodd adroddiad Cyngor Defnyddwyr Cymru yn 1991, *Therapi Lleferydd a Phlant Mewn Ysgolion / Speech Therapy and Children in Schools*, fod prinder dybryd therapyddion lleferydd yng Nghymru a bod prinder therapyddion a fedrai ymarfer yn Gymraeg yn rhan o hyn. Gan ei bod eisoes yn anodd recriwtio digon o therapyddion cymwysedig i lenwi swyddi, digon dealladwy yw fod Ymddiriedolaethau Iechyd yn anfodlon ei gwneud yn fwy anodd fyth trwy fynnu'r Gymraeg fel cymhwyster ychwanegol. Yn ôl ystadegau'r Swyddfa Gymreig, ar 31 Mawrth 1998 yr oedd 275 o therapyddion lleferydd yn cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru (229 cyfradd amser llawn/ whole time equivalent), ynghyd â 36 o weithwyr cynorthwyol o wahanol fathau (27 c.a.II.). Gwelliant sylweddol yw hyn ers 1988, pan oedd 144 o therapyddion i'w cael yn y wlad (c.a.II.). Yn 1989 edrychodd Enderby a Davies ar lwythi gwaith therapyddion lleferydd ac anghenion y boblogaeth am therapi, gan ddod i'r casgliad bod angen 26 o therapyddion lleferydd i bob 100,000 o bobl. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 754 ar gyfer poblogaeth Cymru o 2.9 miliwn o bobl, mwy na thair gwaith yn fwy na'r cyfanswm presennol (c.a.II.). Ni chedwir yn ganolog ystadegau am faint o'r rhain sy'n medru ymarfer trwy'r Gymraeg, a byddai angen arolwg cynhwysfawr o'r 20 Ymddiriedolaeth Iechyd yng Nghymru sy'n cyflogi therapyddion lleferydd er mwyn gweld i ba raddau y mae darpariaeth Gymraeg ar gael yn y maes hwn. Ond er nad yw'r ystadegau perthnasol eto wedi'u casglu'n ganolog, y mae'r

prinder therapyddion lleferydd i blant ysgol Cymraeg eu hiaith yn broblem amlwg y mae nifer o gyrff yn y maes yn ymwybodol iawn ohoni. Yn ôl tystiolaeth Adran Addysg Bwrdd yr Iaith Gymraeg, mae tua dwy o bob tair sir yng Nghymru heb therapydd lleferydd sy'n ddigon rhugl yn y Gymraeg i fedru gweithio trwy gyfrwng yr iaith, ac mae sylwadau a chwynion ynglŷn â'r diffyg hwn i'w cael yn amlwg yn yr ohebiaeth y bydd Adran Addysg y Bwrdd yn ei derbyn. At ei gilydd, y mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn y maes hwn yn anghyson iawn, gan ddbynnu i gryn raddau ymha ran o Gymru y mae'r claf yn byw.

Yn wyneb y diffyg hwn, y mae dau beth yn amlwg:

- (i) Mae angen denu mwy o fyfyrwyr dwyieithog i astudio i fynd yn therapyddion lleferydd, fel sydd angen ym mhob maes meddygol. Yn hyn o beth, gwnaethpwyd cryn dipyn o waith yn ardal Gwynedd i fynd i mewn i ysgolion Cymraeg i hysbysebu therapi lleferydd fel gyrfa bosibl i fyfyrwyr. Cynhaliwyd hefyd diwrnodau agored mewn canolfannau hyfforddi ar gyfer myfyrwyr ysgolion a cholegau trydyddol, gyda sgwrs gan therapydd oedd newydd raddio am natur yr hyfforddiant a'r gwaith. Mae cyrff iechyd yng Ngwynedd, gyda chymorth y Swyddfa Gymreig, hefyd wedi noddi nifer o fyfyrwyr lleol i astudio therapi lleferydd. O ganlyniad i hyn oll, y mae Gwynedd bellach yn cynhyrchu mwy o therapyddion lleferydd nag y gellir eu cyflogi yn yr ardal. Ar lefel Cymru gyfan sefydlwyd Grŵp Llywio Cymraeg (Welsh Language Steering Group) i edrych ar hyfforddiant mewn therapi lleferydd Cymraeg i'r rhai sydd wrthi'n astudio i fynd yn therapyddion lleferydd (hyfforddiant cyn-gymhwyster). Crëwyd hefyd Grŵp Diddordeb Arbennig (Specific Interest Group) i edrych ar hyfforddiant i'r rhai sydd eisoes yn gweithio fel therapyddion (hyfforddiant ôl-gymhwyster). Mae'r Grŵp Llywio hefyd yn edrych ar bosibilrwydd sefydlu canolfan adnoddau i therapyddion Cymraeg. At hyn y mae holiadur drafft ar y gweill yn gofyn i therapyddion am y fath bethau â faint o Gymry Cymraeg sy'n dod atynt ar gyfer triniaeth, faint o hyfforddiant a gawsant i ddelio'r â'r fath gleientiaid, a pha adnoddau sydd eu hangen arnynt.
- (ii) Fel ymhob maes meddygol arall, y mae angen trefniadau effeithiol i sicrhau bod darparwyr gofal iechyd yn ymwybodol pa gleifion sydd angen therapi lleferydd yn Gymraeg, ac i sicrhau bod therapyddion dwyieithog yn cael eu gosod gyda'r cleifion hynny lle y bo hynny'n bosibl. O ran hyn, y mae'n werth cyfeirio at y trefniant

rhannu therapyddion Cymraeg sydd wedi'i sefydlu rhwng siroedd yr hen Went, sef Blaenau Gwent, Torfaen, Mynwy, a Chasnewydd. Ardal yw hon lle y mae'r iaith Gymraeg yn draddodiadol ar ei gwanaf a siaradwyr Cymraeg yn aml ar wasgar ac wedi'u hynysu oddi wrth ei gilydd. Ar y llaw arall, ardal ydyw o dwf mawr mewn addysg a gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r fath gydweithrediad rhwng siroedd yn anhepgor i ateb angen cynyddol am ddarpariaeth Gymraeg na fu ar gael yn draddodiadol, ac y mae i'w gymeradwyo'n gryf i ardaloedd eraill lle y mae prinder therapyddion Cymraeg.

Nid oes modd gwadu nad yw therapyddion dwyieithog yn gaffaeliad gwerthfawr iawn i'w cyflogwyr, ac y mae modd dadlau y dylid recriwtio cymaint â phosibl ohonynt, faint bynnag yw'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal a wasanaethir. Mae'r rheswm dros hyn yn un digon syml:

- (i) Fel y dengys y ffigyrau ar gyfer siroedd gwahanol yn rhan - **7.2.4 Plant ifanc**, mae patrymau lleol siaradwyr Cymraeg yn newid yn fawr, gyda chynydd trawiadol mewn plant rhwng 3 a 15 oed, a allai gael effaith ar yr holl boblogaeth gydag amser. Fel mewn meysydd eraill, ni all darpariaeth gwasanaethau Cymraeg gael eu sellio ar alw presenol.
- (ii) Os therapydd dwyieithog sy'n cynnal clinig, nid oes angen trefnu staff gwahanol yn arbennig i drin cleifion Cymraeg a Saesneg eu hiaith gan y gall ymarferydd dwyieithog ymdrin â'r ddwy garfan yr un mor hwylus â'i gilydd. Gall y fath therapydd hefyd symud rhwng y ddwy iaith yn ôl yr angen gyda chleifion unigol, yn hytrach na gorfod galw ar gymorth ychwanegol i drin un o'r ddwy neu orfod anwybyddu un ohonynt. Yn hyn o beth, dwyieithrwydd yw'r sgil sy'n gwneud y therapydd dwyieithog mor werthfawr, yn hytrach na medru'r naill iaith neu'r llall. Er enghraifft, cafwyd tystiolaeth am un claf strôc a oedd yn cymysgu geiriau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd, gan gynhyrchu'r fath hynodion â "dinio" (cyfuniad o "dinner" a "cinio"). Problem oedd hon yr oedd y therapydd dwyieithog yn gallu ei hadnabod ar unwaith mewn modd na allai person uniaith fod wedi'i wneud. Hefyd clywyd gan un therapydd dwyieithog fod rhai cleifion strôc dwyieithog yn dueddol o siarad y naill iaith ac ysgrifennu'r llall; sefyllfa sydd eto yn gofyn am driniaeth gan ymarferydd dwyieithog.

Fel yn achos ymwelwyr iechyd (gweler 7.4.1 isod), y mae'n glir o'r dystiolaeth a gasglwyd fod agwedd

therapyddion lleferydd at yr iaith Gymraeg weithiau cyn bwysiced yng ngolwg eu cleientiaid Cymraeg â'u galluoedd yn yr iaith. Tra bod llawer o ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith, yn enwedig yn y de-ddwyrain, yn barod i dderbyn nad yw gwasanaeth Cymraeg cynhwysfawr yn hawdd ei ddarparu bob tro, cafodd sawl un ei ddigio'n arw gan agweddau negyddol staff meddygol at yr iaith. Gellir cyfeirio er enghraifft at dystiolaeth Caryl Parry Jones yn *Y Cymro* yn ddiweddar am ei phrofiad o fynd ag un o'i phlant gerbron panel asesu lleferydd:

"Roedden nhw'n bobl alluog, sensitif, ond heb ddeall dim am y Gymraeg. Y cwbl oedden nhw am wybod oedd faint o Saesneg oedd ganddo - consyrn mawr am hynny - ac awgrymu ein bod ni'n ei symud o'i ysgol Gymraeg i ysgol gynradd Saesneg."

Er bod rhai anawsterau yn sicr o godi wrth i blentyn iaith gyntaf Gymraeg ddod i gysylltiad â gwasanaeth a ddarperir trwy gyfrwng y Saesneg, hollol annerbyniol yw i ddarparwyr y gwasanaeth honni mai iaith y plentyn yw'r broblem yn hytrach na diffygion y gwasanaeth. Enghraifft glir yw hon o ddarparwr yn mynnu y dylai'r defnyddiwr addasu i siwtio'r gwasanaeth, yn lle bod y gwasanaeth yn cael ei addasu i ateb anghenion y defnyddiwr. Dengys hefyd agwedd hen ffasiwn at ddwyieithrwydd ac at ieithoedd lleiafrifol na ddylai fod lle iddi mewn Gwasanaeth Iechyd modern. Cydnabyddir dwyieithrwydd yn gyffredinol erbyn hyn yn fantais i blant, nid yn anfantais i'r rhai sydd ag anhwylder lleferydd.

7.4 Gofal yn y Cartref

Er bod llawer o siaradwyr Cymraeg yn derbyn i gryn raddau y bydd rhaid iddynt droi at y Saesneg wrth fynd i'r feddygfa neu'r ysbyty, profiad llawer mwy chwithig i rai yw gorfod newid iaith eu haelwyd er mwyn gweithiwr iechyd di-Gymraeg sy'n darparu gwasanaeth yn y cartref. Gall y sefyllfa anodd hon gael ei gwaethgu'n fwy fyth os bydd gweithiwr di-Gymraeg sy'n dod i mewn i gartref person neu deulu Cymraeg yn dangos agweddau negyddol at iaith arferol yr aelwyd.

7.4.1 Ymwelwyr Iechyd

Yn yr holl drafodaethau gafwyd gyda defnyddwyr, un mater a godwyd yn drawiadol o gyson oedd cwestiwn ymwelwyr iechyd di-Gymraeg yn trin ac asesu plant di-Saesneg. Hyd yn oed pan nad oedd y cyfwelydd wedi crybwyll y pwnc o gwbl, byddai nifer sylweddol o bobl, heb gael eu hannog i wneud, naill ai yn sôn am brofiadau gawsant gyda'u plant eu hunain neu am

Pennod 7 - Testunau Trafod

brofiad a gafodd rhywun o blith eu teuluoedd neu'u cyfeillion.

Dangosodd arolwg Beaufort Research ar gyfer yr adroddiad hwn mai dim ond 27% o'r atebwyr a oedd wedi gweld ymwelydd iechyd a fyddai'n defnyddio'r Gymraeg fel arfer gyda hi neu ef. Golyga hyn fod 73% o siaradwyr Cymraeg naill ai yn dewis neu'n gorfod troi at y Saesneg wrth dderbyn ymwelydd iechyd i'w cartrefi. Nid syndod felly yw fod ymwelwyr iechyd wedi'u nodi yn Y Cynllun Ymchwil Cymunedol a gyflawnwyd gan Brifysgol Caerdydd ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg, fel un o'r grwpiau o unigolion allweddol a all ddylanwadu'n andwyol ar arferion defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. (Williams, C. & Evas, J., 1997)

Dengys y dystiolaeth a gasglwyd fod defnyddwyr Cymraeg yn gweld dwy brif broblem ynglŷn ag ymwelwyr iechyd di-Gymraeg:

- (i) Y broblem ymarferol nad oes gan blentyn uniaith Gymraeg ac ymwelydd iechyd di-Gymraeg ddim iaith gyffredin rhyngddynt. Nid yw cyfathrebu dwyffordd effeithiol yn bosibl, felly. Bydd hyn yn creu problemau arbennig pan fydd ymwelydd yn ceisio cynnal profion deall ac iaith ar blentyn.
- (ii) Problem o natur wahanol a gododd gyda rhai ymwelwyr iechyd di-Gymraeg oedd eu hagweddau a'u sylwadau sarhaus a negyddol wrth ymdrin â theuluoedd Cymraeg. Fel y nodir isod, aeth hyn cyn belled weithiau a thrïo dylanwadu ar rieni i fagu eu plant yn uniaith Saesneg.

Tynnwyd sylw at y gyntaf o'r ddwy broblem hyn yn 1995 gan Eira Rowley ar ran y Gymdeithas Gymraeg ar Gyfer Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd:

"If Welsh is the child's first language and the health visitor does not speak it, any development test you do will be null and void because they just do not respond the same when their mother is having to translate... It has led to children being labeled slow."
(Walford, J., 1995)

Ac mewn ymateb i ymholiad ym mis Medi 1998, cadarnhaodd Prif Swyddog un Cyngor Iechyd Cymuned ei bod yn dal i fod yn destun pryder yn ei hardal hi:

"There are often particular areas of concern e.g. speech therapists, health visitors etc., whose day-to-day contact with children (first and often the only language at a young age is Welsh) and the elderly (some of whom revert to first language after strokes etc.) can be hampered to a language barrier to communication."

Mewn cyfweiliadau â rhieni, casglwyd tystiolaeth am ddwy sefyllfa sy'n dangos y math o drafferthion a all godi pan na chynllunir gwasanaethau ymwelwyr iechyd gyda golwg ar anghenion plant uniaith Gymraeg. Disgrifir y ddwy sefyllfa isod yn gryno:

- (i) Daeth ymwelydd iechyd at un teulu er mwyn cynnal prawf deall ar blentyn ifanc yn dibynnu ar adnabod lluniau o wahanol wrthrychau ar gardiau. Llwyddwyd i gynnal y prawf yn Gymraeg ond cododd trafferthion am fod y prawf wedi'i gynllunio'n Saesneg ar sail yr eirfa y byddai plentyn Saesneg ei iaith yn debyg o'i gwybod erbyn oedran penodol. Er enghraifft, cyflwynwyd llun o hwyaden - er bod y gair "duck" yn un cymharol hawdd ei ddweud, nid yw plentyn Cymraeg mor debygol o allu ynganu "hwyaden" neu "chwaden".
- (ii) Yr oedd ymwelydd iechyd di-Gymraeg wedi dysgu'r eirfa Gymraeg angenrheidiol ar gyfer cynnal yr un math o brawf deall ag a ddisgrifir uchod, ond cododd problemau pan ddechreuodd y plentyn rhoi atebion tafodieithol nad oedd yr ymwelydd iechyd yn eu deall. Bu'n rhaid i fam y plentyn ymyrryd wedi i'r plentyn gael ei farcio'n anghywir am enwi llun o gwch fel "bad".

Yn yr holl gyfweiliadau â defnyddwyr, ymwelwyr iechyd oedd yr unig garfan o ymarferwyr meddygol di-Gymraeg y dywedodd pobl eu bod yn barod i wrthod eu gwasanaeth. Gwnaethpwyd hynny bob tro am na chredai'r defnyddwyr y gallai ymwelwyr di-Gymraeg wneud asesiad cywir a diogel o iechyd a galluoedd deallusol eu plant uniaith Gymraeg. Esboniodd un person fel yr oedd yn haws mynnu gwasanaeth Cymraeg i'w blentyn nag iddo'i hunan:

"Naethon ni ofyn [am rhywun Cymraeg] yn achos yr ymwelydd iechyd a dim yn achos y bydwraig... Mae'n neud hi'n haws i ni ofyn achos dyn ni ddim yn gofyn am resymau "hunanol"."

Ar y cyfan, defnyddwyr addysgiedig a hyderus o gefndir dosbarth canol a dueddai wneud hyn, ac nid syndod mo hynny o ystyried natur y system sy'n gosod ymwelwyr iechyd gyda theuluoedd. Am na ofynnir i deuluoedd a fyddai'n well ganddynt gael ymwelydd iechyd dwyieithog, os yw teulu am gael gwasanaeth yn Gymraeg y mae rhaid yn aml gwrthod yn bersonol unrhyw ymwelydd iechyd uniaith Saesneg pan ddaw hwnnw at ddrws y tŷ. Mae hwn, wrth reswm, yn brofiad annymunol dros ben i'r ymwelydd iechyd ac i'r teulu fel ei gilydd, am ei fod yn troi mater a ddylai fod yn un gweinyddol pur yn wrthdrawiad personol ar steplen y drws. Yn yr enghraifft waethaf y daethpwyd ar ei thraws,

dywedodd un ddynes ei bod yn gorfod dadlau am 20 munud ag ymwelydd iechyd di-Gymraeg a ddanfonwyd i'w thŷ cyn iddi gael addewid y câi ymwelydd dwyieithog y tro nesaf.

Er mwyn osgoi'r fath wrthdaro personol, y mae dadleuon cryf dros ofyn i deuluoedd pa iaith a siaradant gartref cyn gosod ymwelydd iechyd gyda nhw. I wneud hyn, bydd angen i Ymddiriedolaethau Iechyd gydnabod medru'r Gymraeg fel sgil proffesiynol o werth ymhlith eu gweithwyr, ac fel ystyriaeth ddilys wrth osod staff penodol gyda chleientiaid. Gwelir ar hyn o bryd gryn dipyn o wastraff sgiliau ieithyddol am nad ystyrir iaith wrth benodi ymwelwyr iechyd i deuluoedd penodol. Mae'r trefniadau gwasanaeth presennol yn milwrio yn erbyn dewis iaith. Y rheswm am hyn yw bod ymwelwyr iechyd unigol wedi'u cysylltu a meddygfeydd/practisys meddygol, ac yn gwasanaethu ardal daearyddol benodedig. Mae hyn yn golygu bod defnyddio'r dimensiwn tim yn anoddach ac, os nad oes ymwelydd iechyd o fewn y practis sy'n medru'r Gymraeg, nid yw'n hawdd sicrhau gwasanaeth Cymraeg i'r trigolion.

Tra bydd nifer o deuluoedd Cymraeg eu hiaith yn derbyn gwasanaeth eilradd i'w plant oherwydd anawsterau cyfathrebu rhwng y plentyn a'r ymwelydd iechyd, mae'n debyg nad yw rhai ymwelwyr iechyd yn cael defnyddio eu sgiliau dwyieithog i'r graddau y gallent am eu bod wedi'u gosod gyda theuluoedd uniaith Saesneg nad oes arnynt ddim angen darpariaeth Gymraeg. O gofio hyn, gallai cymryd iaith i ystyriaeth wrth gynllunio gwasanaethau ymwelwyr iechyd fod o fudd i gleientiaid a gweithwyr fel ei gilydd: câi'r naill garfan well siawns o gael y gwasanaeth Cymraeg y maent yn ei chwennych; câi'r llall well cyfle i ymarfer eu sgiliau dwyieithog ac felly datblygu'n broffesiynol.

Yn waethaf oll, y mae'r dystiolaeth fod rhai ymwelwyr iechyd yn pwyso ar rieni i newid yr iaith y maent yn ei siarad a'u plant o'r Gymraeg i'r Saesneg. Daethpwyd ar draws achosion o hyn mewn ardaloedd traddodiadol "ddi-Gymraeg", a hefyd o ardaloedd lle y mae Cymry Cymraeg yn fwyafriaf yn y boblogaeth. Disgrifiodd un fam ifanc ei hanghrediniaeth pan ddechreuodd un ymwelydd iechyd ei herio am siarad Cymraeg â'i phlentyn:

"Daeth hi i'r tŷ, ac 'oedd hi'n siarad gyda fi am sbel fach, rhyw bum munud. Wedyn clywodd hi fi'n siarad Cymraeg gyda'r babi, wedodd hi, "Oh, what language is that you're speaking?" Wedais i taw Cymraeg oedd hi, wedodd hi, "Is that right? It's not relevant," a beth arall wedodd hi?, "Not relevant" a "Won't it harm his ability to pick up English?" Nes i ddim dweud unrhyw

beth ar y pryd, oherwydd o'n i mewn cymaint o sioc."

Cofnodwyd enghraifft debyg gan Gwenan Thomas yn ystod ei hymchwil hi i brofiadau merched beichiog yn nalgylch Ysbyty Glangwili. Soniodd mam am ei phrofiad hi pan ddaeth ymwelydd iechyd i'r tŷ i weld ei phlentyn dwy flwydd oed:

"Sai'n credu bod Ifan yn deall rhyw lawer o Saesneg, oedd e ddim pan ddaeth yr **health visitor**. So wedodd hi dylen ni fod yn siarad Saesneg gyda fe, neu fydde fe'n cael trafferthion mawr nes ymlaen a ddim yn datblygu'n iawn." (Thomas, G., 1998)

Wrth reswm, y mae'r fath agweddau hen-ffasiwn a chyfeiliornus at ddwyieithrwydd ac ieithoedd lleiafrifol yn gwbl annerbyniol, yn enwedig ymhlith proffesiynolion gofal iechyd. Efallai y bydd rhai rhieni'n ddigon hyderus i wfftio'r fath gynghorion disail, ond i'r llai hyderus a mwy dibrofiad y mae'n debyg y gall arwain at ddryswch ac ansicrwydd yn ystod cyfnod anodd a thra phwysig yn eu bywydau.

7.4.2 Gofal Parhaol yn y Cartref

Wrth ymchwilio ym maes gofal yn y cartref, pwynt arall a gododd defnyddwyr oedd yr hyn sy'n digwydd os bydd aelod o'r teulu yn dioddef gwaeledd parhaol ac yn gorfod derbyn gofal parhaol gartre.

Er nad oedd modd gwneud ymchwil manwl yn y maes yma, dengys barn y cyhoedd fel gyda ymwelwyr iechyd (gweler 7.4.1 uchod) bod diffyg ystyriaeth i anghenion iath, a bod pobl di-Gymraeg yn trin siaradwyr Cymraeg heb ystyried rhoi dewis. Yn aml, fel gyda ymwelwyr iechyd, ceir dau ddewis anfodddhaol i un ai derbyn y gweithiwr di Gymraeg ac ildio hawl i wasanaeth Cymraeg; neu wyneby gwrhdrawiad gyda'r gweithiwr a'i droi ef/hi ffwrdd wrth y drws.

Mewn cyfweiliad, disgrifio un gwraig ei phrofiad wrth geisio sicrhau gofal canser Cymraeg mewn cartref i'w thad:

"Fi ddaru ei gyfeirio fo [at y gwasanaeth gofal cartref], a nes i ddeud bo fi'n teimlo bod hi'n bwysig iawn fod o yn cael nyrs Gymraeg. A rhywun Saesneg sy wedi dod i'r tŷ... O be' dw i'n wybod amdan 'yn rhieni, dw i'n gwybod y basen nhw wedi bod yn hapusach efo rhywun Cymraeg. Mae'n anodd iawn, dw i'n meddwl, pan wyt ti mewn sefyllfa o fod yn glaf, 'wyt ti i ddechrau efo'r **imbalance of power**... Mae 'na ddigon i boeni amdano heb orfod creu annifyrrwch. Dan ni'n teimlo weithiau bo' chdi'n mynd i greu annifyrrwch, neu bo' chdi'n cael dy labelu fel person anodd.... Os dw i'n mynd i'r tŷ,

a'r nyrs yno, wel mae'r tri ohonon ni'n gorfod siarad Saesneg. Mae o'n creu rhyw sefyllfa sy ddim yn normal... Dw i ddim yn gyfforddus - mae 'na ryw deimlad bod ni i gyd yn ffalsio. Dydych chi ddim yn naturiol."

Aeth yr un fenyw ymlaen i ddisgrifio fel yr oedd ei theulu'n teimlo mai arnyn nhw yr oedd y cyfrifoldeb am wneud i ddarparwr y gwasanaeth deimlo'n gyffyrddus, yn hytrach na bod y darparwr yn gwneud iddyn nhw fel defnyddwyr deimlo'n esmwyth wrth dderbyn y gwasanaeth:

"Pan wyt ti'n derbyn gwasanaeth, y peth sy'n bwysig ydy bo' chdi'n teimlo'n esmwyth, bo' chdi'n teimlo'n hapus efo pwy sydd yn dod i dy weld ti, a bod nhw yna i dy gefnogi di, yn hytrach bo' chdi yna i neud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus. A weithiau dw i'n meddwl mai dyna'r sefyllfa: pan maen nhw'n dod i dy gartref di bo' chdi'n gorfod neud ymdrech i neud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus, oherwydd bo' chdi'n ymwybodol bod nhw'n gwybod bod chi i gyd wedi gorfod newid eich iaith oherwydd bod nhw yna."

Disgrifiwyd profiadol cyffelyb yn ddiweddar gan Rhian Huws Williams, Pennaeth CCETSW Cymru, gan gynnig hefyd ei dadansoddiad hi o'r sefyllfa:

"Yn ddiweddar fe gollais fy mam. Fe gawsom gefnogaeth nyrs Macmillan gwirioneddol hyfryd yn ystod yr wythnosau olaf. Roedd ganddi sgiliau gwych ar gyfer ein cefnogi - fy mam a ninnau fel teulu. Yn anffodus, nid oedd yn siarad Cymraeg, felly yn ystod cyfnod poenus roedd iaith y llofft lle roeddem ni fel teulu o gwmpas mam yn gorfod troi yn aml i'r Saesneg. Nid oedd hyn yn drafferth a do, mi lwyddodd. Nid dyna'r pwynt fodd bynnag. Roedd gwneud hynny (h.y. siarad Saesneg) yn golygu nad oeddem ni'n llwyr ein hunain. Fel y byddwn yn dadlau, er cyn wyched oedd y gwasanaeth, nid oedd yn ffit i bwrpas i'n teulu ni ac yn arbennig i mam yr adeg yna. Nid oedd y sgiliau angenrheidiol i gyd gan y person ar gyfer y sefyllfa yma. (Roberts, G., 1997)

Mae'r ychydig dystiolaeth a gasglwyd am ofal parhaol yn y cartref yn tueddu i ategu'r hyn a ddywedodd defnyddwyr am ymwelwyr ieuchyd (gweler 7.4.1 uchod) a'r dystiolaeth a gafwyd hefyd am wasanaethau mamolaeth (gweler 7.5 isod) a ddarperir weithiau yn y cartref. Yn y tri maes hyn, yr hyn sy'n glir yw fod angen gwell ystyriaeth i anghenion ieithyddol fel ffactor o bwys, a gwell cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny lle y mae hynny'n bosibl.

7.5 Beichiogrwydd a Bydwreigiaeth

Maes yw hwn lle y mae cyswllt y defnyddiwr â'r Gwasanaeth Iechyd yn un sy'n para am sawl mis yn ystod un o'r cyfnodau pwysicaf ym mywyd y cleient. Yn 1993, yn yr adroddiad *Changing Childbirth*, cydnabu Grŵp Mamolaeth Arbenigol yr Adran Iechyd bwysigrwydd cyfnod beichiogrwydd a genedigaeth ym mywyd mamau a theuluoedd, a gosodwyd agenda ar gyfer sicrhau bod beichiogrwydd a genedigaeth nid yn unig yn brofiadau diogel ond hefyd yn rhai positif a gyfoethogai fywyd y fam. Yn ôl *Changing Childbirth*, dylai gofal gael ei gynllunio o gwmpas y fam gan ymateb i'w hanghenion penodol hi. Disgrifir y "gofal menyw-ganolog" hwn ym mrawddeg agoriadol yr adroddiad:

"1.1 Every woman has unique needs. In addition to those arising from her medical history these will derive from her particular ethnic, cultural, social and family background. The services provided should recognise the special characteristics of the population they are designed to serve."

Yn ôl astudiaeth ddiweddar gan un fydwraig yn gweithio yng ngorllewin Cymru, nid yw hyn yn digwydd:

"In an era of woman-centred care, choice and empowerment, many women in Wales are being oppressed and disempowered. The lack of language sensitivity, oppression and disempowerment affects the quality of care and may have repercussions on the outcome of pregnancy." (Thomas, G., 1998)

Astudiodd Gwenan Thomas, bydwraig o Lanbedr Pont Steffan, 23 o ferched Cymraeg eu hiaith o sir Gaerfyrddin a de Ceredigion. Dewiswyd yr atebwyr ar gyfer yr arolwg ar hap gan gydweithwyr Thomas o blith y merched Cymraeg yn nalgylch Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin, a oedd wedi geni plentyn yn ystod y chwe mis diwethaf. O'r 23 hyn, yr oedd pob un ond dwy yn siarad y Gymraeg fel mamiaith. Ni chafwyd yn eu plith unrhyw deimlad o ddefnyddio'r iaith Gymraeg er mwyn gwneud safiad neu am ryw resymau cenedlaetholgar, eithr cafwyd patrwm amrywiol o ddefnyddio'r iaith i wahanol raddau yn y cartref, y gweithle ac wrth gymdeithasu fel cyfrwng cyfathrebu naturiol. Yr oedd carfan fawr a allai siarad Saesneg yn dda ond a ddywedodd ei bod yn well ganddynt siarad Cymraeg; yr oedd y gweddill yn eu hystyried eu hunain yn hollol ddwyieithog a heb falio dim pa un o'u dwy iaith y caent ei siarad. Er nad oedd pob un yn siarad Cymraeg gyda'i gŵr neu'i phartner, Cymraeg oedd yr iaith a ddefnyddiai pob merch gyda'i phlentyn neu'i phlant.

Profiadau amrywiol iawn a gafodd y 23 o ferched o ddarpariaeth Gymraeg neu'i diffyg. Disgrifiodd rhai merched a gafodd rywfaint o wasanaeth Cymraeg yr amrywiaeth o deimladau positif a gawsant wrth ei dderbyn:

- (i) Rhyddhad : "Fel mae'n digwydd wedyn, Cymraes naeth ein derbyn ni fewn i'r ward. O'n i'n poeni am fynd mewn, ond pa siaradodd hi Gymraeg a ni roedd rhyw rhyddhad."
- (ii) Teimlo'n fwy cartrefo I: "Mae siarad Cymraeg yn grêt, hela ti i deimlo'n gartrefol."
- (iii) Gwell hyder yn y fydwraig : "Unwaith oedd y ferch [y fydwraig] Gymraeg wedi rhoi ateb i fi roeddwn i'n gwybod fod popeth yn iawn. Roeddwn i'n hapusach, roedd real ffydd 'da fi ynddi. Alle hi ddim dweud celwydd wrtho fi yn Gymraeg."
"Fi'n siŵr oedd y ffaith bod [y fydwraig] wedi siarad Cymraeg wedi 'neud gwahaniaeth. Wel, 'oedd 'da fi ffydd ynddi straight away."
- (iv) Gwell hyder ynddynt eu hunain : "Fi'n gryfach yn Gymraeg, mwy eofn ac yn well yn Gymraeg."
"Fi'n nerfus yn Saesneg, ond yn Gymraeg fi mwy relaxed a mwy confident."

Nodwyd uchod ym **Mhennod 5 - Iaith a Meddygaeth** uchod farn rhai staff eu bod yn cael gwell gwybodaeth gan gleifion o siarad â nhw yn Gymraeg. Ategir y dystiolaeth honno mewn modd negyddol iawn gan gyfaddefiadau rhai merched a holwyd gan Gwenan Thomas nad oeddynt wedi gofyn am rai pethau yr hoffent fod wedi cael gwybod amdanynt, am nad oedd cyfle i wneud hynny yn eu dewis iaith. Dengys tystiolaeth y merched hyn nad yw gwybodaeth bwysig yn cael ei throsglwyddo rhwng staff a chleifion oherwydd bwlch cyfathrebu sylfaenol. Yn ôl astudiaeth Thomas, cyfrifoldeb y merched yn aml, yn hytrach na'r staff, oedd pontio'r bwlch hwnnw, a hwythau heb allu gwneud hynny bob tro:

"Fi'n teimlo fy mod i'n gallu cael fy mhwynt drosto yn haws yn Gymraeg na pan wi'n siarad Saesneg, falle sw'n i ddim yn cael pethau drosto mor glir yn Saesneg. A hefyd ma'r teimlad weithio o deimlo yn dwp o siarad Saesneg. Falle wedyn ma fe'n rhwyddach peidio gweud dim."
"Ti'n gwybod beth ti'n meddwl yn Gymraeg, a falle bod ti ddim yn gallu cymharu fe yn Saesneg. Ti'n gorfod meddwl dwy waith beth ti'n mynd i weud yn Saesneg. Wedyn ma fe [am] bell waith yn rhwyddach i beidio gofyn y cwestiwn o gwbl."

Mae'r profiadau hyn yn mynd yn gwbl groes i'r egwyddorion a osodwyd allan yn **Changing Childbirth**, fel y gwelir o Bennod 2 o'r ddogfen honno, **Appropriate Care**:

"The Expert Maternity Group believes that the first principle of the maternity services should be:

The woman must be the focus of maternity care. She should be able to feel that she is in control of what is happening to her and able to make decisions about her care based on her needs, having discussed matters fully with the professionals involved." Perthnasol hefyd y cyswllt hwn yw **Is-bennod 3.6 Making the Best Use of Services**:

"3.6.2 Providers must ensure that the woman is seen as the focus of care and that her views and needs are respected. When women have more complex needs, or they find it difficult to articulate them, care must be taken to create a genuine opportunity for the woman to explain her views and concerns."

Gwelir y bwlch cyfathrebu hwn rhwng mamau Cymraeg a staff di-Gymraeg ar ei eithaf yn ystod cyfnod anodd yr esgor ei hunan. Mewn cyfweiliad, soniodd un fam i blentyn ifanc fel y colodd ei gafael ar ei Saesneg yn gyfan gwbl wrth ei eni. A hynny er ei bod yn fenyw addysgiedig a chanddynt Saesneg o safon dda:

"Nes i ddim siarad Saesneg o gwbl trwy'r genedigaeth. O feddwl yn ôl, tasai [fy ngŵr] ddim wedi bod yna baswn i wedi cael lot mwy o drafferth, a basai hynny wedi bod yn anodd. Dw i ddim yn meddwl baswn i wedi gallu siarad Saesneg i safio 'mywyd 'on i mor focussed ar jyst y genedigaeth, fel 'doedd 'na dim byd arall. Ac yn aml 'oedden nhw jyst isho ateb "ie" neu "na". Bydden nhw'n gofyn i mi, "Do want a drink of water," ac 'o'n i'n deud [wrth fy ngŵr], "Na, deud wrthi hi bo' fi'n iawn." Basai wedi bod yn haws, siŵr o fod i ddeud "No" yn Saesneg, ond y ffaith oedd bo' fi'n deud "Na, deud wrth i hi bo' fi' iawn" neu bo fi ddim isho fo neu beth bynnag. 'Oedd o'n fwy o eiriau [yn Gymraeg], ond 'oedd o'n haws."

Yn astudiaeth Gwenan Thomas, disgrifiodd mam arall ei phrofiad o orfod defnyddio ei gŵr hi fel cyfieithydd rhyngddi hi a'i bydwraig ddi-Gymraeg yn ystod ail gyfnod yr esgor, er bod y ddwy ddynes yn siarad Saesneg gyda'i gilydd yn rhwydd ychydig ynghynt. Soniodd y fam hon am yr euogrwydd a deimlai na fedrai ymateb i anghenion y fydwraig trwy siarad Saesneg â hi, ac un thema a welodd Thomas yn ystod

ei hymchwil oedd mai ar y merched beichiog y rhoddwyd y cyfrifoldeb am siarad iaith yr oedd y rhai o'u cwmpas yn gyffyrddus â hi. Arwydd yw hwn fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n gyfleus i'r darparwr yn hytrach nag yn addas i'r defnyddiwr.

Fel y canfu'r awdur yn ei ymchwil ef ym meysydd bydweigiaeth ac ymwelwyr iechyd, sylwodd Thomas nad oedd unrhyw ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddewis iaith menywod wrth osod bydwragedd gyda nhw, er y byddai wedi bod yn well gan nifer ohonynt weld staff dwyieithog:

"Sadly, despite identifying the attributes of being able to speak their chosen language, none of the women considered they had a choice in the matter. They were never offered the option of having a Welsh speaking midwife. Furthermore, very few women, for fear of repercussions, would ever consider making such a request." (Thomas, G., 1998)

Ategwyd hyn gan sylw un ferch:

"Wel, ti'n disgwyl gorfod siarad Saesneg, yn wyt ti? 'Sdim dewis."

Yr oedd y merched yn aml yn eu gweld eu hunain yn "lwcus" neu'n "ffodus" os cawsant fydwraig Gymraeg trwy'r system hap-a-damwain. Mae hyn eto'n groes i'w egwyddorion a geir yn **Changing Childbirth**:

"2.2.1 The service will need to be flexible and responsive to the individual needs of families being served, and women must be able to choose who they want to provide their maternity care."

Fel yn achos ymwelwyr iechyd (gweler 7.4.1 uchod) deilliodd llawer o'r problemau a gododd o'r ffaith syml na feddylwyd holi'r darpar-famau pa iaith y byddai'n well ganddynt ei siarad. Mewn cyfweiliad, rhoddodd un tad enghraifft glir o hyn wrth ddisgrifio ei brofiad o ymwneud â gwasanaethau mamolaeth:

"Y peth cyntaf sy'n digwydd, mae'n debyg, yw bod yr Ymddiriedolaeth yn rhoi bydwraig bersonol i ni. Doedd 'na ddim unrhyw fath o ystyried anghenion ieithyddol yn rhan o hynny, felly cathon ni fydwraig ddi-Gymraeg wedi'i rhoi. 'Oedd hi'n wych o fydwraig, dim cwynion o gwbl amdani, mae hi wedi dod yn ffrind personol i'r teulu. Ond pwynt oedd bod dim ystyriaeth i'r ochr ieithyddol wedi cael ei neud. Ac wrth gwrs unwaith mae'r person yn troi fyny ar y drws, fedwch chi ddim yn hawdd iawn wneud dim byd amdan y peth wedyn."

Fel yn achos ymwelwyr iechyd, pan ddaw bydwraig ddiGymraeg i'r tŷ, y mae gan y fam neu'r teulu

Cymraeg ddewis syml rhwng ei derbyn yn ddigwestiwn a wynebu posibilïad gwrthdaro personol ar stepen eu drws trwy ei gwrthod. Gellid osgoi hyn pe bai darparwyr gofal mamolaeth yn fodlon gofyn i famau am eu dewis iaith cyn gosod bydwraig gyda nhw. Er mwyn gwneud hyn, byddai rhaid i ddarparwyr gydnabod siarad Cymraeg fel un o'r sgiliau proffesiynol y bydd bydwragedd yn eu defnyddio wrth ymdrin efo merched beichiog.

Trwy beidio â gosod bydwragedd Cymraeg gyda menywod beichiog Cymraeg, gwastreffir un o sgiliau cyfathrebu allweddol y bydwragedd dwyieithog. Os yw merched Cymraeg yn gorfod derbyn gwasanaeth bydwragedd di-Gymraeg, mae'n debyg hefyd bod nifer o fydwragedd dwyieithog yn cael eu gosod gyda menywod uniaith Saesneg nad oes arnynt angen darpariaeth Gymraeg na allant fanteisio arni. Un o argymhellion Gwenan Thomas ar sail ei hymchwil yw y dylid rhoi i ferched beichiog Cymraeg eu hiaith opsiwn i gael bydwaig benodedig ("named midwife") sy'n gyfiaith â nhw. I fod yn realistig, bydd rhaid i'r opsiwn hwn gael ei gynnig mewn modd sy'n ei gwneud yn gwbl glir i'r merched beichiog nad ffafiaeth arbennig ydyw, ac nad yw darparwr y gwasanaeth yn gweld cynnig y fath opsiwn yn anghyfleustra neu'r drafferth. Ni fydd yn bosibl bob tro gynnig bydwaig Gymraeg i bob mam Gymraeg, ond gellid gwella cryn dipyn ar y sefyllfa bresennol trwy ystyried iaith yn un o'r ffactorau allweddol wrth osod bydwragedd gyda merched beichiog. Yn ddi-ddorol, dengys ymchwil Gwenan Thomas, o'r 52 o fydwragedd a nyrsys cynorthwyol (auxilliary nurses) yn gweithio yng ngwasanaethau mamolaeth yr ardal pan gynhaliwyd yr astudiaeth, fod 27 yn siarad Cymraeg, sef 51.9 % o'r cyfanswm. Cyfetyb hyn yn eithaf da i'r ganran o siaradwyr Cymraeg ym mhoblogaeth gyffredinol sir Gaerfyrddin, sef 54.8%, gan awgrymu y gellid mynd cryn ffordd tuag at fodloni anghenion ieithyddol merched beichiog yr ardal ar sail y lefel bresennol o staff Cymraeg.

Mae cynllunio gwasanaethau ar sail anghenion ieithyddol (ymysg anghenion eraill) hefyd yn gwbl gyson â'r egwyddorion sydd i'w chael yn **Changing Childbirth**, er enghraifft:

Pennod 3 Accessible Care, is-bennod 3.1 Assessing Local Needs

"3.1.2 The [Expert Maternity] Group believes that local population profiles should be refined so that the purchaser can accurately assess the characteristics of the child-bearing population. For example, the ethnic mix and the number of teenage, unsupported, homeless, or older mothers will need to be assessed. Purchasers

should ensure that services specifications reflect any particular needs identified.” (Yng nghyddestun y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Awdurdodau Iechyd Lleol yw'r "pwrcaswyr", ac Ymddiriedolaethau ac ymarferwyr megis GPs yw'r "darparwyr").

7.6 Ymarferwyr Annibynnol - Meddygon Teulu, Deintyddion a Fferyllwyr

O'r holl rannau o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, y mae'n debyg mai dyma'r un lle y mae'r ddarpariaeth Gymraeg ar ei mwyaf di-drefn ac anghyson. Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth ddefnyddwyr, y mae rhwyddineb neu anhawster cael hyd i feddyg teulu, deintydd neu fferyllwydd dwyieithog yn dibynnu i gryn raddau ar ble yr ydych yn byw a phwy yr ydych yn ei adnabod.

Anodd iawn yw ymchwilio i natur ac ehangder y ddarpariaeth Gymraeg gan ymarferwyr annibynnol am fod eu meddygfeydd/deintyddfeydd/siopau mor niferus a chymaint ar wasgar trwy Gymru i gyd.

Ymhellach, nid yw statws yr ymarferwyr hyn o ran Deddf yr Iaith Gymraeg yn glir o gwbl, ac nid yw'n glir ychwaith a fydd y sefyllfa'n newid yn sgil sefydlu'r Grwpiau Iechyd Lleol.

Mae'r awdurdodau Iechyd wedi ymrwymo yn eu cynlluniau iaith I annog, hwylyso a chefnogi'r defnydd o Gymraeg gan yr ymarferwyr hyn wrth iddynt gyflwyno gwasanaeth gofal iechyd. Nid yw glir hyd yma:

- 1 I ba raddau mae'r Awdurdodau wedi bod yn gweithredu'r ymrwymadau hyn a gyda pha lwyddiant?
- 2 Beth yw disgwyliadau'r Awdurdodau o ran y defnydd o'r Gymraeg gan ymarferwyr?
- 3 Beth yw dylanwad yr Awdurdodau yn hyn o beth mewn gwirionedd?

Yn ddi-os, dyma faes y mae angen mynd i'r afael ag ef ar fyrder. Dyma'r sector y mae'r mwyaf o ddefnyddwyr yn dal i gyswllt ag ef ac mae anghysondeb a diffygion presennol yn golygu bod bwllch sylweddol o ran y ddarpariaeth Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd.

7.6.1 Meddygon Teulu

Meddygon teulu yw cyswllt cyntaf a phrif gyswllt nifer fawr o gleifion â'r Gwasanaeth Iechyd. Yn aml iawn, rhwng y meddyg teulu a'r claf unigol y mae'r cysylltiad rhwng y cyhoedd a'r Gwasanaeth Iechyd ar ei fwyaf agos a phersonol a sensitif. Mae edrych ar waith meddygon teulu felly'n hanfodol bwysig i

unrhyw astudiaeth o ofal iechyd ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Am fod y cyswllt rhwng y meddyg teulu a'i gleifion mor agos ac mor bersonol, nid oes dim gwadu pwysigrwydd iaith. Mewn cyfweiliad, disgrifiodd un cyn-feddyg teulu ymateb nifer o'i gleifion newydd wrth iddo gymryd drosodd meddygfa leol mewn ardal draddodiadol Gymraeg ar ôl i'r meddyg blaenorol ymddeol. Wrth gwrdd â'r meddyg newydd am y tro cyntaf, mynegodd sawl un eu bodlonrwydd mawr bod y meddyg yn medru'r Gymraeg.

Am eu bod mor niferus, a'u meddygfeydd gymaint ar wasgar trwy'r wlad i gyd, anodd iawn yw cyflawni unrhyw fath o ymchwil gynrychiadol i rôl meddygon teulu mewn darpariaeth Gymraeg ym maes iechyd, ac i'w hagweddau at yr iaith Gymraeg yn eu gwaith. Mae'r ychydig dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu'n gryf mai mater sy'n dibynnu ar nifer o ffactorau hap-a-damwain o hyd yw derbyn gwasanaeth yn eich dewis iaith gan feddyg teulu, yn enwedig ble yr ydych yn byw. Yn ardaloedd mwyaf Cymraeg y gogledd-orllewin, gweddol hawdd yw dod o hyd i feddyg Cymraeg, neu o leiaf cael hyd i feddygfa lle y mae un meddyg Cymraeg yn ymarfer. Wrth symud i ardaloedd mwy ieithyddol gymysg y gogledd-ddwyrain a'r canolbarth, y mae angen cynyddol dibynnu ar wybodaeth llafar gwlad am ba feddygon sy'n medru'r Gymraeg. Yn y de-ddwyrain, y mae angen yn aml helpa fwriadol a phenderfynol i gael hyd i feddyg Cymraeg, a hyd yn oed lle y mae meddygon Cymraeg i'w cael, nid yw eu galluoedd ieithyddol yn cael eu hysbysebu.

Gellir cael rhestr o feddygon teulu Cymraeg eu hiaith oddi wrth Awdurdodau Iechyd Bro Taf a Gwent (gan gynnwys fferyllwyr ac optegwyr hefyd yn achos rhestr Bro Taf). At hyn, y mae pob Awdurdod Iechyd yn cyhoeddi rhestr o feddygon teulu yn disgrifio eu sgiliau arbennig, gan gynnwys ieithoedd, yn ogystal â'u rhyw ac ati, ac mae'r rhain ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Os yw'r defnyddwyr y cyfweiliad â nhw yn nodweddiadol o'r boblogaeth yn gyffredinol, prin iawn yw'r bobl sy'n gwybod am y rhestr hyn, nac am ble y gellir edrych arnynt. Os na chânt eu hysbysebu'n well, fe fydd y rhai sydd am gael hyd i feddyg Cymraeg yn gorfod dibynnu o hyd ar wybodaeth llafar gwlad. Efallai fod hynny'n gweithio'n iawn i rai pobl, ond gall fod yn eithriadol o anodd mewn ardaloedd fel Gwent a Morgannwg lle mae'r boblogaeth Gymraeg ar wasgar a siaradwyr unigol yn aml heb ddim cysylltiad rheolaidd â siaradwyr eraill.

Hyd yn oed os nad yw meddyg(on) yn siarad Cymraeg, mae na nifer o bethau eraill y gellid ei

wneud i ddangos parch i gleifion Cymraeg eu hiaith, e.e.:

- Sicrhau bod staff dwyieithog ar gael yn nerbynfaf'r feddygfa;
- Sicrhau bod posteri a thafleddu dwyieithog yn cael eu harddangos;
- Defnyddio ffurflenni dwyieithog;
- Nodi dewis iaith wrth gyfeirio cleifion at ysbytai, wasanaethau cymunedol, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, nyrsys ardal a.y.y.b.

Pwynt arall a gododd yn ystod ymchwil yw fod rhaid i feddygfeydd lle y mae meddygon Cymraeg yn gweithio fod yn barod ar gyfer cleifion Cymraeg a threfnu ar eu cyfer. Er enghraifft, disgrifiodd un person fel y cysylltodd â meddygfa lle y gwyddai fod meddyg Cymraeg i'w gael er mwyn cofrestru, gan esbonio ei fod yn arbennig o awyddus i gofrestru gyda meddyg Cymraeg. Gwrthododd y staff y dderbynfaf ei gofrestru gyda'r unig feddyg Cymraeg yn y practis, gan honni bod rhaid cofrestru gyda'r practis yn gyffredinol. At hyn, fe'i rhybuddiwyd na allai fod yn siŵr o weld y meddyg Cymraeg bob tro a fynnai oni bai ei fod yn fodlon aros yn hirach nag arfer. Nid oedd y person yn teimlo bod unrhyw fath o ddealltwriaeth na chydymdeimlad gan staff y dderbynfaf am ei anghenion, a gadawodd y feddygfa'n teimlo'n "hollol wirion. Debyg bod nhw'n meddwl mai rhyw fath o activist dw i, sy'n creu stŵr am y Gymraeg ymhob meddygfa yn [y dre]."

7.6.2 Fferyllwyr

Am fod nifer sylweddol o bobl yn tueddu i fynd at eu fferylllydd am gyngor iechyd sylfaenol, y mae angen pendant edrych yn ofalus ar ran y gweithwyr hyn mewn darpariaeth Gymraeg. Yn y flwyddyn ystadegol 1966-97 paratowyd mwy na 37 miliwn o eitemau presgripsiwn gan fferyllwyr yng Nghymru, 12.2 am bob person yn wlad, ac mae'n glir felly fod fferyllwyr yn un o brif fannau cyswllt pobl â'r Gwasanaeth Iechyd. (Swyddfa Gymreig, 1997) Fel yn achos meddygon teulu, ni fu'n bosibl ymchwilio'n drylwyr i waith y garfan hon, a bydd angen llawer mwy o waith ymchwil cyn y gellir tynnu casgliadau pendant amdanynt.

Yn ddiddorol, dangosodd arolwg holiadur a gynhaliwyd gan Beaufort Research ar gyfer yr adroddiad hwn fod Cymry Cymraeg yn fwy tebygol o dipyn o siarad Cymraeg â'u fferylllydd nag â'u meddyg teulu wrth fynd i'r ysbyty. Dywedodd 43% o atebwyr eu bod yn siarad Cymraeg fel arfer wrth ddefnyddio eu fferyllfa leol, o gymharu 33% sy'n defnyddio'r Gymraeg fel arfer gyda'u meddyg teulu. O'r bobl a oedd wedi derbyn triniaeth mewn ysbyty,

dim ond 19% a ddywedodd y byddent yn defnyddio'r Gymraeg fel arfer wrth wneud hynny. Mae hyn yn awgrymu yn gryf fod siaradwyr Cymraeg yn barod iawn i ddefnyddio'r Gymraeg wrth drafod materion iechyd os oes cyfleoedd hwylus i wneud hynny.

7.6.3 Deintyddion

Ni fydd cyswllt deintyddion â'r cyhoedd fel arfer mor rheolaidd ag eiddo meddygon teulu a fferyllwyr, ond eto i gyd gall fod yn bur gyson yn ystod plentyndod a henaint pan fydd rhai defnyddwyr ar eu mwyaf bregus. Bydd llawfeddygon deintyddol mewn ysbytai weithiau'n ymgymryd â llawdriniaeth go lym sy'n newid siâp a golwg yr wyneb, lle y mae angen cryn sensitifrwydd a chyfathrebu da i esmwytho pryderon y claf.

Ni fu'n bosibl cynnal ymchwil drylwyr i waith deintyddion yng Nghymru, ac mae angen llawer mwy o waith cyn tynnu casgliadau. Cydnabyddir fod prinder difrifol deintyddion yng Nghymru, a bod y rhan fwyaf o gleifion yn falch o ddod o hyd i ddeintydd o unrhyw fath sy'n fodlon derbyn cleifion GIC, heb sôn am ffeindio deintydd Cymraeg.

7.6.4 Ymarferwyr Annibynnol sy'n Dysgu'r Gymraeg

Mae nifer sylweddol o staff sy'n gwasanaethu anghenion iechyd yn y gymuned wedi mynd ati'n glodwih iawn i ddysgu'r Gymraeg a'u defnyddio yn eu gwaith, ond un broblem sylfaenol sy'n codi oherwydd safle meddygon teulu, deintyddion a fferyllwyr fel ymarferwyr annibynnol o fewn yr GIC yw fod rhaid iddynt wneud eu cynlluniau eu hunain os ydynt am ddysgu Cymraeg. Yn ôl Dr Chris Walker, meddyg a ddechreuodd ddysgu Cymraeg ar ôl symud o Loegr i Ynys Môn, byddai mwy o feddygon teulu yn fwy parod i fynychu cyrsiau Cymraeg oni bai am y pwysau sydd ar eu hamser a'u cyllid:

"There is plenty of encouragement for hospital doctors to learn Welsh in terms of study leave and so on, but GPs have to make their own plans." (Clark, L., 1997)

O gofio mor gyson ac mor bersonol yw cyswllt y tri grŵp hyn â'r cyhoedd, gwerthfawr iawn fyddai ystyried sut y gellid eu cynorthwyo i ennill y sgiliau ieithyddol a'u galluogai i ddarparu'n well ar gyfer defnyddwyr Cymraeg.

7.7 Gwasanaethau Argyfwng a Brys - Gwasanaethau Ambiwllans a Pharafeddygol

Yn ystod yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, cododd 3 prif gwestiwn yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru:

- (i) Pwysigrwydd cyflogi gyrrwyr ambiwlans a pharafeddygon allai ymddrin â chleifion brys Cymraeg yn eu hiaith gyntaf.
- (ii) I ba raddau y dylid disgwyl i'r gwasanaeth ambiwlans fedru delio â galwadau brys yn Gymraeg.
- (iii) Pwysigrwydd gwybodaeth ddaeryddol leol a dealltwriaeth ddigonol o'r Gymraeg i gofnodi enwau lefydd yn fanwl gywir a phasio'r wybodaeth honno ymlaen yr un mor gywir

Edrychir ar y 3 chwestiwn hyn fesul un, er eu bod ynghlwm wrth ei gilydd i gryn raddau:

- (i) Mae cwestiynau ynglŷn â phwysigrwydd cyflogi staff dwyieithog yr un mor berthnasol i'r gwasanaeth ambiwlans ag i bob rhan arall o'r GIG, ac efallai'n fwy felly oherwydd bod criwiau ambiwlans yn aml yn dod i gysylltiad â chleifion yn fuan wedi iddynt ddiodef trawma difrifol, megis damwain ar yr heol. Mewn amodau o'r fath gall fod yn fanteisiol i rai allu Sgwrsio n hawdd yn eu hiaith gyntaf.

Fel ymhob rhan o'r Gwasanaeth Iechyd, y mae'n rhaid cydnabod fod problemau recriwtio staff cymwys dwyieithog i rai swyddi. Gorau i gyd os gellir llenwi unrhyw swyddi gwag â staff addas sydd wedi'u tynnu o'r gymuned leol ac felly'n adnabod yr ardal ac yn deall ei hanghenion, ac mae problemau'n debyg o godi wrth geisio dod â staff dwyieithog i mewn o ardaloedd eraill o ran diffyg adnabyddiaeth o ddaeryddiaeth yr ardal.

- (ii) Cwestiwn yr un mor anodd ei ddatrys yw i ba raddau y dylid disgwyl i'r gwasanaeth ambiwlans allu delio â galwadau brys yn Gymraeg. Fel y byddai rhywun yn disgwyl, y mae'n wir fod yn rhan fwyaf o bell ffordd o alwyr brys yn defnyddio'r Saesneg wrth geisio ambiwlans. Er hyn, fel ymhob sefyllfa argyfyngus a phoenus y mae cryn nifer o siaradwyr a fyddai'n dewis cyfleu'r wybodaeth angenrheidiol yn eu hiaith gyntaf pe caent y cyfle.

Hyd at 1 Ebrill 1998, pan unwyd holl Ymddiriedolaethau Ambiwllans rhanbarthol Cymru yn un corff ar gyfer Cymru i gyd, un yn unig o'r hen Ymddiriedolaethau a oedd wedi paratoi Cynllun Iaith Gymraeg statudol, sef Ymddiriedolaeth Ambiwllans Gogledd Cymru. Yr oedd yn y Cynllun hwnnw ymroddiad clir i ymddrin â galwadau brys a ddeuai i mewn yn Gymraeg yn yr un iaith:

"Bydd y Swyddfa Reoli Ganolog sy'n derbyn galwadau brys '999' yn mabwysiadu agwedd tîm i ddelio â galwadau brys yn Gymraeg. Gwneir trefniadau i ddelio â galwyr Cymraeg. / The

Central Control Room which receives emergency '999' calls will adopt a team approach to dealing with emergency calls in Welsh. Arrangements will be made to deal with Welsh-speaking callers."

Cafwyd gwybodaeth hefyd fod gan hen Ymddiriedolaeth Ambiwllans Gorllewin Cymru bolisi cyffelyb o gadw o leiaf un siaradwr Cymraeg ar ddyletswydd yn yr Ystafell Reoli Damweiniau ac Argyfyngau (Accident and Emergency Control Room) trwy'r amser i ymateb i alwadau brys Cymraeg. Mae'r Ymddiriedolaeth newydd ar gyfer Cymru gyfan wedi paratoi Cynllun Iaith drafft ac yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddogfen hon yn gynnar yn 1999. Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd llefarydd ar ran yr Ymddiriedolaeth fod gallu ei Chanolfannau Rheoli i ddelio â galwadau Cymraeg yn "eithriadol o gyfyng", ar wahân i'r ddwy Ganolfan Reoli yng Nghaernarfon a'r Rhyl, a hynny oherwydd anhawster recriwtio staff Cymraeg mewn llefydd eraill. Yn y bôn, y mae ehangder y ddarpariaeth Gymraeg yn y gwahanol Ganolfannau Rheoli ar hyn o bryd mwy neu lai yn ddrych o batrymau ieithyddol y cymunedau lleol y tynnir eu staff ohonynt, ac felly yn anghyson iawn o ardal i ardal. Mae'n debyg y bydd gwell technoleg a rhwydweithio rhwng y Canolfannau Rheoli yn galluogi staff mewn Canolfannau lle nad oes staff Cymraeg i drosglwyddo galwadau i Ganolfannau eraill lle y gellir derbyn galwadau Cymraeg. Er hyn, ffactor arall y mae rhaid ei ystyried yw'r anawsterau a allai godi o drosglwyddo galwad, er enghraifft o Bont-y-pwll i Gaernarfon, oherwydd y wybodaeth ddaeryddol leol sydd ei hangen er mwyn cyfeirio ambiwlans yn gywir i'w gyrchfan (gweler pwynt (iii) isod).

- (iii) Cwestiwn hollol ymarferol yn ymwneud â gweithredu gwasanaeth effeithiol sy'n ymateb yn brydlon i anghenion cleifion yw'r un am wybodaeth ddaeryddol leol a digon o ddealltwriaeth o'r Gymraeg i gofnodi enwau llefydd yn gywir. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ardaloedd gwledig lle y gall tai fod yn ddiaffordd ac anodd eu ffeindio, ac arwyddion cyfeirio weithiau'n brin.

Cafwyd tystiolaeth o ddwy ardal yng Nghymru fod cerbydau ambiwlans wedi cyrraedd eu gyrchfan yn hwyr oherwydd naill ai diffyg adnabyddiaeth o'r ardal leol neu anallu i ymdopi ag enwau llefydd Cymraeg. Mewn un achos arbennig o frawychus, clywyd bod bywyd claf wedi'i beryglu'n ddifrifol oherwydd i deleffonydd di-Gymraeg gamgymryd enw Cymraeg y

tŷ, "Wern" am y rhif Saesneg "one". Am nad oedd tŷ gyda'r rhif un i'w gael ar y stryd roedd y claf yn byw arni, gwastraffwyd amser prin yn gyrru'r ambiwlans yn ôl a blaen ar hyd yr heol yn chwilio am dŷ nad oedd yn bod. Mae'n debyg fod criw'r ambiwlans wedi dod o hyd i'r tŷ yn y diwedd trwy holi trigolion lleol, a fedrai gywiro'r gamagraff am enw'r tŷ. Disgrifiodd y claf wedyn fel y bu'n gorwedd yn hanner ymwybodol ar y llawr ac yn clywed seiren yr ambiwlans yn mynd heibio i'w dy sawl gwaith:

"Wn i ddim faint o amser aeth heibio, ond i fi roedd fel hyd dragwyddoldeb, cyn i'r ambiwlans stopio'r tu allan i'r tŷ." Honnodd y claf wedyn ei fod wedi dioddef difrod parhaol i'w galon, er na ellir priodoli hynny'n sicr i'r oedi cyn i'r ambiwlans ei gyrraedd.

Fel ymhob rhan o'r Gwasanaeth Iechyd, nid oes gofyn i bob aelod o staff ddod yn rhugl yn y Gymraeg. Er hyn, y mae'n glir bod rhai gweithwyr y mae dealltwriaeth sylfaenol o rai elfennau o'r iaith yn hanfodol os ydynt i gyflawni eu dyletswyddau'n iawn, ac ymhlith y rhain y mae staff sy'n cofnodi a throsglwyddo gwybodaeth bwysig am gleifion. Os oes gan glaf enw neu gyfeiriad Cymraeg, hollol annerbyniol ydyw os na ellir cofnodi'r rhain yn gywir. Dim ond ychydig bach o hyfforddiant iaith sydd angen i wneud yn siŵr bod staff allweddol yn gyfarwydd â sillafu ac ynganu yr enwau Cymraeg y dânt ar eu traws.

Nid yw'r cwestiwn am wybodaeth ddaearyddol leol yn un sy'n gyfyngedig i enwau Cymraeg, chwaith. Tynnodd Paul Flynn A.S. sylw yn ddiweddar at achosion o ddryswch lle roedd cerbydau ambiwlans wedi cael eu danfon i Drefdraeth, sir Benfro, yn lle Casnewydd yng Ngwent, a hynny am mai "Newport" yw enw'r ddwy dref yn Saesneg. Wrth ganoli'r gwasanaeth ambiwlans yn fwyfwy, rhaid ystyried o ddifrif goblygiadau rheoli gwasanaethau ambiwlans o'r tu allan i'r ardaloedd y gweithredir nhw ynddynt. (Flynn, P., 1998)

7.8 Agweddau Anfeddygol

Yn ystod gwaith ymchwil, edrychwyd ar nifer o agweddau ar ofal iechyd nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith staff meddygol a nyrsio, ond sydd er hyn yn berthnasol iawn i unrhyw drafodaeth am y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf oll â chaniatáu i gleifion preswyl mewn ysbytai barhau gymaint â phosibl â'u bywydau deallusol, ddiwylliannol a chrefyddol.

Profiad undonog a go ddiflas fydd arhosiad hir yn yr ysbyty i sawl un, ac oherwydd hyn mae darparu cyfleusterau difyrwrch yn newis iaith y claf yn hynod

bwysig. Soniwyd uchod ym **Mhennod 5 - Iaith a Meddygaeth** am y ffordd y dywedodd llawer o gleifion eu bod yn teimlo'n "fwy cartrefol" os caent siarad Cymraeg gyda staff, ac y mae'r un peth yn wir i raddau am y cyfle i wyllo'r teledu, gwranddo ar y radio neu ddarllen papurau newydd a chylchgronau. Cyfeiriwyd yn benodol at y mater hwn yng Nghylchlythyr 1975 y Swyddfa Gymreig ar yr iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd:

"Gyda'r gwasanaethau arbenigol yn cael eu datblygu fwyfwy mewn ysbytai arbennig, bydd y rhan fwyaf o brif ysbytai Cymru yn delio â rhai cleifion a fyddai'n llawer mwy cartrefol pe gallent gael siarad Cymraeg, gwranddo ar Gymraeg ar y radio neu wyllo rhaglenni Cymraeg ar y teledu / With the increasing development of specialist services at selected hospitals there are few major hospitals in Wales which do not treat some patients who will be put more at ease by a conversation in Welsh or by listening to Welsh radio or television programmes."

Eir ymlaen yr un ddogfen i ddatgan:

"Dylid darparu cyfleusterau ar gyfer cleifion sy'n dymuno derbyn darllediadau o wasanaethau Cymraeg, mynychu cyfarfodydd crefyddol neu ddiwylliannol, ac ymuno â gweithgareddau oriau hamdden a drefnir drwy gyfrwng y naill iaith neu'r llall yn ôl y galw / Facilities should be provided for patients who wish to receive Welsh language broadcast services and to attend religious, cultural and leisure activities organised through the medium of either language according to demand."

7.8.1 Radio a Theledu, Cylchgronau a Phapurau Newydd

Cydnebydd nifer o Ymddiriedolaethau Iechyd yn benodol yn eu Cynlluniau Iaith Gymraeg fod cyfrifoldeb arnynt i sicrhau mynediad i gleifion preswyl i sianeli radio a theledu Cymraeg, a sonnir mewn dau Gynllun Iaith am yr angen i ddarparu'r fath ddifyrion a llyfrau, tapiau sain a fideo a theganau a gemau plant yn newis iaith cleifion. Nid yw mater y teledu yn un syml bob tro, yn enwedig os nad oes ond un set deledu ar gael i nifer fawr o gleifion, a llawer o'r rheini yn anfodlon gwyllo rhaglenni Cymraeg. Mater symlach, efallai, yw radio, gan y caiff cleifion wrando arni trwy glustffonau. Ynglŷn â hyn, yn ogystal â sicrhau y gellir derbyn gorsafoedd radio Cymraeg fel Radio Cymru, dylid rhoi sylw i faint o raglenni Cymraeg y mae'n ymarferol ac yn ddymunol eu darlledu gan orsafoedd radio mewnol ysbytai.

Mae angen hefyd sicrhau bod cyfnodolion Cymraeg poblogaidd, fel Golwg, Yr Herald Cymraeg ac Y Cymro, ar gael yn hawdd yn siop yr ysbyty ac ar drolïau papurau newydd sy'n mynd i'r wardiau. Yn ystod gwaith arsylwi, ni chafwyd dim ond un o'r 7 ysbyty lle roedd cyfnodolion Cymraeg ar gael yn amlwg yn y siop a ddarperir ar gyfer staff, cleifion ac ymwelwyr. Ni ellir dweud a yw pethau'n wahanol o ran y gwasanaeth troli i'r wardiau.

7.8.2 Crefydd a Chaplaniaid

Wedi i gwestiynau difrifol iawn am ddiffyg caplaniaid Cymraeg godi mewn un cyfweliad, cysylltwyd â phrif gyrff crefyddol sy'n ymwneud â darparu caplaniaid Catholig a Phrotestannaidd ar gyfer ysbytai Cymru.

Dengys y ddau ddyfyniad isod pa mor bwysig y gall darpariaeth Gymraeg yn y maes hwn fod i rai cleifion. Daw'r naill un oddi wrth gaplan a'r llall oddi wrth feddyg profiadol:

"Dwedwch bod chi'n Eglwyswr neu efallai'n Ymneilltuwr clasurol Cymraeg, a chithau ar eich awr olaf, mi fyddai fo'n drwsgl pe byddech chi'n cael rhywun oedd ddim yn medru'r Gymraeg."

"Mae 'na ddigon o bobl yng Nghymru sydd yn byw eu bywyd bob dydd trwy'r Saesneg ond bod eu profiad ysbrydol nhw yn gwbl uniaith Gymraeg... A dyna pam mae llawer o bobl yn gwybod bod Duw yn siarad Cymraeg, bod Duw yn siarad Wrđw, Swahili a Hindi a falle bod e'n siarad Saesneg ond dyn nhw ddim mor sicr. Falle bod e, ond dyn nhw ddim yn siŵr. Mae'r cyd-destun ysbrydol i gyd yn yr iaith Gymraeg."

Fel y rhan fwyaf o staff eraill y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, cyflogedigion Ymddiriedolaethau unigol yw caplaniaid ysbytai, ac wrth ymchwilio i unrhyw ddiffyg caplaniaid Cymraeg, fe wynebier yr un ddwy her ag a geir wrth edrych, er enghraifft, ar ddiffyg meddygon Cymraeg:

- (i) Sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg cymwys yn ymgeisio ar gyfer y swyddi pan ddönt yn wag.
- (ii) Sicrhau bod Ymddiriedolaethau Iechyd yn cydnabod yr angen am gaplaniaid Cymraeg ac yn gweithredu ar sail hynny trwy
 - (a) naill ai penodi caplaniaid dwyieithog.
 - (b) neu gynorthwyo caplaniaid di-Gymraeg i feistrolir Gymraeg.
 - (c) neu wneud yn siŵr y gellir dod o hyd i gaplan Cymraeg yn ddiymdroi ac yn ddidrafferth os cwyd yr angen.

Mae pwyntiau (ii) (b) a (ii) (c) yn arbennig o

berthnasol i gaplaniaid llawn-amser; yn achos caplaniaid rhan-amser y mae mwy o le i hyblygrwydd ac i ddefnyddio dimensiwn tîm i sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael i'r rhai sy'n ei ddymuno. Yn ôl llefarydd ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru, y mae rhai caplaniaid di-Gymraeg eisoes yn gwneud hyn yn anffurfiol trwy benodi gweinidog Cymraeg i gymeryd ambell sesiwn yn yr ysbyty. Yn yr un modd, disgrifiodd un offeiriad Anglicanaidd fel y bydd yn cael ei alw'n achlysurol i mewn i'w ysbyty lleol:

"Dw i'n cael achlysuron yn codi lle y dw i'n cael galwad ffon yn hwyr y nos neu'n gynnar y bore, a "Look, we've got a Welsh speaker, can you come in and do last rites," neu "Can you come and talk to them." A dach chi'n falch o neud, felly, ond mater o hap a damwain ydy o."

Yn ôl llefarydd dros Archesgobaeth Catholig Caerdydd, er nad oes, y mae'n debyg, yr un caplan Catholig Cymraeg llawn-amser yn ysbytai Cymraeg, y mae cronfa sylweddol o offeiriad a lleianod dwyieithog sy'n barod ar unrhyw adeg i ymweld â chleifion. Yn ôl y llefarydd, ar yr Ymddiriedolaeth y mae'r cyfrifoldeb pennaf am sicrhau darpariaeth grefyddol i gleifion Cymraeg: "Y peth hanfodol ydy i'r ysbyty wneud yn siŵr fod offeiriad, neu unrhyw un sy'n medru'r iaith, yn cael eu cysylltu."

Cafodd llythyr at yr Eglwys yng Nghymru yn holi am gaplaniaid Anglicanaidd Cymraeg ei basio ymlaen at Gaplan Rheoli Ymddiriedolaeth Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd. Ni wnaeth hwnnw ddim sylwadau am ddarpariaeth Gymraeg i gleifion ar wahân i gyfeirio sylw'r awdur at Gynllun Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, gan ddatgan, "The matter of providing appropriate support for patients through the medium of Welsh is a matter for the Trust who is the employer and not the Church." Yn y cyswilt hwn, dylid nodi nad oes gan Gynllun Iaith Gymraeg Ysbyty Athrofaol Cymru, na Chynllun cyfatebol yr un Ymddiriedolaeth arall, ddim byd i'w ddweud yn benodol ynghylch gwasanaethau caplaniaid, ar wahân i ddatganiadau cyffredinol am sicrhau lefelau priodol o staff Cymraeg.

Yr un pwynt sy'n allweddol wrth edrych ar ddarparu caplaniaid Cymraeg ag sy'n allweddol wrth edrych ar bob agwedd arall ar ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd, sef bod y gwasanaeth yn cael ei gynnig fel norm yn lle bod y claf yn gorfod gofyn a phwyso amdano. Fel ymhob rhan arall o'r Gwasanaeth Iechyd, y mae gwneud yn siŵr bod claf Cymraeg yn gweld caplan Cymraeg os bydd yn dymuno hynny, yn dibynnu ar drefniant effeithiol i gofnodi dewis iaith, i basio'r wybodaeth honno ymlaen wrth i'r claf fynd trwy'r system, ac i weithredu ar sail y wybodaeth

honno gymaint ag y bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio y bydd llawer o bobl yn gofyn am wasanaeth caplan yn ystod eu salwch terfynol, pan ydynt ar eu mwyaf bregus a diymadferth.

7.9 Traffferthion gyda Ffurflenni

Er bod Cynllun Iaith pob sefydliad iechyd yng Nghymru yn ymrwymo i ddarparu ffurflenni Cymraeg, y mae traffferthion yn dal i godi ynglŷn â rhai ffurflenni, yn enwedig y rhain sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Iechyd ond a ddefnyddir y tu allan i'r ystyby a'r feddygfa, e.e. ffurflenni presgripsiwn, a'r rhai i gael tâl salwch statudol ac i gael presgripsiynau rhad tra'n ddi-waith. Mae'n debyg fod y sefyllfa hon yn deillio'n bennaf o ddau ffactor:

- (i) Er bod ymroddiad swyddogol i gynhyrchu ffurflenni Cymraeg, nid yw'r broses o'u cynhyrchu wedi'i chyflawni eto (efallai oherwydd rhwystrau technegol). Er enghraifft, yn achos ffurflenni presgripsiwn, y mae'r Swyddfa Gymreig wedi datgan nad yw'r peiriannau a ddefnyddir i'w cynhyrchu ar hyn o bryd yn caniatáu gosod testun dwyieithog arnynt, er ei bod yn fwiad newid hyn rywbryd yn y dyfodol.
- (ii) Er bod ffurflenni Cymraeg ar gael, nid yw staff yn ymwybodol o hyn nac yn gwybod sut i ddod o hyd iddynt. Gall hyn ddigwydd hyd yn oed o fewn swyddfeydd unigol lle nad yw pob aelod o staff yn gwybod ymha gwpwrdd y cedwir deunyddiau Cymraeg. At hyn, y mae corff sylweddol o dystiolaeth anecdotaidd fod ffurflenni a llythyron Cymraeg yn cael eu hanwbyddu gan nifer o sefydliadau cyhoeddus oherwydd nad yw staff unigol yn gwybod beth i'w wneud â nhw. Mewn cyfweiliadau, cwynodd mwy nag un claf eu bod wedi derbyn ffurflenni dwyieithog yn yr ystyby ond wedi cael eu hannog gan staff Cymraeg i lenwi'r ochr Saesneg rhag ofn na châl'r ffurflenni mo'u prosesu'n iawn. Mae'n glir yn y cyswllt hwn fod angen codi ymwybyddiaeth staff Cymraeg a di-Gymraeg am ba ddeunydd sydd ar gael i ddefnyddwyr yn Gymraeg, a beth y dylid ei wneud â ffurflenni a lenwir yn Gymraeg.

Gwelir y sefyllfa ar ei mwyaf dwys wrth edrych ar y ffurflenni a ddefnyddir i gleifion roi cydsyniad â llawdriniaeth. Codwyd y mater hwn yng Nghylchlythyr 1975 y Swyddfa Gymreig ynglŷn â'r iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd:

"Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol y dylai'r ffurflenni "Caniatáu Triniaeth", y mae'n

ofynnol i gleifion eu llenwi, fod yn ddwyieithog. The Secretary of State has decided that 'Consent to Treatment' forms, which have to be completed by patients, should be bilingual." (Swyddfa Gymreig, 1975)

Er hyn, y mae dau brif gwyn yn dal i godi ynglŷn â'r fath ffurflenni

- (i) Bod rhaid gofyn yn arbennig amdanynt, a'u bod weithiau'n cael eu storio mewn man anhygyrch ar wahân i'r ffurflenni Saesneg cyfatebol.
- (ii) Bod rhai meddygon yn gwrthod eu llofnodi ac yn mynnu bod cleifion sydd am lenwi ffurflen Gymraeg hefyd yn llenwi un Saesneg. Y rheswm a roddir fel arfer dros wrthod defnyddio ffurflenni Cymraeg yw bod meddygon di-Gymraeg yn anfodlon derbyn cyfrifoldeb am driniaeth trwy lofnodi ffurflenni na ddeallant mohonynt.

Mewn cyfweiliad, cododd y ddau bwynt hyn gyda'i gilydd gan un claf:

"Ffurflen uniaith Saesneg. Ddaru mi ofyn am un Gymraeg. Wel, yr argraff bod chi'n creu fuss i ddechrau. Wedyn oeddau nhw'n ffonio rownd, ces i'r argraff bod nhw'n ffonio rownd y wardiau eraill i ofyn os oedd ganddyn nhw gopi o'r ffurflen yna. Tua ugain munud neu hanner awr wedyn, ddaru nhw ei ffindio fo. Oedd y meddyg wedyn yn gwrthod llofnodi'r un Gymraeg... oni bai mod i hefyd yn llofnodi'r un Saesneg."

Er bod pryderon meddygon yn hyn o beth yn gwbl ddealladwy, ni ddylai fod problem os bydd claf yn llofnodi ffurflen Gymraeg, neu'r ochr Gymraeg i ffurflen ddwyieithog, os oes rhywbeth ar y ddogfen Gymraeg yn nodi yn y Saesneg ei bod yn gyfieithiad swyddogol ac awdurdodedig o'r ddogfen Saesneg gyfatebol. Efallai ei bod yn werth cyfeirio yn y cyswllt hwn at Wasanaeth Gwaed Cymru fel enghraifft o sefydliad gofal iechyd sydd wedi mynd ati i sicrhau bod ei holl daflenni a ffurflenni yn ddwyieithog, ac i wneud yn siŵr y gwyr staff di-Gymraeg sut i ddelio â ffurflenni sy'n dod atynt wedi'u llenwi yn Gymraeg. Am fod patrwm y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyson â'i gilydd, a'r ffurflenni yn dibynnu gan fwyaf ar roi gwybodaeth trwy dicio bocsys, gallant gael eu harchwilio yn hawdd gan staff ymha iaith bynnag y'u llenwir. Mewn cyfweiliad disgrifiodd un rhoddwr gwaed newydd ei syndod a'i foddhad wrth lenwi ffurflen Gymraeg a'i chyflwyno i aelod di-Gymraeg o staff:

"Fel arfer, dych chi'n disgwyl tipyn o ffws, neu o leiaf fydd rhaid i chi ateb llwyth o gwestiynau gwirion am y Gymraeg a pam ych chi'n ei

siarad hi a pethau fel 'na. Ond, na - dim ffws, dim trafferth, dim cwestiynau dwl, 'Oedd e'n grêt, y fath ryddhad."

Mor drylwyr yw dwyieithrwydd y Gwasanaeth Gwaed yn ôl y rhoddwr hwn, fel y gall cyfrifiaduron y sefydliad gadw cofnodion o'i gyfeiriadau post yn Gymraeg, yn groes i arfer nifer o gyrff o drosi'r fath wybodaeth i'r Saesneg hyd yn oed pan fydd y cleient wedi ei rhoi yn Gymraeg.

7.10 Iaith, Tafodiaith a Therminoleg

Ymhlith y camau allweddol a nodir yn y papur gwyn **Rhoi Cleifion yn Gyntaf / Putting Patients First** tuag at ddatblygu systemau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth gofal iechyd yn gyflym, yn effeithlon ac yn ddiogel fe nodir, "iaith gyffredin er mwyn priodoli ystyr gyson i eiriau, termau a data / a common language to enable consistent meanings to be attributed to words, terms and data." (Swyddfa Gymreig, 1998) Er bod y papur gwyn yn cyfeirio'n bennaf oll at yr angen i safoni Saesneg y Gwasanaeth Iechyd, y mae nifer o ymarferwyr gofal iechyd wedi gweld yr un angen ynglŷn â'r iaith Gymraeg. Er enghraifft, mewn arolwg diweddar o fydwragedd gogledd Cymru, dywedodd 80% o atebwyr eu bod yn ystyried creu termau bydwreigiaeth Cymraeg naill ai'n "eithaf pwysig" neu'n "bwysig iawn".

(Roberts, G., 1998)

Fel mewn sawl maes gwyddonol a thechnegol, ni fu hyd yn hyn gorff sylweddol o dermau Cymraeg swyddogol ar gyfer trafod gofal iechyd, er bod, wrth gwrs, amrywiaeth helaeth iawn o eiriau Cymraeg ar gyfer disgrifio poen a salwch. Fe welwyd nifer o ymdrechion diweddar i wneud yn iawn am y diffyg termau swyddogol yma:

- Yn 1986 cyhoeddodd Gwasg Prifysgol Cymru **Termau Meddygol / Medical Terms**,
- Yn 1995 cyhoeddwyd **Termau Nyrsio a Bydwreigiaeth: An English -Welsh Dictionary of Nursing and Midwifery Terms**, gwaith ar y cyd gan ddau o staff Prifysgol Cymru, Bangor - Gwerfyl Roberts o'r Ysgol Astudiaethau Nyrsio a Bydwreigiaeth a Delyth Prys o'r Ganolfan Safoni Termau / Centre for the Standardization of Welsh Terminology sy'n rhan o Ysgol Addysg y Brifysgol.
- Sefydlodd y Ganolfan Safoni Termau gysylltiadau hefyd â **Terminat - Canolfan Safoni'r Gatalaneg yn Barcelona** - ac â **Chanolfan Bedwyr**, sefydliad arall o fewn Prifysgol Bangor sy'n cynghori cyfieithwyr ynglŷn ag eglurdeb dogfennau Cymraeg swyddogol.

- Rhan arall o waith y Ganolfan Safoni Termau fu sefydlu cylch trafod electronig ynglŷn â phob math o dermau Cymraeg, gan gynnwys termau meddygaeth a nyrsio, a gellir cysylltu â hwnnw ar y We: <http://www.mailbase.ac.uk/cgi-bin/introwelsh-termau-cymraeg>. Gellir hefyd cysylltu â'r cylch trwy'r e-bost: welsh-termau-cymraeg@mailbase.ac.uk
- Fel rhan o'r prosiect **Mentrau Dwyieithog** mewn **Addysg Bydwreigiaeth / Bilingual Initiatives in Midwifery Education** yn Ysgol Astudiaethau Nyrsio a Bydwreigiaeth Prifysgol Bangor, mae Grŵp Termau Bydwreigiaeth wedi'i greu i gydweithio â'r Ganolfan Safoni Termau ac â bydwreigedd clinigol. Sicrhau cydweithrediad rhwng arbenigwyr ieithyddol, arbenigwyr cyfrifiadurol ac arbenigwyr pwnc i ffurfio cronfa o derminoleg safonol y gellir mynd i mewn iddo'n rhwydd trwy ddulliau electronig. Mae'r Grŵp Termau hefyd wedi meithrin cysylltiadau â'r **GIC Centre for Coding and Classification** yn Loughborough, ac edrychir ar bosibiliadau côdio termau Cymraeg ar gyfer eu defnyddio mewn cronfa ddata gyfrifiadurol, yn yr un modd ag y gwneir â thermau Saesneg ar hyn o bryd.
- Yn ystod yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, clywyd oddi wrth Dr Eluned Lee, **Cydgysylltydd Meddygol** yn **Adran Atal Cenhedlu a Iechyd Rhywiol Ymddiriedolaeth Iechyd Cymuned Gwynedd**, am waith sydd ar y gweill yn ardal yr Ymddiriedolaeth i greu geiriadur o dermau Cymraeg iechyd rhywiol. Dywedodd Dr Lee fod y diffyg termau Cymraeg defnyddiol yn y maes hwn wedi dod i'r amlwg iddi yn ystod ei chyfnod fel "modryb ofidiau" i **Cylchgrawn y Cofî Bach**, cylchgrawn i bobl ifanc yng Nghaernarfon a'r cylch.
- Mae **Geiriadur yr Academi Gymreig**, a gyhoeddwyd yn 1995, wastad yn gaffaeliad defnyddiol i'w gadw wrth gefn, er bod ei swmp a'i drymder yn golygu nad yw'n addas i'w ddefnyddio ymhob sefyllfa.

Un ffactor a wynebwr yn gyson wrth geisio cyflwyno terminoleg Gymraeg i unrhyw faes yw bod defnyddwyr weithiau'n amharod iawn i'w mabwysiadu, gan ei weld yn "Gymraeg gwneud" ffug a dyfeisiedig. Er bod hyn efallai'n siomedig braidd o safbwynt datblygiad y Gymraeg, os ydym am edrych ar gwestiwn terminoleg gofal iechyd Cymraeg o safbwynt y defnyddiwr, y mae angen cydnabod y sefyllfa hon fel y mae, yn hytrach na'i gweld yn

problem. Fel y nododd Dr Dafydd Huws, y mae pedwar rheswm posibl dros ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg:

- (i) Er mwyn yr iaith.
- (ii) Er mwyn yr egwyddor.
- (iii) Er mwyn y darparwr.
- (iv) Er mwyn y defnyddiwr.
(Roberts, G., 1997)

Os y tri cyntaf o'r pedwar rheswm hyn a ystyrir yn bwysicaf, dylid mynd ati i ledaenu terminoleg Gymraeg newydd ar bob cyfle; ond os y pedwerydd sydd oruchaf yn y meddwl, pwyll piau hi. Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd yn sawl maes, un peth sy'n cadw siaradwyr Cymraeg rhag defnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd swyddogol a chyhoeddus yw'r ofn nad yw eu Cymraeg nhw yn "ddigon da"; h.y. nad yw'n cyrraedd rhyw safon theoretig o'r hyn y dylai Cymraeg fod. Cafwyd enghraifft ddiddorol o hyn mewn nifer o gyfweiliadau gyda defnyddwyr gofal iechyd. Pan fynnodd sawl un yn eithaf pendant eu bod yn gweld yn haws trafod materion iechyd yn Saesneg nag yn Gymraeg oherwydd diffyg geirfa feddygol Gymraeg. Daeth yn amlwg wrth eu holi'n fanylach mai defnyddio rhai geiriau Saesneg mewn brawddegau Cymraeg yr oedd yn rhan fwyaf yn ei feddwl wrth ddweud hyn. Fel y sylwodd un meddyg profiadol wrth drafod yr un cwestiwn:

"Mae 'na boendod efo Cymry Cymraeg os ydyn nhw'n defnyddio unrhyw un gair o Saesneg bod eu Cymraeg nhw ddim digon da."

Fel y disgrifir yn **Adran 8.2.1 Cynhyrchu Deunydd Dwyieithog**, y mae angen dybryd i derminoleg newydd fod yn ddealladwy a chlir, os nad yw felly ni chaiff ei ddefnyddio ond gan garfan fach o bobl. Rhaid hefyd i derminoleg beidio â dod yn faich ychwanegol ar gleifion Cymraeg nad ydynt yn gyfarwydd ag ef. Un peth sy'n amlwg yw bod angen codi hyder Cymry Cymraeg i ddefnyddio eu Cymraeg nhw yn gyhoeddus, ac ni wneir hyn ond trwy ddangos bod croeso i bobl ddefnyddio'r math o Gymraeg sy'n naturiol iddyn nhw. Nid cynnal a chadw'r iaith Gymraeg yn ei holl burdeb dilychwin yw diben unrhyw Gynllun Iaith Gymraeg, eithr hwyluso'r ffordd i ddefnyddwyr gyfathrebu yn yr iaith a'r cywair iaith sydd fwyaf cyffyrddus iddyn nhw. Ni oresgynnir byth ddiffyg hyder naturiol rhai defnyddwyr wrth ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd swyddogol, os mynnir ganddynt, neu os cyflwynir iddynt fel patrwm, Gymraeg gorffurfiol ac ysgolheigaidd. Yn sicr, y mae lle i derminoleg Gymraeg ymhob agwedd ar waith y Gwasanaeth Iechyd, ond dim ond i'r graddau y bydd o gymorth i ddefnyddwyr y Gwasanaeth.

7.11 Sensitifrwydd Diwylliannol

Er na ellir honni erbyn hyn bod gan Gymry Cymraeg brodorol ffordd neilltuol o fyw mewn unrhyw ystyr wirioneddol, y mae'n wir fod rhai arferion cymdeithasol sydd efallai yn amlycach mewn cymunedau traddodiadol Gymraeg nag y gymdeithas ddi-Gymraeg ehangach.

Yn amlycaf ymhlith y rhain, ac yn arbennig o berthnasol i faes gofal iechyd, y mae confensiynau cyfarch a sgwrsio, yn enwedig ymhlith y to hyn. Mae hwn yn bwynt a godwyd gan sawl proffesiynolyn meddygol, a hefyd gan nifer o ddefnyddwyr cyffredin a deimlai fod perthnasau iddynt wedi cael eu trin mewn modd amhriodol, yn ymylu ar fod yn sarhaus, oherwydd diffyg ymwybyddiaeth ymhlith staff am gonfensiynau cyfarch a sgwrsio Cymraeg. Prif destun pryder y proffesiynolion a'r defnyddwyr fel ei gilydd oedd y duedd gyffredin i ddefnyddio enwau cyntaf cleifion wrth eu cyfarch ac wrth roi cyfarwyddiadau a gwybodaeth iddynt. Am fod perthynas dda rhwng y cleifion a'r staff sy'n gofalu amdanynt yn ganolog i driniaeth lwyddiannus, y mae'n debyg fod staff yn troi at enwau bedydd cleifion er mwyn nesáu atynt yn bersonol. Ond rhaid yw sylweddoli bod yr hyn sy'n cael ei ystyried yn agosatrwydd cyfeillgar yn y diwylliant Seisnig weithiau yn cael ei weld yn arwydd o ddiffyg parch yn Gymraeg. Efallai ei bod yn ymddangos yn oeraidd a phell i rai fod pobl sy'n adnabod ei gilydd ers blynyddoedd yn dal i alw "Mr" neu "Mrs" ar ei gilydd, ond nid felly y mae mewn gwirionedd.

Disgrifiodd un person ddryswch dwys ei mam wrth i nyrsys alw ei henw cyntaf arni hi, a hithau eisoes mewn cyflwr pur ddryslud ac yn methu amgyffred pwy a oedd yn siarad â hi. I lawer o'r to hyn, y mae'n debyg mai dim ond eu brodyr a'u chwiorydd ac ychydig gyfeillion agos a ddefnyddiai eu henwau cyntaf wrthynt, ac fe allai cryn ddryswch ac anghysur diangen ddigwydd pan fydd pobl o'r tu allan i'r grŵp cyfyngedig hwnnw yn dechrau eu cyfarch yn y fath fodd. Hyd yn oed ymhlith cyfeillion go agos, bydd nifer sylweddol yn dal i ddefnyddio'r teitlau "Mr" a "Mrs" ynghyd ag enwau teuluol yn hytrach nag enwau cyntaf. Ar y llaw arall, defnyddio enw llawn person yw'r ffurf fwyaf derbyniol gan rai, e.e "Mary Jones" yn hytrach na "Mary" ar ei ben ei hunan neu'r teitl ffurfiol "Mrs Jones". Un peth y dylid ei osgoi ar bob cyfrif yw defnyddio enwau cyntaf ar eu pennau eu hunain, fel y nododd un gweithiwr ym maes iechyd:

"Yn arbennig os ydy rhywun yn Gymraeg, os nad ych chi'n nabod rhywun yn rhyfeddol o dda, fydddech chi byth yn defnyddio ei enw cyntaf, byddai 'n sarhad."

Maes arall y mae angen cryn grebwyll a sensitifrwydd wrth fentro i mewn iddo yw'r confensiynau ynglŷn â pha bryd a chyda phwy y caiff rhywun ddefnyddio'r rhagenw "ti" (ail berson unigol ac anffurfiol sy'n cyfateb i "thee" yn Saesneg a "tu" yn Ffrangeg) yn lle "chi" (ail berson lluosog, yn cyfateb i "vous" yn Ffrangeg ac i ystyr wreiddiol "you" yn Saesneg). Gall hyn fod yn ddigon o ddrysni i rai Cymry Cymraeg iaith gyntaf, ond y mae'n arbennig o anodd i ddysgwyr yr iaith, yn enwedig oherwydd na cheir bellach ffurfiau cyfatebol ar lafar yn Saesneg yn y rhan fwyaf o lefydd. Yn ôl un swyddog gyda chyfrifoldeb am hybu'r Gymraeg ym maes iechyd, y mae hwn yn un o'r pethau pwysicaf y mae angen ei bwysleisio wrth ddysgwyr Cymraeg yn y maes, am fod llawer yn tueddu droi at "ti" gan gredu ei bod yn ffurf fwy cyfeillgar ac agosatoch. Nid yw'r ffaith fod y naill siaradwr mewn sgwrs wedi dechrau galw "ti" ar y llall o reidrwydd yn golygu y caiff yr ail berson hwnnw siarad yn yr un modd at y cyntaf, yn enwedig os yw'r cyntaf yn hŷn na'r ail. Daw'r dyfyniad isod o gyfweiliad â defnyddiwr oedrannus. Ac mae'n dangos yn glir teimladau pobl hyn am ddefnydd "ti" a "chi":

"Os dach chi'n defnyddio "ti" â rhywun hŷn na chi neu unrhyw un sy'n ddieithr, beth ydych chi'n neud wedyn ydy mynd i mewn i'w lle nhw, space mae'r Sais yn alw fo... Dach chi'n tramgwyddo wrth alw rhywun yn "ti." Baswn i'n amheus iawn o'i ddefnyddio fo oni bai 'mod i'n medru ffydd, a mae ffydd yn dod rhan amlaf dros amser. Ac wedyn pan mae'r ddau ohonoch chi'n teimlo'n gyffyrddus efo ti, 'na fo, popeth yn iawn. Ond cyn i hwnna ddigwydd mae'n berygl rhyfeddaf. Mae peth wmbreth o'r bobl sy'n dysgu Cymraeg i oedolion yn deud wrthyn nhw, "Ti i bawb," ond mae o'n achosi anhrefn llwyr, **emotional chaos**, achos dach chi ddim yn gwybod sut i ddelio efo fo... Mae pobl yn dweud, "Mae o'n fwy **user-friendly**," ond dydy hynny ddim byd i wneud â fo achos beth sy' gynnoch i wneud y peth yn **user-friendly** ydy cwrtseisi naturiol, consŷrn am sut mae person arall yn teimlo."

Gall hyn fod yn ddigon cymleth i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ond gall fod yn anodd i ddysgwyr gan nad oes ffurfiau rhanbarthol tebyg i gael yn Saesneg. Yn ol un swyddog â chyfrifoldeb am iaith o fewn y gwasanaeth gofal, dyma un o'r pwyntiau pwysicaf y dylai dysgwyr ddeall, gan fod nifer yn defnyddio 'ti' pan yn siarad â chleifion, gan y credant ei fod yn fwy anffurfiol.

Yn ddiddorol, dangosodd ymchwil Gwenan Thomas i brofiadau merched beichiog yn nalgylch Ysbyty Glangwili ei bod yn well gan rai merched ifanc gael

eu cyfarch â'r ffurfiau anffurfiol "ti" a "tithau"n wrth siarad â staff meddygol, a'u bod yn teimlo bod mwy o agosatrydd rhyngddynt nhw a staff wrth symud i ddefnyddio "chi" i "ti":

"Ma "ti" a "tithau" yn dod, wedyn ti'n gwybod fel ti'n aros yn y berthynas."

"Pan mae rhywun yn siarad â ti fel "ti", wedyn ti'n teimlo'n nes ato nhw, dim fel patient ond yn gyfartal, mwy fel ffrind, dim fel claf." (Thomas, G., 1998)

Awgrym cryf yw hon fod hen arferion a chonfensiynau siarad sydd mor bwysig i rai o'r to hŷn o siaradwyr Cymraeg efallai yn cael eu gweld braidd yn oeraidd ac anffurfiol gan rai o'r to iau. Eto i gyd, pwyll piau hi, a'r cyngor gorau y gellir ei roi i staff, mae'n debyg, yw glynu wrth ffurfiau cyfarch ffurfiol oni bai ei bod yn dod yn amlwg y byddai'n well gan y claf arfer cywair llai ffurfiol.

7.12 Lledaenu'r Gair - Gwasanaethau Gwybodaeth

"Mae gwybodaeth yn wasanaeth ynddi'i hun. Mae gwybodaeth yn hanfodol i bobl sy'n gwneud penderfyniadau, yn gwneud dewisiadau, ac yn ymarfer cyfrifoldeb... Ac i'r graddau bod y wybodaeth yn dda neu'n ddrwg, yn eglur neu'n aneglur, yn gynhwysfawr neu beidio, bydd y dewisiadau sydd ar gael i bobl a'r penderfyniadau a gymerant yn well neu ddim cystal. / Information is a service in its own right. Information is essential for people who are making decisions and exercising responsibility... And to the extent that the information is good or bad, is clear or unclear, and is or is not comprehensive, the options open to people and the decisions they take will be better or not as good." (Cyngor Defnyddwyr Cymru, 1995).

7.12.1 Gwasanaethau Ffôn

Mae rhywfaint o wybodaeth iechyd eisoes ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru trwy'r llinell radffon Cyswllt Iechyd Cymru / Health Information Wales. Trwy'r gwasanaeth hwn, ceir gwybodaeth am ba wasanaethau y mae'r GIC yn eu darparu; safonau lleol a'r perfformiad mewn gwirionedd o gymharu â'r rhain; amserau aros ar gyfer triniaeth mewn ysbytai; a grwpiau gofal iechyd hunan-gymorth. Pan ddefnyddiwyd y llinell hon yn ystod y prosiect hwn, nid oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael, ac nid oedd dim gwybodaeth ar gael chwaith am ddarpariaeth Gymraeg yn yr un maes yr holwyd yn benodol amdano, sef therapi lleferydd.

Yn Gofal o Ansawdd a Rhagoriaeth Glinigol, y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf

1998 i gyd-fynd â'r papur gwyn Rhoi Cleifion yn Gyntaf, rhoddir ystyriaeth i ddatblygu llinell ffôn gymorth 24-awr newydd dan yr enw NHS Direct/ Cyswllt GIC yn adeiladu ar seiliau Cyswllt Iechyd Cymru. Yn ôl y papur gwyn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried cyflwyno'r fath system i Gymru yng ngoleuni profiad o gost-effeithiolrwydd a lles i gleifion treialon yn Lloegr. Ym mis Mawrth 1998 lansiwyd cynlluniau peilot mewn 3 ardal yn Lloegr, gyda llinell ffôn wedi'i staffio gan nyrsys yn rhoi cyngor proffesiynol i alwyr am y fath bethau â pha fath o driniaeth y dylent ei cheisio, yn ogystal â gwybodaeth am faterion llai dwys megis amserau aros lleol. Yn enwedig o gofio natur bwysig a chlinigol rhywfaint o'r wybodaeth a chyngor a gyfleir i ddefnyddwyr trwy'r system hon, bydd rhaid ystyried o ddifrif yr angen am roi gwybodaeth yn Gymraeg, a'r addewid yn Siatr y Claf i'w darparu cyn belled â phosibl, wrth gynllunio'r fath wasanaeth ar gyfer Cymru. Fel un o'r datblygiadau mwyaf arloesol yn y GIC mewn blynyddoedd diweddar, y mae NHS Direct yn gyfle euraidd i ddangos fel y gellir integreiddio darpriaeth Gymraeg i wasanaeth cynhwysfawr i gleifion. O fewn y tri cynllun peilot yn Lloegr, ceir trefniadau yn eu lle "i sicrhau eu bod yn darparu cyngor ar ystod eang o ieithoedd". (Swyddfa Gymreig, 1999)

Cyfle ydyw hefyd i ddangos yr hyn y gellir ei wneud a'r dechnoleg deffon ddiweddaraf i hwyluso dewis iaith. Gwelir enghraifft weithredol o'r hyn y gellir ei wneud yn system ffôn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, lle y cynigir dewis o ieithoedd ac adrannau i alwyr iddynt gael dewis a dethol trwy wasgu botymau eu ffôn eu hunain. Mae'r feddalwe ar gyfer y fath systemau eisoes i'w chael yn rhwydd, ac yn cael ei defnyddio'n helaeth mewn nifer o sefydliadau ar Gyfandir Ewrop.

(Mae gwybodaeth fanwl am ganlyniadau cynlluniau peilot NHS Direct yn Lloegr ar gael ar y We: <http://www.doh.gov.uk/nhsexec/direct.htm>).

7.12.2 Posibiliadau'r Radio

Gwnaethpwyd gwaith ymchwil diddorol yn ardal Caerlŷr yn ddiweddar gan Arvind Bhatt a'r Athro James D. Halloran i asesu ymateb gwrandawyr i'r sioe radio **Health Matters** a ddarlledwyd am gyfnod gan orsaf Sunrise FM, sy'n arbenigo mewn darparu cerddoriaeth, newyddion a gwybodaeth ar gyfer y gymuned Asiaidd yn sir Gaerlŷr. Er na ddylid gorbwysleisio'r tebygrwydd rhwng sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Nghymru a sefyllfa ieithoedd lleiafrifol Asiaidd, mae'n werth ystyried rhai pwyntiau a gododd yn ymchwil Bhatt a Halloran.

Gwaith ar y cyd rhwng Awdurdod Iechyd Sir Gaerlŷr a Sunrise FM oedd y rhaglen, ac ymhlith y prif amcanion roedd:

- (i) hybu ymwybyddiaeth am y system gofal iechyd, am faterion iechyd allweddol, ac am hawliau cleifion.
- (ii) hysbysebu digwyddiadau iechyd lleol a grwpiau trafod a hunan-gymorth yng Nghaerlŷr.
- (iii) pwysleisio pwysigrwydd Hybu Iechyd.
- (iv) annog defnyddwyr i gymryd rhan ym mhrosesau cynllunio'r GIC yn lleol.

Dewiswyd meddyg teulu lleol i fod yn "Feddyg Radio", gan gyflwyno'r rhaglen ar y cyd â chyflwynydd o'r orsaf radio. Trefnwyd system ffonio-i-mewn a system i ateb llythyron. Byddai'r bobl ffoniai'r sioe yn siarad nifer o ieithoedd Asiaidd â'r cyflwynwyr, sefyllfa a hwylusir gan y tebygrwydd cymharol rhwng Wrddw, Hindi, Gwjarati a Bengali. Dangosodd ymchwil Bhatt a Halloran fod y sioe radio yn arbennig o effeithiol fel cyfrwng cyfleu gwybodaeth feddygol i ddefnyddwyr bregus ac ynysedig sydd efallai heb yr hyder na'r moddion i fynd at feddyg yn bersonol. Roedd pedwar prif reswm dros boblogrwydd y rhaglen:

- (i) Yn bennaf oll, roedd gwrandawyr, yn enwedig gwrandawyr hŷn yn gwerthfawrogi clywed am faterion iechyd yn eu hiaith gyntaf:
"Hindi-Urdu was just right for us because we don't know English very well, and it was nice to hear our own language when discussing health problems."
"We all liked the programmes in my family. There was lots of information there which we can understand."
"These are not just important - they are absolutely vital for older people who do not understand much - have language difficulties. It is vital to be able to talk in your own language. You need vital information in your own language from someone you can trust."
- (ii) Preifatrwydd a chyfleustra'r radio oedd dau beth y soniodd gwrandawyr amdanynt:
"Radio is portable - you can listen to it anywhere on your own."
"You can listen in private if you want to, or in the factory where everyone listens."
- (iii) Roedd rhaglen hefyd yn gymorth i rai a welai eu meddygon lleol dan bwysau gwaith ac yn brin o amser i drafod popeth yn llawn gyda phob claf:
"There is a lot our doctors can't tell us, they have no time for us."

"I don't like going to the doctor unless I am very ill and then he has not got much time for you. He can't give you all the information, but I can listen to the radio and get more information."

(Sylwer yn yr ail ddyfyniad mai ceisio "rhagor o wybodaeth" gan y radio y mae'r atebydd, h.y. nid yw'r radio wedi disodli'r meddyg fel ffynhonnell wybodaeth, eithr fe geir trwy'r radio wybodaeth sy'n ategu'r hyn a geir gan y meddyg.)

- (iv) Gwerthfawrogwyd cyfrinachedd y rhan ffonio-i-mewn o'r rhaglen:

"Phone-in was good - keep that. We can learn more from other people's problems if we are too shy to ask ourselves."

"Phone-in was good. I could listen to my own problems without having to ask in public."

"Phone-in can be more confidential. You can do it there and then on your own."

Mae'r sylwadau hyn yn arbennig o berthnasol wrth ystyried rhai mathau o salwch, megis salwch meddwl, lle y mae stigma cymdeithasol yn gysylltiedig â nhw o hyd.

Gofynnod nifer o'r gwrandawyr a gymerodd ran yn yr ymchwil am fwy o **follow-up** i'r rhaglen, sef pethau fel taflenni mewn ieithoedd Asiaidd i fod ar gael mewn llefydd fel llyfrgelloedd a meddygfeydd lleol. Mae'n glir felly fod posibilrwydd yma cynnal rhaglen amlgyfryngol i hybu iechyd cymuned Asiaidd Caerlŷr gan ddefnyddio'r radio a deunydd printiedig i ategu ei gilydd.

8.1 Delwedd Allanol

Yn unol â chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y mae holl Awdurdodau ac Ymddiriedolaethau Iechyd wrthi'n mynd ati, neu wedi mynd ati, i fabwysiadu delwedd gorfforaethol ddwyieithog. Datblygiad i'w groesawu yw hwn, yn sicr, am ei fod yn rhoi statws ac amlygrwydd cyhoeddus i'r Gymraeg, ac am ei fod hefyd yn creu ymdeimlad ymhlith defnyddwyr bod y sefydliad dan sylw yn un sy'n gyfeillgar i'r Gymraeg. Cydnabuwyd yr ail o'r ddau bwynt hyn mor gynnar â 1975 yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig ar yr iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd (gweler Adran 6.2 uchod:

"Gan yr effeithir yn uniongyrchol ar iaith ymholiad gan yr amgylchedd lle y caiff ei wneud, dylid gwneud pob ymdrech i gefnogi defnyddio'r Gymraeg drwy arddangos arwyddion a hysbysiadau dwyieithog yng nghyntedd yr ysbyty, gan roi iddynt statws cyfartal, ar y prif arwyddion y tu mewn a thu allan i adeiladau ac ar gerbydau. / As the language of the inquiry is directly influenced by the environment in which it is made, every effort should be made to encourage the use of Welsh by exhibiting signs and notices in both languages in reception areas, giving them equal status, and on all main external and main internal signs and on vehicles." (Swyddfa Gymreig, 1975).

Mae'r diffiniad o ddelwedd ddwyieithog wedi ehangu erbyn hyn i gynnwys llawer mwy nag arwyddion ar waliau a cherbydau, gan ymestyn i gynnwys y fath beth â logo'r sefydliad, bathodynau staff, papur ysgrifennu a chardiau busnes. Er bod y rhain yn bethau arwynebol, y mae tystiolaeth glir eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y cyhoedd Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd lle yr oedd y Gymraeg wedi'i halltudio bron yn gyfan gwbl o feysydd cyhoeddus erystalwm.

Fel rhan o'r ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, cynhaliwyd gwaith arsylwi mewn 7 o ysbytai cyffredinol Cymru, gan edrych ymysg pethau eraill ar yr agweddau canlynol ar ddelwedd allanol:

- (i) Amllder, ansawdd, ac eglurder arwyddion dwyieithog.
- (ii) Dwyieithrwydd pamffledi a thafleuni sydd ar gael i gleifion
- (iii) Dwyieithrwydd posteri a hysbysiadau ar hysbysfyrdau
- (iv) Dwyieithrwydd gweledol ac ymarferol prif dderbynfeydd.

- (i) Y peth mwyaf trawiadol wrth asesu dwyieithrwydd gweladwy ysbytai Cymraeg yw'r amrywiaeth mawr sydd i'w gweld hyd oed rhwng sefydliadau yn yr un ardal. Er enghraifft, wrth ymweld a dau ysbyty go gyfagos at ei gilydd, sylwyd bod arwyddion dwyieithog clir a darllenadwy i'w cael bron ymhob man yn y naill un, tra bod y llall wedi'i lenwi ag arwyddion uniaith Saesneg. Yr ail ysbyty hwn oedd yr unig un yr ymwelwyd ag ef a oedd heb arwyddion dwyieithog safonol yn cyfeirio at adrannau, a hwn hefyd oedd yr un gyda rhai o'r arwyddion mwyaf newydd yr olwg, yn enwedig o gofio bod arwyddion dwyieithog wedi'u gosod mewn rhai ysbytai yn yr un ardal ers blynnyddoedd. Mae'n siomedig nodi bod rheolwyr yr ysbyty yma yn dangod diffys ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dwy - ieith rwydd, fel bo gweddill Cymru yn dechrau dod i adnabod ei werth.

Un peth a oedd yn gyson i bob un o'r 7 ysbyty ond un oedd fod arwyddion rhybudd a gorchymyn i gyd yn uniaith Saesneg. Yr oedd tuedd gyffredinol hefyd i arwyddion dros dro ac arwyddion o waith llaw fod yn uniaith Saesneg. Ymhlith enghreifftiau bach eraill o ddiffyg meddwl yr oedd arwydd mawr y tu allan i un ysbyty yn dangos enw'r sefydliad - rhannwyd yr arwydd yn ddwy ran, a'r ochr Gymraeg yn wynebu oddi wrth y llwybr tua'r fynedfa fel bod angen cerdded oddi ar y llwybr i'w darllen yn iawn. Yn yr un ysbyty, yr oedd y Gymraeg islaw'r Saesneg ar bob arwydd, ac mor agos at y llawr mewn rhai manau fel ei bod yn chwithig iawn ei darllen. Enghreifftiau yw'r rhain o ddefnydd eiconig o'r Gymraeg heb feddwl digon am ddefnyddioldeb y deunydd a gynhyrchir. O'r 6 ysbyty lle y gwelwyd mapiau o'r safle ar y waliau, yr oedd mapiau uniaith Saesneg mewn 4.

- (ii) O ran pamffledi a thafleuni, yr oedd amrywiaeth fawr o le i le ac anghysondeb o fewn ysbytai unigol. Yn arbennig o siomedig, mewn un ysbyty cafwyd stondin arbennig yn llawn pamffledi Nawdd Cymdeithasol uniaith Saesneg, gan gynnwys nifer sylweddol o rai sydd ar gael fel arfer yn ddwyieithog. Ar ben arall y sbectrwm, mewn un ysbyty, gwelwyd arddangosfa gynhwysfawr o bamffledi gwybodaeth iechyd a oedd naill ai'n ddwyieithog neu wedi'u gosod gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn hygyrch wrth ochr ei gilydd. Yn y rhan fwyaf o sefydliadau eraill, cafwyd fel arfer amrywiaeth o dafleuni Saesneg, Cymraeg a dwyieithog, a'r mwyafrif yn uniaith Saesneg. Yn ddiddorol, nid oedd trefn amlwg ar

gyfer arddangos taflenni mewn ieithoedd lleiafrifol eraill. Er enghraifft, mewn un ysbyty yr oedd un daflen am fath penodol iawn o fudd-dâl ar gael yn Gwjarati, heb ddim byd arall o gwbl yn yr iaith na'r un iaith Asiaidd arall. Mae'n amlwg mai mympwy a damwain sy'n rheoli pa ddeunydd a gaiff ei ddsbarthu mewn ieithoedd ar wahân i'r Saesneg mewn nifer o ysbytai o hyd.

- (iii) Ymhob ysbyty ond un, tueddai posteri ar hysbysfyrdau i fod yn Saesneg yn unig, er bod y ffaith eu bod i'w cael mewn un ysbyty yn awgrymu bod deunydd dwyieithog ar gael os ceisir ef o ddifrif. Lle y câi swyddi gwag eu hysbysebu ar hysbysfyrdau, tueddai'r hysbysebion hyn i fod yn uniaith Saesneg ymhob ysbyty ond un.
- (iv) Nid oedd dim byd yn yr un ysbyty i awgrymu a ellid disgwyl cael cymorth yn Gymraeg gan staff y brif ddesg ymholiadau, gan olygu bod defnyddwyr yn gorfod dibynnu ar y fath bethau ag acenion ac enwau staff i ganfod eu hiaith. Er enghraifft, mewn un ysbyty yr oedd y dderbynyddes yn gwisgo bathodyn uniaith Saesneg, a dim ond ffaith bod ganddi enw arbennig o Gymreigaidd a awgrymodd ei bod yn medru'r Gymraeg. Mewn 2 o'r 7 ysbyty, yr oedd modd cael ymateb Cymraeg dealladwy i ymholiad Cymraeg, ac yr oedd derbynyddion 3 arall yn deall ymholiadau Cymraeg i ryw raddau ond yn ateb naill ai yn Saesneg neu drwy gyfeirio â llaw i gyfeiriad y peth yr holwyd yn ei gylch. Yn y 2 arall, cafwyd yr ymatebion canlynol i ymholiad Cymraeg:
 "I'm sorry?"
 "What?"

Er pwysiced yw'r holl bethau uchod, mae un rhybudd y mae angen ei seinio, a hwnnw am duedd rhai i weld arwyddion wal a delwedd gorfforaethol ddwyieithog yn ben y daith o ran darparu ar gyfer cwsmeriaid Cymraeg. Codwyd y pwynt hwn yn 1996 yn yr adroddiad Yr Iaith Gymraeg fel Mater Defnyddwyr:

"Daeth iaith fel symbol ac eicon yn bwysicach na iaith fel rhywbeth a ddefnyddir. Mae papur ysgrifennu dwyieithog a chyfarchiad Cymraeg mewn derbynfa i'w croesawu lle bynnag y'u ceir. Ond ni ddylid cymryd fod yr arwyddion neu symbolau hyn o hunaniaeth Gymreig yn ddwyieithrwydd, nac ychwaith y math o ymagwedd ymarferol at iaith a'i defnydd y mae defnyddwyr ei angen / Language as a symbol and icon has become more important than language as something that is used. The bilingual letterhead and a few token words of

Welsh greeting at reception are welcome wherever they are found. But these tokens or emblems of Welsh identity should not be mistaken for bilingualism, or for the kind of practical approach to language and its use that the consumer needs." (Cyngor Defnyddwyr Cymru, 1996).

Ategwyd y sylwadau hyn yn fwy diweddar gan yr Athro Colin Williams:

"Rhywbeth arwynebol iawn - patina, neu ryw fath o **political correctness** o ddwyieithrwydd a geir yn ymarferol wrth i unigolion ymwneud â nifer o asiantaethau a sefydliadau bob dydd." (Williams, C. & Evas J., 1997)

Os nad oes darpariaeth ddwyieithog wirioneddol ddefnyddiol i'w chael y tu ôl i unrhyw wyneb cyhoeddus dwyieithog, siom a dadrithiad fydd ymateb defnyddwyr Cymraeg eu hiaith yn y tymor hir:

"Cydnabydd Cyngor Defnyddwyr Cymru bwysigrwydd y Gymraeg fel arwydd ac eicon o hunaniaeth, cymuned a chenedl. Ond galwn ar bawb sy'n cymryd rhan i gydnabod fod rhaid i bolisiau iaith ymarferol fod yn fwy na symbolau. Rhaid hefyd fedru defnyddio'r Gymraeg. Rhaid i fframweithiau, cyfleoedd hawliau a chyd-destunau fod yn glir. / The Welsh Consumer Council recognises the importance of Welsh as a token and icon of identity, community and nation. But we call on all those involved to recognise that practical Welsh language policies must be more than symbols. Welsh must also be usable. Frameworks, opportunities, rights and contexts must be clear." (Cyngor Defnyddwyr Cymru, 1996).

8.2 Y Gymraeg ar Bapur

8.2.1 Cynhyrchu Deunydd Dwyieithog

"Cyfieithiad clogyrnaidd o eiriau, o sillaf i sillaf, yn hytrach na geirlun neu Gymreigiad o'r pethau a ddynodant."

Plicio Gwallt yr Hanner Cymry, Emrys ap Iwan, 1889.

Er iddo eu hysgrifennu mwy na chan mlynedd yn ôl, perthnasol o hyd yw geiriau Emrys ap Iwan am gyfieithu carbwl, ac fe'u hategwyd yn ddiweddarach o dipyn gan yr Athro Colin Williams o Brifysgol Caerdydd:

"Un o'r rhesymau nad yw unigolion yn defnyddio ffurflenni Cymraeg yw am eu bod yn gallu bod yn annealladwy! Yn rhy aml mae pobl yn gorfod troi at y Saesneg am eglurhad. Mae'r

geiriau'n gywir, ond gan mai trosiad neu gyfieithiad ydyn nhw, dyw'r cysyniadau neu'r arddull ddim yn gyfeillgar ac yn waeth fyth nid yw'n denu pobl i'w defnyddio. Mae eisiau i ni symleiddio, naturioleiddio iaith dogfennau, ac efallai nid eu trosi o'r Saesneg ond eu hail ysgrifennu er mwyn gwneud y Gymraeg yn atyniadol. Mae'n bwysig i ddechrau pwyso am ddarpariaeth broffesiynol ddwyieithog mewn iaith gyfeillgar." (Williams, C. & Evas, J., 1997)

Ceir dyfarniad cyffelyb am gyfieithu gwael gan Arvind Bhatt yn ei lyfryn ef ar gyfieithu gwybodaeth iechyd, *Many Voices, One Message*. Cyhoeddwyd gan yr Awdurdod Addysg Iechyd yn 1997:

"Too much concern with linguistic accuracy and faithfulness to the original could lead to unreadable translations... An easily comprehensible text is more likely to be accepted and will be read more widely than an obviously translated text." (Bhatt, A. 1997)

Er bod ffurflenni a thafllenni gwybodaeth ar gael gan nifer fawr o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, y mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth Gymraeg yn dal i ffafrio'r rhai Saesneg. Mater o hen arfer neu anwybodaeth am beth sydd ar gael yw hwn yn achos rhai pobl, ond ni ellir anwybyddu'r ffaith fod llawer o siaradwyr Cymraeg rhugl yn dewis defnyddio'r fersiynau Saesneg ar rai dogfennau swyddogol am nad yw'r Gymraeg yn ddarllenadwy. Er enghraifft, dangosodd arolwg NOP ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 1995 y byddai hanner y siaradwyr Cymraeg rhugl a holwyd yn llenwi ffurflen trwyddedu cerbyd yn Saesneg, yn rhannol am eu bod yn credu bod y fersiwn Saesneg yn symlach na'r un Cymraeg.

Mae'r hyn sy'n wir am ffurflenni weithiau'r un mor wir am y fath bethau ag arwyddion wal. Yn ystod gwaith arsylwi mewn un ysbyty cyffredinol, daethpwyd ar draws y ddwy enghraifft ganlynol o'r fath gyfieithu carbwl:

- (i) "Llawr daearol" am "ground floor", yn llythrennol "earthly floor", yn lle "llawr isaf", yn llythrennol "lowest floor";
- (ii) "Cyfres Steryll Crythaol" am "Sterile Cardiac Suite", yn lle "Uned Ddihaint y Galon" neu ryw Beth tebyg.

Mae'r ddau yma yn enghreifftiau perffaith o'r tueddiadau a ddisgrifiwyd gan Emrys ap Iwan i gyfieithu gair wrth air, o'r Saesneg, yn hytrach nag ystyried ystyr y geiriau. Mae arwyddion tebyg yn methu yn eu gorchwyl o roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Nid yw hyn yn ddadl ynglyn â safon iaith, nac yn ymgais i wthio Cymraeg 'cywir' - ond yn syml nid

yw'r ddau arwydd uchod yn ddealladwy i siaradwyr Cymraeg nac i arbennigwyr academaidd yn yr iaith. Gwneir y sefyllfa yn waeth os ceir cam-sillafu mewn arwydd, gan ei wneud yn anealladwy.

Mae gweithredu'n ddwyieithog yn llawer haws os yw sefydliad yn meddwl yn ddwyieithog o'r dechrau un. Mae perygl mawr y caiff darpariaeth Gymraeg ei gweld yn rhywbeth atodol a ychwanegir ar ddiwedd unrhyw brosiect, ac felly'n drafferth diangen. Soniodd Nick Gardner am beryglon y sefyllfa sydd i'w chael weithiau yng Ngwlad y Basgiaid lle roedd dogfennau yn cael eu cynhyrchu yn Sbaeneg cyn cael eu cyfieithu i'r Fasgeg, a'r broses gyfieithu yn cael ei gweld fel "the last troublesome step to comply with legal or social requirements before the 'real' Spanish text is launched." (Gardner, N., 1992). Yn rhy aml, cynhyrchir dogfennau yn uniaith Saesneg heb feddwl am sut y cânt eu cyfieithu i ieithoedd eraill. Fel y dywed Arvind Bhatt, "No agency, however skilled can produce a clear and readable document if it is given a text in complex, jargon-ridden English and then told to translate it literally." (Bhatt A., 1997) Cafwyd tystiolaeth am effaith y fath gyfieithu llythrennol mewn cyfweiliad efo claf:

"Mi ofynnodd [y meddyg] imi lenwi ffurflen 'oeddau nhw wedi darparu yn Gymraeg. a fedrwn i mo'i deall hi, oherwydd bod yna gyfieithu clogyrnaidd. Roedd rhaid i mi fynd o'r neilltu efo'r meddyg a dweud, "Ylwch, yn lle bod chi'n cyfieithu pam na newch chi ofyn yn Gymraeg beth dach hi'n feddwl. A deudodd o, "Cerwch, rhowch siot ar ei gyfieithu hi," medda fo... A mi nes i addasiadau i'w gwneud hi fel byddai os oeddach chi eisiau gwybod rhywbeth yn Gymraeg bod chi'n gofyn y ffordd Gymraeg amdano fo, ac anghofio'r cyfieithu. Ac 'oedd o'n deud wrtha i flwyddyn yn ddiweddarach bod Cymry Cymraeg yn defnyddio'r ffurflen yn llawer gwell nag oedd y ffurflen dechnegol."

Lle y bo'n bosibl, dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfen gael eu paratoi yn gyfochrog bod y ddau fersiwn yn ddarllenadwy, dealladwy a defnyddiol. Dylai hyn ddod yn fwyfwy hawdd wrth i dechnoleg prosesu geiriau ddatblygu.

Trwy baratoi fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfochrog â'i gilydd a'u cymharu â'i gilydd yn gyson wrth eu llunio, gellid gwella safon y ddau fersiwn a sicrhau nad yw'r un ohonynt yn cynnwys jargon nac ymadroddion stoc diystyr. Mae angen cofio'n anad dim mai cyfleu gwybodaeth yw pwrpas tafllenni a ffurflenni a ddosberthir i'r cyhoedd, ac mai cyfleu gwybodaeth i siaradwyr Cymraeg yn fwy effeithiol nag y gellid ei gwneud yn Saesneg yw pwrpas trosi

taflenni i'r Gymraeg. Nid yw cyfieithu yn ddiben ynddo'i hunan - peth i'w gyflawni er mwyn boddhuu gofynion y Ddeddf Iaith. Mae rhaid i iaith fod yn anffurfiol a darllenadwy, ac mae rhaid weithiau cynnwys termau Saesneg lle nad yw'r term Cymraeg cyfatebol yn debyg o gael ei ddeall gan y gynulleidfa darged. Cyfleu gwybodaeth yn hytrach na chynnal purdeb iaith yw'r nod yr anelir ato, a'r un a gaiff flaenoriaeth dros bob ystyriaeth arall. Fel y dywedodd un claf mewn cyfweiliad:

"Mae'n un peth i gael polisi o gyfieithu, ond y cwestiwn arall ydy ydych chi'n gwasanaethu'r bobl. Yr egwyddor i mi ydy bod chi'n rhoi gwasanaeth i'r rhai sy'n siarad Cymraeg, nid eich bod chi'n cyfieithu."

Os profir dogfennau Cymraeg ar sampl o ddefnyddwyr cyffredin cyn eu hargraffu en masse, gwelir camgymeriadau, datganiadau a gwallau argraffu yn gynnwys cyn gwastraffu arian a phapur yn cynhyrchu cannoedd neu filoedd o gopiau o rywbeth na chaiff ei ddarllen am ei fod yn aneglur. Os yw'n ymarferol, gellir recriwtio "panel darllenwyr" o blith y gymuned yr anelir y ddogfen ati.

Ymhlith datblygiadau diweddar ym maes cyfieithu y mae dau sy'n arbennig o berthnasol i'r adroddiad hwn, y naill yng Nghymru a'r llall yn Lloegr:

- (i) Ar 11 Ionawr 1998, cafodd y pecyn Cymraeg Clir ei lansio gan Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, a chynhelir eisoes gyrsiau un diwrnod yn gysylltiedig â'r pecyn. Mae Canolfan Bedwyr hefyd yn cynnig gwasanaeth arolygu â chywiro/chymeradwyo dogfennau Cymraeg, gan nodi'r rhai a ystyrir yn dderbyniol â stamp "Cymraeg Clir". Gan y Ganolfan y mae'r hawlfraint ar y term "Cymraeg Clir" ond mae'n bosibl y caiff yr hawl i ddefnyddio'r term ac i ddarparu'r gwasanaeth cymeradwyo ei drosglwyddo i gwmni masnachol wrth i'r galw am y fath wasanaeth dyfu.
- (ii) Datblygiad cyffrous iawn sy'n debyg o fod yn arbennig o ddefnyddiol yng Nghymru yw prosiect "Wordbank" i gasglu cronfa o dermau swyddogol a thechnegol o nifer o feysydd cyhoeddus, gan gynnwys gofal iechyd. Fel rhan o'r prosiect hwn, y mae nifer o sefydliadau cyhoeddus wedi penodi aelodau o'u staff i helpu llunio rhestr o dermau a ddefnyddir yn Saesneg ym mhriod faes y sefydliad, ynghyd â diffiniadau o'r termau hynny mewn Saesneg symlach i roi syniad clir am union ystyr pob term. Ar ôl i'r rhestr gael eu cwblhau (gwaith sy'n dal i fynd yn ei flaen ar hyn o bryd) gellid wedyn cyfieithu i ieithoedd eraill ar sail y

diffiniadau hyn, yn hytrach na dibynnu ar y term ei hunan bob tro. Trwy weithio ar sail y fath ddiffiniadau, siawns y ceir wedyn "geirlun neu Gymreigiad o'r pethau a ddynodant" yn lle "cyfieithiad clogyrnaidd o eiriau, o sillaf i sillaf," chwedl Emrys ap Iwan. Mae copiau o'r rhestr o dermau a gynhyrchwyd hyd yn hyn ar gael oddi wrth Sefydliad yr Ieithyddion trwy'r cyfeiriad canlynol:

The Institute of Linguists
Saxon House
48 Southwest Street
LLUNDAIN SE1 1UN
Ffôn 0171 940 3100

8.2.2 Cyhoeddi Deunydd Dwyieithog

Arfer safonol gan y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus erbyn hyn yw cyhoeddi dogfennau yn ddwyieithog yn cynnwys y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un tudalen neu'n gefn-gefn â'i gilydd, yn hytrach na chynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahlan. Er nad yw hyn yn bosibl gyda phob dogfen (oherwydd y fath ffactorau â maint neu gymhlethod rhai dogfennau) y mae'r arfer i'w gymeradwyo'n gryf am sawl rheswm:

- (i) Gall defnyddwyr dwyieithog sy'n ansicr am union ystyr rhyw air neu ymadrodd yn y naill iaith gyfeirio'n rhwydd at y fersiwn arall o'r tesun am eglurhad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyswllt dogfennau swyddogol neu dechnegol yn y Gymraeg, lle bydd defnyddwyr efallai am ddarllen y rhan fwyaf o'r testun yn Gymraeg ond eisiau troi weithiau at y Saesneg wrth ddod ar draws geirfa anghyfarwydd yn y fersiwn Cymraeg. Cadarnhawyd hyn gan ymchwil Gwenan Thomas i brofiadau merched beichiog Cymraeg eu hiaith yn ne-orllewin Cymru:
"The availability of bilingual books was suggested by several respondents as it would allow those felt confident to read Welsh to do so, but at the same time provide a translation for those who encountered any difficulties."
(Thomas, G., 1998)
- (ii) Gall staff di-Gymraeg ddsbarthu dogfennau dwyieithog yn rhwydd heb deimlo'n anghyffyrddus, fel y byddent, efallai, pe bai rhaid iddynt ddsbarthu dogfennau uniaith Gymraeg na deallent mohonynt. Os cwyd ymholiad am y dogfennau gan ddefnyddiwr Cymraeg ei iaith, medr y gweithiwr di-Gymraeg ei ateb trwy gyfeirio at y fersiwn Saesneg. Yn yr un modd, fe all gweithiwr di-Gymraeg, i ryw raddau, gynghori defnyddiwr Cymraeg wrth

Pennod 8 - Delwedd a Sylwedd

lenwi ffurflenni dwyieithog yn Gymraeg, gan y bydd yn gallu deall testun printiedig y ffurflen hyd yn oed os yw nad yw'n deall yr hyn y mae'r defnyddiwr yn ei ysgrifennu arni.

- (iii) Os yw'r ddau fersiwn o'r ddogfen ynghlwm wrth ei gilydd, nid oes rhaid i neb ofyn am benodol am y naill na'r llall. Nid oes rhaid felly i ddefnyddwyr deimlo eu bod yn creu trafferth i'r darparwr trwy yn arbennig ofyn am fersiwn Cymraeg o ddogfen. Nid oes angen chwaith neilltuo aelod o staff sy'n gyfrifol am ffurflenni Cymraeg ac sy'n gwybod pa rai sydd gan sefydliad ac yn ble y cedwir nhw.
- (iv) Nid oes rhaid i ddefnyddwyr benderfynu yn y fan a'r lle ymha iaith y maent am ddarllen dogfen neu lenwi ffurflen. Mae'n gwbl bosibl na fydd person yn gwybod ymha iaith y bydd am dderbyn gwybodaeth neu'i rhoi nes cael cyfle i edrych ar y dogfennau perthnasol.
- (v) Bydd dod ar draws ffurflenni a thafleuni dwyieithog yn gyson yn fodd i godi ymwybyddiaeth staff ynglŷn a'r Gymraeg a'u hatgoffa am fodolaeth barhaol a statws swyddogol yr iaith ymhob rhan o Gymru.

Pennod 9 - DARPARIAETH CYNHWYSOL I'R GYMRAEG

"Dylai sefydliadau feithrin agwedd gefnogol tuag at ddarparu gwasanaethau dwyieithog, ac annog staff i gymryd rhan. Ni ddylai siaradwyr di-Gymraeg deimlo dan fygythiad neu dan anfantais. / Organisations should foster supportive attitudes towards providing bilingual service, and encourage staff to participate. Non-Welsh speakers should not feel threatened or disadvantaged." (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996)

"Gall pob gweithiwr, boed yn siaradwr Cymraeg neu beidio, hwyluso dewis iaith i ddefnyddwyr Cymraeg. / Every worker, whether a Welsh speaker or not, can facilitate language choice for Welsh speaking users." (Davies, E., 1999)

Mor bell ag y gellir gweld tua'r dyfodol, y ffaith ddiamau amdani yw mai rhai di-Gymraeg fydd y rhan fwyaf o staff y GIG yng Nghymru, ac nid yw hyn ond i'w ddisgwyl o ystyried patrwm ieithyddol yn y boblogaeth yn gyffredinol. Fel y mwyaf mawr ymhlith staff y GIG, y mae gweithwyr di-Gymraeg yn aml mewn safle grymus iawn fel drws-geidwaid y mynedfeydd i wasanaethau Cymraeg. Yn aml iawn, ar eu hagwedd nhw at ddefnyddwyr Cymraeg y dibynna'r cwestiwn a gaiff y defnyddiwr ddewis iaith y gwasanaeth neu beidio.

Ni ellir anwybyddu'r ffaith bod y camau diweddar a gymerwyd at wella'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Iechyd wedi ennyn ymateb digon chwyrn gan rai. Daw'r enghraifft isod o erthygl gan swyddog gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg yng nghylchlythyr staff un Ymddiriedolaeth Iechyd yn sgîl penderfyniad y dylai staff ateb y ffôn gyda'r cyfarchiad Cymraeg "Bore da" cyn dweud teitl eu hadran yn Saesneg:

"Even this limited change has stirred up quite a lot of feeling and has proved to be a great deal for many to swallow. I had two dozen calls (and then I stopped counting) all negative, some quite upset and many angry, and some quite abusive about the new requirement."

Yn yr un modd, mewn ymateb i arolwg gan gell Caerdydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ym mis Mai 1998 o'r defnydd o'r Gymraeg gan gyrff iechyd yr ardal, dywedodd llefarydd dros un sefydliad.

"Ni chewch eich synnu o glywed bod peth sinigiaeth ac amheuaeth ymhlith staff sydd o dan bwysau oherwydd eu hymrwymadau presennol, y rhan fwyaf ohonynt yn ddi-Gymraeg a phur anaml y byddant yn dod i gysylltiad â chleifion sy'n siarad Cymraeg / You will not be surprised to know that there are elements of cynicism and scepticism amongst a staff who are hard pressed by their existing

commitments and of whom the overwhelming majority do not speak Welsh and seldom encounter Welsh speaking patients."

Teimlad go gyffredin ymhlith rhai gweithwyr yw mai rhywbeth amherthnasol a diangen yw'r holl bryder diweddar am safle'r iaith Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn tynnu sylw ac adnoddau oddi wrth broblemau gwirioneddol bwysig. Gall gweithwyr di-Gymraeg deimlo wedyn na roddir dyledus barch i'w sgiliau a'u gwaith cydwybodol am y cânt eu beirniadu am fethu rhoi gwasanaeth yn Gymraeg.

Ar y llaw arall, y mae'n glir erbyn hyn fod cronfa ddofn o ewylllys da tuag at y Gymraeg wedi tyfu ymhlith y 81.3% o boblogaeth Cymru nad yw'n siarad yr iaith. Dangosodd arolwg NOP ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 1995 fod 77% o'r bobl a holwyd yn gweld y Gymraeg yn gaffaeliad i Gymru, ac 88% yn ei gweld yn rhywbeth i fod yn falch ohono. Ym maes iechyd yn benodol, dangosodd arolwg diweddar o fydwragedd yng ngogledd Cymru fod cryn gefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bydwreigiaeth ymysg bydwreagedd di-Gymraeg neu lai rhugl yn ogystal â'r rhai rhugl eu Cymraeg. (Roberts, G., 1998) Dros y blynyddoedd diwethaf, tyfodd consensws helaeth o blaid ffyniant yr iaith, ymhlith siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd. Hanfodol bwysig i ddyfodol yr iaith ac i lwyddiant gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yw cynnal a chadw'r consensws hwnnw, a hybu'r ymdeimlad ymhlith pawb yng Nghymru eu bod rhywsut yn berchen ar yr iaith ac yn gallu ymfalchio ynddi. Mae hyn yr un mor wir am y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ag yw am unrhyw ran arall o'r sector cyhoeddus.

Mae tri perygl mawr os na lwyddir i dynnu holl weithwyr unrhyw sefydliad i deimlo bod ganddynt i gyd ran i'w chwarae wrth ddarparu ar gyfer defnyddwyr Cymraeg eu hiaith:

- (i) Rhoddir gormod o bwysau ar weithwyr Cymraeg unigol i ymgymryd â phob math o waith yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir lle y mae siaradwyr Cymraeg yn gyfran fach o'r gweithlu.
- (ii) Bydd y gweithwyr unigol sy'n gwneud ymdrech bersonol i hyrwyddo darpariaeth Gymraeg yn teimlo'n ynysedig ac yn digalonni. Disgrifiodd un aelod o staff ei theimladau wrth geisio darparu ar gyfer cleientiaid Cymraeg mewn sefydliad a weithredai bron yn gyfan gwbl trwy'r Saesneg yn unig:

"Wi'n teimlo'n misunderstood, dyna'r gair... Teimlad o isolation a bod yn misunderstood."

Pennod 9 - Cynnwys y Di-Gymraeg Darpariaeth Cynhwysol i'r Gymraeg

- (iii) Ceir difaterwch a diffyg diddordeb ymhlith gweithwyr di Gymraeg ynglŷn â gweithredu'r Cynllun gan arwain at fethiant yn y tymor hir.

Mae tystiolaeth y cyfweiliadau a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, ynghyd â gwaith ymchwilwyr eraill, yn dangos yn ddigamsyniol fod agweddau staff di-Gymraeg yn hollol allweddol i unrhyw ymdrech i wella darpariaeth Gymraeg; yn aml iawn yn bwysicach o dipyn na'u gallu nhw neu'u hanallu yn yr iaith ei hunan. Yn y bôn, nid oes angen i bawb ddysgu'r Gymraeg yn rhugl iddynt fod yn rhan o ddarparu gwasanaethau Gymraeg o safon. Mae dwy brif agwedd ar yr hyn y gall gweithwyr di-Gymraeg ei wneud i hybu buddiannau cleifion Gymraeg eu hiaith:

- (i) Sensitifrwydd ieithyddol.
- (ii) Defnydd cyfyngedig o'r Gymraeg i sefydlu neu gryfhau'r cyswllt rhwng cleifion a staff.

9.1 Sensitifrwydd Iaith

Dangosodd yr hyn a ddywedodd nifer o bobl mewn cyfweiliadau fod cryn werthfawrogiad a diolchgarwch am y sensitifrwydd ieithyddol y bydd rhai staff di-Gymraeg yn ei ddangos wrth ymdrin â chleifion Gymraeg. Mae hyn yn wir hyn yn oed lle na fedr staff ddarparu gwasanaeth Gymraeg gwirioneddol. Er enghraifft, y mae tystiolaeth un fam am y driniaeth a gafodd ei mab yn sgîl damwain:

"Chawson ni ddim siarad Cymraeg, achos doedd neb ar gael i siarad Cymraeg, ond o leiaf roedd 'na ymwybyddiaeth, a mae hynny'n dweud lot.... Mi gafodd [fy mab] ei gnoco lawr wrth ddod off y bws ysgol ryw ddiwrnod, a mi aethpwyd â fo i'r ysbyty agosaf, i casualty.... Mi ddwedodd y nyrs oedd yn cymryd y manylion, "You're obviously speaking Welsh", dwedais i, "Yes" a dwedodd hi, "Does he prefer that?", a dwedais i, "Yes"... A mi nodwyd hynny ar y ffurflen reit ar y dechrau... 'On i'n impressed efo'r ysbyty full stop achos dw i'n meddwl bod y gofal yn arbennig o dda, ond rhaid cyfadde bod sensitifrwydd yna wedi ychwanegu rhywbeth - jyst y ffaith bod nhw sylweddoli a bod nhw wedi neud nodyn. A mi ddwedodd mwy neu lai pob meddyg, "I'm really sorry I can't speak Welsh." Mae jyst yn rhywfath o gydnabyddiaeth bod nhw'n cydymdeimlo gyda'r sefyllfa."

Ategwyd hyn gan riant arall a oedd wedi mynd â'i blant i ysbyty mawr mewn ardal draddodiadol "ddi-Gymraeg":

"Chwarae teg, efo plant yn arbennig, dw i'n credu bod nhw'n derbyn y ffaith bod y plant yn


siarad Cymraeg. A mi wnaethon nhw ymdrechion oherwydd hynny."

Cafwyd canmoliaeth debyg gan ddefnyddwyr i ddau ysbyty arbenigol yn Lloegr sy'n gwasanaethu rhannau o Gymru am eu hymdrechion arbennig i sicrhau darpariaeth gystal â phosibl i'w cleifion Gymraeg. Yr oedd yr ymdrechion hyn yn cynnwys y fath bethau â chael hyd i ddeunydd darllen a thapiau sain Gymraeg, a sicrhau lle yr oedd y bosibl i'r rhieni fod yn bresennol i gyfieithu rhwng y plant a'r staff.

Arbennig o ddiddorol yn y cyswllt hwn yw tystiolaeth un teulu a oedd wedi mynd ati i gwyno'n ffurfiol am ymddygiad ymwelydd iechyd di-Gymraeg a ddaeth i'w tŷ. Yr oedd y teulu'n derbyn y ffaith nad oedd ymwelydd iechyd Gymraeg ar gael yn eu hardal bob tro, a'r awgrym clir yn yr hyn a ddywedasant mewn cyfweiliad oedd na fuasant wedi cymryd cam mor ddifrifol â chyflwyno cwyn swyddogol oni bai am agwedd sarhaus yr ymwelydd iechyd unigol dan sylw. Agwedd negyddol y gweithiwr at y Gymraeg oedd asgwrn y gynnen, ac nid y ffaith ei bod hi yn bersonol yn ddi-Gymraeg:

"Fel arfer, mae gyda ni fenyw arall sydd eto ddim yn siarad Cymraeg, a dw i byth wedi cael yr un math o broblemau gyda hi."

Perthnasol iawn yn hyn o beth yw diagram pedwar cwadrant a luniwyd gan Gwerfyl Roberts o Ysgol Nyrso a Bydwreigiaeth Prifysgol Cymru, Bangor, yn dangos y gydberthynas rhwng sensitifrwydd iaith a gallu ieithyddol:



Mae'r model hwn yn rhoi'r un pwyslais ar ddatblygu sensitifrwydd ieithyddol ag ar ddatblygu sgiliau ieithyddol, yn unol â'r syniad mai rhywbeth sydd yr un mor berthnasol i weithwyr uniaith ag i rai dwyieithog yw dwyieithrwydd a sut i ymateb iddo. Y gweithiwr gyda sgiliau dwyieithog a sensitifrwydd ieithyddol (cwadrant uchaf y dde) fydd y mwyaf abl i ymdrin yn llwyddiannus â chleientiaid dwyieithog, a'r un heb sgiliau ieithyddol na sensitifrwydd (cwadrant isaf y chwith) fydd y lleiaf cymwys. Ond o edrych ar sensitifrwydd ieithyddol a gallu ieithyddol gyda'i gilydd gellir gweld bod nifer o gyfuniadau o'r ddau ffactor yn bosibl o fewn y pedwar cwadrant, a gallai'r

gweithiwr sensitif sydd heb sgiliau dwyieithog wneud cryn gyfraniad i les y cleient dwyieithog, efallai mwy o gyfraniad na'r gweithiwr dwyieithog ond ansensitif. Ar hyd y ddwy linell sy'n diffinio'r pedwar cwadrant, ceir dau gontinwm o sgiliau dwyieithrwydd a sensitifrwydd. Gellir symud ar hyd y ddau gontniwm hyn, gan fod y sgiliau dan sylw i gyd yn rhai y gellir eu hennill, yn hytrach na rhai cynhenid. (Roberts, G., 1997) O edrych ar ddwyieithrwydd a sensitifrwydd ieithyddol yn y fath fodd, gellir eu gweld yn rhannau naturiol o'r diwylliant o "ddysgu am oes" (life-long learning) y sonnir amdano yn nogfen ymgynghori'r Swyddfa Gymreig Gofal o Ansawdd a Rhagoriaeth Glinigol / Quality Care and Clinical Excellence. Yn ôl y ddogfen hon, er mwyn sicrhau'r safonau gorau, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn "hybu diwylliant o ddysgu trwy gydol eich oes i sicrhau bod y medrau diweddaraf yn cael eu dysgu / promote a culture of life-long learning and enable skills to be kept up to date." Ymhlith yr "medrau diweddaraf / up to date skills" mae angen eu dysgu a'u cynnal y mae medrau cyfathrebu a sensitifrwydd.

9.2 Digon o Gymraeg i Wneud y Tro

Cyfyng iawn yw'r ystod o ymadroddion y bydd pobl yn eu defnyddio mewn nifer fawr o sefyllfaoedd cyhoeddus. Yn aml iawn, yn enwedig wrth ffonio, bydd pobl am gyflawni un gorchwyl syml - siarad ag un person penodol, neu gael un darn penodol o wybodaeth. Yn hyn o beth, gall ychydig bach o hyfforddiant iaith i staff di-Gymraeg y ddesg flaen a'r switsfwrdd wneud byd o wahaniaeth. Yn fynych, bydd storfa fach iawn o ymadroddion Cymraeg wneud y tro yn burion, e.e ymadroddion fel "Ga i siarad?", rhifau estyniadau ffôn ac enwau Cymraeg ar adrannau. Mae pethau fel hyn yn helpu peri i'r galwr Cymraeg deimlo nad lle estron yw'r sefydliad y mae'n cysylltu ag ef. Wrth reswm, ni fydd y math hwn o hyfforddiant cyfyngedig yn ateb y diben bob tro, a phan ddaw ymholiad mwy cymhleth bydd angen troi at y Saesneg neu basio'r galwr ymlaen at aelod o staff mwy medrus ei Gymraeg.

Yn yr un modd, casglwyd tystiolaeth sylweddol fod llawer o gleifion Cymraeg yn gwerthfawrogi yn fawr iawn unrhyw ymdrechion gan staff i gyfathrebu â nhw yn eu hiaith gyntaf, hyd yn oed os mai dim ond ychydig eiriau neu gwpl o gyfarchion syml sydd gan aelodau o staff. Er na all cyfarch a mân-siarad syml ac arwynebol fel hyn byth gymryd lle cyfleoedd go-iawn i gyfathrebu'n llawn ac yn rhydd yn newis iaith y claf, gall fod yn rhyfeddol o bwysig i rai cleifion glywed ychydig eiriau o Gymraeg yn awyrgylch Seisnigaidd y feddygfa neu'r ysbyty. Yn ei hastudiaeth hi o ysbyty cyffredinol mawr mewn ardal

draddodiadol Gymraeg, disgrifiodd Gwrfyl Roberts ymdrechion rhai nyrsys di-Gymraeg i gyflwyno darnau bach o Gymraeg i'w hiaith bob dydd wrth weithio:

"Some Anglo-Welsh nurses who have worked on the ward for numerous years have, over time, made a conscious effort to learn conversational Welsh to varying degrees, and interject Welsh phrases into their verbal interactions with patients... Nurses on interview, claimed that they practice limited phrase switching in order to help bilingual patients feel more at ease... In this particular study, bilingual patients' response to limited phrase switching were overwhelmingly supportive of the practice. Patients particularly appreciated the respect shown towards their first language. Moreover, nurses who initiate language switching in this manner were deemed by patients as 'mwy cartrefol' (more homely) and 'mwy agos atoch' (more intimate)." (Roberts, G., 1994)

Ar sail ei brofiad ef fel meddyg teulu, y mae Dr Carl Clowes wedi sôn am yr effaith y gall ymdrechion bach meddyg i siarad Cymraeg ei chael ar rai cleifion Cymraeg eu hiaith:

"Just learning a few phrases helps put patients at ease if Welsh is their preferred language - if patients are relaxed it helps them communicate effectively and avoid misunderstandings."

Ategwyd hyn gan Dr Malcolm Hickey, un o grŵp o feddygon teulu mewn un feddygfa yn Abermaw, Meirionydd, a benderfynodd yn 1997 ddefnyddio £8,000 o'i arbedion fel cronfa-ddaliwr i dalu am diwtoriaeth Gymraeg:

"I don't believe that after a year's course any of us will be able to conduct a consultation in Welsh but it can put patients at ease to greet them in their own language." (Clark, L., 1997)

Mewn cyfweiliadau, cafwyd sylwadau cyffelyb gan ddau feddyg profiadol iawn o ddau faes hollol wahanol ac o bennau gwahanol i'r wlad:

"Dw i'n meddwl bod y cleifion yn gwerthfawrogi'r ymdrech, hyd yn oed os yn aml oedd rhaid iddyn nhw newid i'r Saesneg i ddallt yn iawn."

"Yn aml iawn mae e'n werthfawr iawn i sefydlu'r berthynas empathig yn iaith y galon, neu iaith gyntaf y person, hyd yn oed os mai dim ond brawddeg neu ddwy sy'n cael eu defnyddio."

Cadarnhawyd yr hyn a ddywedodd y meddygon hyn, mewn cyfweiliadau gyda defnyddwyr gofal iechyd, lle

y clywyd canmoliaeth frwd i staff a wnaeth yr ymdrech i ddysgu rhywfaint o Gymraeg. Yr oedd un claf gyda salwch meddwl parhaol yn hael iawn ei glod i feddyg o'r tu allan i wledydd Prydain a oedd wedi dysgu ychydig ymadroddion cyfarch Cymraeg i'w defnyddio gyda'i gleifion. Os rhywbeth, yr oedd gan y claf hwn well meddwl o'r meddyg tramor hwn a'i ychydig eiriau Cymraeg nag o rai o'r staff iaith gyntaf Gymraeg a fyddai'n ei thrin:

"Mae'n rhwydd i siarad â hi, a mae hi yn mynd mas o'i ffordd, mae'n trio dysgu Cymraeg. "Bore da" mae'n dweud, neu mae'n stryffanglan ac mae'n dweud "Pr..pr..prynhawn da," ac mae hi'n sbesial. Mae'n dweud "diolch yn fawr" a "croeso" a chymaint o bethau 'ma... A wi'n hapus yn ei chwmi hi... Wi'n credu bod hi'n haeddu ei chanmol."

Cafwyd canmoliaeth debyg i ymdrechion meddyg arall gan glaf arall gydag afiechyd parhaol:

"Oedd y consultant yn fantastic... Gafael yn eich llaw chi. Dyn du oedd o. Deud ambell air o Gymraeg hefyd. 'O'n i'n gwerthfawrogi hynny, ac 'oedd o'n dallt yn well, wyddoch chi."

Fel y nodwyd uchod, ni fedr defnyddio'r fath ymadroddion cyfarch cwrtais byth gymryd lle cyfathrebu go-iawn rhwng y meddyg a'r claf yn newis iaith y claf. Er hyn, o ystyried cymaint o effaith a gaiff yr ymadroddion hyn o ran cysuro ac esmwytho rhai cleifion, rhaid argymhell y dylai mwy o staff fynd ati i'w dysgu a'u defnyddio gyda chleifion Cymraeg eu hiaith.

9.3 Y Gymraeg fel Sgil Hanfodol

Er cyn bwysiced yw sensitifrwydd ieithyddol a defnyddio ychydig bach o Gymraeg i wneud i gleifion deimlo'n gartrefol, y mae rhaid pwysleisio cyn cloi'r bennod hon fod rhai sefyllfaoedd lle y bydd rhaid i weithwyr di-Gymraeg gydnabod eu bod yn brin o un sgil hanfodol, sef gallu cyfathrebu yn Gymraeg. Fel nododd Siân Wyn Siencyn.

"Competence is not necessarily transferable. If someone is competent in one area it does not guarantee competence in another." (Wyn Siencyn, S., 1995)

Mae hyfedredd yn seiliedig ar wybodaeth, gwerthoedd a sgiliau - os yw rhywun heb un sgil benodol, y mae lle i ddadlau nad yw'n gymwys ar gyfer swydd benodol, pa mor dda bynnag yw gweddill ei sgiliau. Nid yw hyn yn golygu nad yw sgiliau eraill y gweithiwr yn werthfawr, dim ond bod angen un sgil ychwanegol nad yw ganddo. Mae angen cryn dipyn o hyder proffesiynol gan weithiwr di-Gymraeg iddi/iddo

gyfaddef ei fod yn brin o un sgil angenrheidiol wrth ymdrin â defnyddiwr sy'n dewis cyfathrebu yn Gymraeg, ond dyna'r union egwyddor a osodir i staff yng Nghôd Ymarfer Proffesiynol yr UKCC, y corff rheoliadol ar gyfer nyrsys, bydrwagedd ac ymwelwyr ieuchyd yn y Deyrnas Unedig:

"Acknowledge any limitations in your knowledge and competence and decline any duties or responsibilities unless able to perform them in a safe and skilled manner."

(UKCC, 1992)

Un broblem amhosibl ei gwadu ac anodd iawn ei goresgyn yw'r prinder staff gofal iechyd sy'n medru'r Gymraeg. Dengys yr ystadegau sydd ar gael fod y ganran o staff meddygol sy'n siarad Cymraeg mewn unrhyw ardal wastad yn llai na'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth gyffredinol. Er enghraifft, 21% yn unig o staff meddygol Ymddiriedolaeth Ysbytai Gwynedd sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl, o gymharu â 72.1% o boblogaeth sir Gwynedd, a 51.4% ar gyfartaledd yn siroedd newydd Gwynedd a Chonwy gyda'i gilydd. Yn ôl ystadegau Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, sy'n gwasanaethu poblogaeth Caerdydd a hefyd yn darparu gwasanaeth arbenigol i gleifion i Gymru gyfan, dim ond 0.36% o feddygon yno sy'n medru'r Gymraeg, o gymharu â 6.6% o boblogaeth y Brifddinas a 18.7% o boblogaeth y wlad at ei gilydd.

Cadarnhawyd y darlun ystadegol hwn gan y dystiolaeth a gafwyd staff gofal iechyd wrth ymchwilio ar gyfer yr adroddiad hwn. Er enghraifft, wrth holi am ofal iechyd meddwl i siaradwyr Cymraeg, cafwyd yr ymateb canlynol gan lefarydd dros un Ymddiriedolaeth:

"Fel proffesiwn, mae'n anodd recriwtio ar gyfer gweithwyr â chymwysterau yn y maes iechyd meddwl. Mae'n anoddach fyth i recriwtio staff sydd â'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg."

Yn yr un modd, rhoddodd un cyn-feddyg profiadol a arferai weithiau'n aml trwy gyfrwng y Gymraeg, grynodedb twt o'r sefyllfa yn ei ardal ef:

"Mae'n anodd iawn i gael meddyg sy'n siarad Cymraeg - pe bai 'na unrhyw bolisi bod pob doctor sy'n gweithio yn yr ardal yn gorfod medru'r Gymraeg, basai'r ysbytai yn wag."

Wrth ystyried sut i fynd i'r afael â'r prinder amlwg hwn, y mae dau opsiwn sylfaenol:

- (i) Annog mwy o siaradwyr dwyieithog i ystyried gofal iechyd fel gyrfa, a hwyluso'r ffordd iddynt wneud hynny. Fel rhan o hyn, y mae cwestiynau ynglŷn â sut i wneud cyrsiau hyfforddi yn fwy perthnasol i fyfyrwyr dwyieithog ac i anghenion y defnyddwyr dwyieithog y byddant yn eu trin yn ystod eu gwaith.
- (ii) Darparu cyfleoedd i fwy o staff gofal iechyd di-Gymraeg, a'r rhai sydd â chrap ar yr iaith ond heb fod yn rhugl, i feistrolir iaith yn ddigonol i'w defnyddio yn eu gwaith. Yn yr un modd, bydd angen ystyried sut y gellir darparu cyfleoedd i staff sydd yn rhugl eu Cymraeg, ond sydd heb arfer â'i defnyddio'n broffesiynol, fagu'r hyder a'r hyfedredd i ddefnyddio'r iaith yn gyffyrddus yn eu gwaith.

Mae'n debyg mai cyfuniad o'r ddau beth hyn sydd angen os am gynyddu'n ystyrlon y nifer o weithwyr a fedr ddarparu gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Edrychir ar y pynciau hyn yn y ddwy Adran isod 10.1 a 10.2. Yn ogystal â hyn, yn Adran 10.3, edrychir ar agwedd ar hyfforddiant sydd yr un mor berthnasol i siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd, sef sensitifrwydd diwylliannol a ieithyddol. Mae'r Adran hon yn ddilyniant naturiol i'r pwyntiau a godwyd ym Mhennod 9 - Darpariaeth Cynhwysol i'r Gymraeg, am bwysigrwydd sensitifrwydd ieithyddol.

10.1 Hyfforddiant Galwedigaethol ar Gyfer Siaradwyr Cymraeg

"Bydd gofyn i golegau addysg bellach ac uwch a sefydliadau eraill sy'n darparu hyfforddiant... ystyried ystod a chynnwys y cyrsiau galwedigaethol y maent yn eu darparu er mwyn cwrrd â'r galw am bobl â sgiliau proffesiynol a sgiliau eraill fydd yn gallu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg / Colleges of further and higher education and other organisations that provide training... will need to consider the range and content of vocational courses they provide in order to meet the demand for people with professional qualifications who can provide services through the medium of Welsh." (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1996)

"To ensure that students develop the knowledge and skills to practice bilingually, it is necessary for nursing education programmes to be delivered in Welsh as well as English." (Roberts, G., 1996)

Oherwydd adfywiad diweddar yr iaith Gymraeg a llwyddiant addysg gynradd ac uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg, gwelir erbyn hyn y genhedlaeth gyntaf erioed o fyfyrwyr yng Nghymru sy'n mynd i mewn i addysg uwch gyda sgiliau academaidd safonol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gwyr y fath fyfyrwyr sut i ddysgu yn y ddwy iaith, ac y mae ganddynt felly botensial mawr i fynd ymlaen i weithredu'n ddwyieithog wedyn yn eu gwahanol yrfaedd. Mae'r WNB (Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd) wedi ymrwmo i gefnogi datblygu addysg broffesiynol drwy'r Gymraeg drwy hybu a hwyluso sefydliadau addysgol, darparu cyrsiau neu fodiwlau o fewn cyrsiau trwy gyfrwng yr iaith; ac mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yntau wedi datgan bod parhau i ddatblygu addysg alwedigaethol yn y Gymraeg yn haeddu blaenoriaeth ac y dylai sefydliadau addysgol fod yn "proactive in promoting the value of Welsh medium education in a vocational context to students and employers." (Roberts, G., 1996)

Pennod 10 – Recriwtio a Hyfforddi

Yng Nghynhadledd y Gymdeithas Gymraeg ar Gyfer Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd yng Ngregynog ym mis Hydref 1996, lluniwyd rhestr o 9 argymhelliad ar gyfer gwella hyfforddiant galwedigaethol ym maes gofal iechyd gyda golwg ar ddenu mwy o Gymry Cymraeg i'r maes ac felly gwella'r ddarpariaeth Gymraeg i gleifion:

- (i) Cyflwyno hyfforddiant mewn ymarfer iechyddol a diwylliannol sensitif o fewn y cyd-destun dwyieithog yng Nghymru.
- (ii) Cyflwyno dulliau dysgu a fyddai'n hwyluso dysgu dwyieithog, megis dysgu o bell (distance learning), dysgu gweithredol (active learning) ac addysg drwy gymorth cyfrifiaduron.
- (iii) Cynnal sesiynau tiwtorial personol yn newis iaith myfyrwyr.
- (iv) Cydnabod a phwysleisio'r hawl ym Mhrifysgol Cymru i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg.
- (v) Sefydlu cronfa ddata ganolog yn rhestru adnoddau dysgu Cymraeg a dwyieithog sydd eisoes ar gael.
- (vi) Darparu mwy o gyrsiau gloywi iaith addas ar gyfer myfyrwyr a darlithwyr.
- (vii) Rhwydweithio â sefydliadau addysg eraill sy'n ymwneud â defnyddio ieithoedd lleiafrifol ym maes gofal iechyd er mwyn rhannu profiadau.
- (viii) Annog unigolion i ystyried hyfforddiant iechyddol sensitif wrth werthuso eu cyrsiau.
- (ix) Annog cyrff statudol a chyrff cyhoeddus fel yr UKCC, y WNB, y Coleg Nyrsio Brenhinol, y Coleg Bydwreigiaeth Brenhinol, ac undebau llafur y Gwasanaeth Iechyd i ymroi i hybu sensitifrwydd iechyddol mewn gofal iechyd ac i adlewyrchu'r ymroddiad hwnnw yn eu polisiau a'u harferion.
(Roberts, G., 1997)

Ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, y gwnaethpwyd llawer o'r gwaith hyd yn hyn tuag at ddarparu cyrsiau hyfforddiant sy'n fwy perthnasol a mwy deniadol i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith, a llawer o'r gwaith hwnnw'n mynd ymlaen yn yr Ysgol Astudiaethau Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yn ystod 1998 sefydlwyd prosiect dan y teitl Mentrau Dwyieithog mewn Addysg Bydwreigiaeth / Bilingual Initiatives in Midwifery Education i ddatblygu'n ddwyieithog agweddau ar Gwricwlwm y Diploma mewn Bydwreigiaeth. Mae hwn wedi'i ariannu gan y

Swyddfa Gymreig am dair blynedd, ac wedi cael cefnogaeth gan nifer o Ymddiriedolaethau Iechyd gogledd Cymru a chyrff perthnasol eraill. Tri prif amcan y prosiect yw :

- (i) Datblygu adnoddau allweddol: bydd Grŵp Adnoddau yn gyfrifol am gyfieithu holl ddogfennau'r cwrs Diploma, ac am gynnal arolwg o'r deunydd dwyieithog sydd eisoes ar gael ym maes bydwreigiaeth. Bydd hefyd yn gweithio ar ddatblygu Pecyn Dysgu Cyfrifiadurol / Computer-Assisted Learning Pack dwyieithog ar fecanweithiau esgor.
- (ii) Datblygu staff: cynhaliodd Grŵp Datblygu Staff arolwg o gefndir iechyddol ac anghenion datblygiadol bydwagedd ar draws y Gogledd. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r ymchwil hon ym mis Mai 1998, a chyfeirir atynt mewn sawl man yn ystod yr adroddiad hwn. Byddant yn sail i asesiad o anghenion y dyfodol, megis cyrsiau gloywi iaith i staff a gwella dysgu dwyieithog yn y maes.
- (iii) Datblygu termau bydwreigiaeth: gweler **Adran 7.10 Iaith, Tafodiaith a Therminoleg.**

Hefyd ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, y mae Canolfan Bedwyr yn cynnal cyrsiau gloywi iaith ar lafar ac ar bapur, gan gynnwys cyrsiau llafar i ddarparfydwagedd yn yr Ysgol Astudiaethau Nyrsio a Bydwreigiaeth yno. Dangosodd yr arolwg o fydwagedd gogledd Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 1998 fod 70% yn ystyried y fath wersi naill ai'n "eithaf pwysig" neu'n "bwysig iawn". Mae'r Ganolfan hefyd yn arbrofi gyda nifer o ddulliau dysgu dwyieithog, gan gynnwys defnyddio'r ddwy iaith mewn dosbarthiadau cymysg o fyfyrwyr Cymraeg a di-Gymraeg. Ymchwilir hefyd i'r ffyrdd y gall myfyrwyr ddysgu yn y naill iaith a throsi'r wybodaeth neu'r sgiliau a enillasant i'r iaith arall. Ym maes technoleg gwybodaeth, y mae staff Canolfan Bedwyr wrthi'n paratoi pecyn gramadeg cyfrifiadurol i'w lansio ym mis Ebrill 1999 i gynorthwyo Cymry Cymraeg iaith gyntaf a dysgwyr profiadol i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus yn y gweithle. Bydd hwn yn cynnwys tudalennau esboniadol ynghyd ag ymarferion, gydag atebion yn dod ar y sgrin wedyn ynghyd â chyfleuster i esbonio unrhyw ateb os nad yw'n glir gan y defnyddiwr. Fel rhan o'r pecyn hwn, y mae cyfleuster i gadw sgôr o fis i fis ac felly nodi gwelliant a chynnydd, cyfleuster y gellid ei ddefnyddio i gofnodi cynnydd myfyriwr tuag at ennill cymhwyster fel uned iaith NVQ. Eisoes, y mae Cwrs Gloywi Iaith Canolfan Bedwyr yn cael ei ddatblygu i'w roi ar y We, ac y mae fersiwn dros dro ohono ar gael yno:
<http://hydraulix.bangor.ac.uk/ar/cb/gloywi.htm>.

Yn ystod 1998, bu Gwerfyl Roberts a Liz Paden o Brifysgol Bangor yn edrych ar batrymau defnyddio ieithoedd yng nghyd-destun addysg gofal iechyd ym Mangor, Galway a Barcelona. Yn y tair canolfan hyn, ceir ieithoedd lleiafrifol - Cymraeg, Gwyddeleg a Chatalaneg - yn cyd-fyw ochr yn ochr ag ieithoedd mwyafrifol grymus - Saesneg a Sbaeneg. Dangosodd yr ymchwiler, er na chynhelid darlithoedd na grwpiau seminar yr iaith lleiafrifol mewn ysgolion bydweigiaeth yn yr un o'r tair canolfan, fod cryn le i gyflawni gwersi tiwtorial personol yn yr iaith lleiafrifol lle yr oedd tiwtoriaid a myfyrwyr unigol yn ei medru. Yn yr un modd, y mae Cynllun Iaith Gymraeg Drafft Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru yn cydnabod fod modd darparu cyfleoedd dysgu grŵp bychan neu un-i-un yn Gymraeg, hyd yn oed lle nad yw'n bosibl cynnal unrhyw gwrs yn ei grynsyth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymhlith datblygiadau pwysig eraill sydd naill ai eisoes yn weithredol neu yn yr arfaeth mewn llefydd eraill, y mae sawl un arall yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru sy'n haeddu sylw. Mae Cynllun Iaith Gymraeg Drafft y Coleg yn rhestri nifer o'r rhain sy'n gyfraniadau pwysig at wella'r cyfleoedd i fyfyrwyr meddygol ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg, ac felly yn ei thro gwella'r ddarpariaeth Gymraeg i gleifion. Ymhlith y rhain y mae:

- Mentoriaid Cymraeg i gael eu cynnig i fyfyrwyr israddedig Cymraeg yn yr Ysgol Feddygaeth, ac i fod ar gael ar gais gan fyfyrwyr yr Ysgol Feddygol a Deintyddol Ôl-raddedig.
- Bydd yr Ysgol Feddygaeth yn parhau i osod myfyrwyr Cymraeg mewn ysbytai lle y cânt ddefnyddio eu Cymraeg. Yn yr Ysgol Ddeintyddol, trefnir lleoliadau i fyfyrwyr Cymraeg mewn Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol ac Ysbytai Ardal Cyffredinol mewn ardaloedd lle y mae'r Gymraeg yn gryf, os dymuna'r myfyrwyr hynny. Bydd yr Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol Ôl-raddedig yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr Cymraeg gyflawni eu lleoliadau mewn ardaloedd Cymraeg. Er mwyn hwyluso hyn, y mae'r Coleg wedi asesu proffil ieithyddol pob Ysbyty Ardal Cyffredinol yng Nghymru, a sefydlwyd cytundebau dysgu rhwng y Coleg a'r ysbytai hyn gan fwriadu hyrwyddo hyfforddiant clinigol a chyfathrebu a chleifion a'r cyhoedd yn Gymraeg.
- Yn ystod cyfnod clinigol y cwricwlwm israddedig, rhoddir cyfle i fyfyrwyr gysylltu â theuluoedd Cymraeg fel rhan o'r astudiaeth achos teulu estynedig. Cânt hefyd gynnal eu

astudiaethau achosion estynedig blwyddyn olaf yn Gymraeg.

- Bydd llyfrgell y Coleg yn darparu casgliad priodol o gyfeirlyfrau Cymraeg ar gyfer myfyrwyr sydd am gyflawni rhai agweddau ar eu hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r datblygiadau hyn i'w croesawu'n arbennig, am fod tystiolaeth defnyddwyr mewn cyfweiliadau yn awgrymu bod nifer sylweddol o feddygon Cymraeg eu hiaith naill ai'n ddihyder yn gweithio yn yr iaith, neu wedi arfer cymaint â gweithio trwy'r Saesneg fel na fyddant yn aml yn defnyddio'r Gymraeg gyda chleifion sy'n dymuno iddynt wneud hynny. Bydd hyn yn peri weithiau i rai cleifion deimlo'n anesmwyth iawn, a theimlo eu bod rywsut yn pwyso'n annheg ar y meddyg i siarad Cymraeg.

Yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, (UWIC) cyflwynwyd erbyn hyn fodiwl "Bilingual Studies" i'r cwrs gradd ar gyfer therapyddion lleferydd, gan gynnwys opsiwn ymarferol ar yr iaith Gymraeg fel rhan o'r modiwl. Hwn yw'r unig fodiwl o'i fath yng ngwledydd Prydain, ac fe'i dysgir trwy gyfrwng y Saesneg fel y bydd ar gael i fyfyrwyr di-Gymraeg. Nodwyd yn Adran 7.3 - Therapi Iaith a Lleferydd yr ymdrechion a wnaethpwyd yng Ngwynedd i ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg i fynd yn therapyddion lleferydd trwy fynd i mewn i ysgolion Cymraeg i hysbysebu therapi lleferydd fel gyrfa bosibl i fyfyrwyr, a thrwy gynnal diwrnodau agored mewn canolfannau triniaeth ar gyfer myfyrwyr ysgolion a cholegau trydyddol, gyda sgwrs gan therapydd newydd raddio am natur yr hyfforddiant a'r gwaith.

10.2 Hyfforddiant Iaith ar Gyfer Staff Di-Gymraeg

Un ffordd amlwg iawn i gynyddu'r nifer o staff o fewn unrhyw sefydliad gofal iechyd sy'n medru gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yw cynnig gwersi iaith i'r staff di-Gymraeg a gyflogir eisoes gan y sefydliad. Nid opsiwn hawdd yw hwn, i'r sefydliad nac i'w staff, am ei fod yn gofyn am ymroddiad cryf ar y ddwy ochr i broses hir o ddysgu ac ymarfer i ennill gallu a hyder mewn iaith newydd. Mae digon o chwedlau i'w cael am ddysgwyr newydd a aeth o fod yn gwbl ddi-Gymraeg i fod yn ddigon rhugl i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith pob dydd, ond eithriadau prin yw'r rhain, rhaid cyfaddef. Llauer mwy yw'r rhai sy'n dechrau'n awyddus ond rhywsut yn methu â chroesi'r bont o fod yn ddysgwyr brwd i fod yn siaradwyr rhugl. Yn aml, bydd gan ddysgwyr eu rhesymau eu hunain dros gefnu ar eu cyrsiau Cymraeg, ond ni ellir anwybyddu rhai o ddiffygion y system ddysgu sy'n eu gwneud yn fwy tebygol fyth o adael.

Pennod 10 – Recriwtio a Hyfforddi

Ym mis Mai 1998, danfonodd cell Caerdydd o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg lythyron at nifer o sefydliadau gofal iechyd deddwyrain Cymru yn eu holi am wahanol agweddau ar ddarpariaeth Gymraeg i gleifion yn yr ardal. Dau o'r cyrff a ymatebodd i'r arolwg a ddywedodd eu bod yn cynnig gwersi Cymraeg i'w staff, gan roi hefyd wybodaeth ynglŷn â faint o ddysgwyr a adawai'r cyrsiau yn gynnar. Yn ôl y naill un, roedd 60% yn rhoi gorau i'w gwersi, a dywedodd y llall fod 40% yn disgyn allan ar ôl tair wythnos. Yn y cyntaf o'r rhain, roedd y sefydliad yn talu rhan o'r ffioedd a'r staff yn talu'r gweddill, a'r gwersi yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith. Yn yr ail sefydliad, y staff a oedd y gorfod ysgwyddo holl gost y ffioedd, a chynhelid y gwersi ar ôl y gwaith yn amser rhydd y staff.

Er bod rhai manteision cymdeithasol a phersonol i ddysgu Cymraeg, nid yw'n rhyfedd bod cymaint o ddysgwyr yn cefnu ar eu cyrsiau mor gynnar os gofynnir iddynt wneud y fath aberthau o'u harian a'u hamser hamdden eu hunain er mwyn ennill sgil y byddant yn ei defnyddio'n bennaf yn y gwaith. Os yw cyflogwyr o ddifrif am helpu eu staff i ddod yn ddigon medrus yn y Gymraeg i'w defnyddio yn y gweithle, bydd rhaid iddynt ddangos hyn trwy ei gwneud yn llai anghyfleus a llai costus i ddysgwyr o'u harian a'u hamser eu hunain i fynychu gwersi. At hyn, bydd dysgwyr yn aml yn teimlo nad oes modd iddynt dorri i mewn i rwydweithiau Cymraeg yn y gwaith neu'n gymdeithasol. Mae angen cynnal dysgwyr a'u cynorthwyo i wneud hyn, efallai trwy osod un aelod Cymraeg o'r staff i fod yn gefn i bob dysgwr. Mae angen cryn dipyn o waith i helpu siaradwyr rhugl i allu delio â rhai llai rhugl, er bod agweddau yn hyn o beth wedi gwella'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar.

10.3 Hyfforddiant ymwybyddiaeth a sensitifrwydd

Cyn cloi'r bennod hon, y mae un agwedd ar hyfforddiant ar gyfer siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd y dylid rhoi sylw iddi. Fel y disgrifiwyd ym **Mhennod 9 - Darpariaeth Cynhwysol i'r Gymraeg**, gall agweddau staff a'u sensitifrwydd i anghenion ieithyddol cleifion fod weithiau cyn bwysiced â'u gallu cyfathrebu yn newis iaith y claf. Cydnabyddir pwysigrwydd y sensitifrwydd hwn yn gyffredinol gan broffesiynolion gofal iechyd, a chydabyddir hefyd fod hyfforddiant sensitifrwydd i staff gofal iechyd yn rhan bwysig o unrhyw raglen o hyfforddiant sylfaenol. Yn y cyswllt hyn, mae gan y sefydliadau achredu - megis Cyngor Canolog y Deyrnas Gyfunol ar Gyfer Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd (UKCC) a Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau

Ymwelwyr Iechyd (WNB) - a'r proffesiynau llawer o gyfrifoldeb. Cyfeiriwyd at y mater hwn yn benodol yn adroddiad 1993 yr Adran Iechyd, **Changing Childbirth**, sy'n sôn yn benodol am ofal mamolaeth ond sydd yn berthnasol hefyd yng nghyd-destun ehangach gofal iechyd yn gyffredinol. Sonnir yn **Changing Childbirth** am fanteision mawr hyfforddiant sensitifrwydd i staff a chleifion fel ei gilydd:

"3.1.4 It is essential that the service is designed to be sensitive to [users'] religious, cultural and linguistic needs. Staff training programmes should include these issues, but care must also be taken to emphasise the need to avoid stereotyping...."

"3.7.4 In areas where there are significant numbers of women from different ethnic groups, it is important for staff to be aware of the cultural and religious beliefs which influence lifestyle and therefore influence care. Education should help staff to be sensitive, non-patronising, and above all sympathetic and kind. This will be of great benefit to the women involved but it will also help staff. They will have more confidence in their own abilities to deal successfully with situations which might previously have appeared unfamiliar and therefore intimidating."

Ategwyd y pwyntiau hyn yng nghyd-destun Cymru gan Gwerfyl Roberts o Ysgol Nyrsio a Bydwreigiaeth Prifysgol Cymru, Bangor, mewn erthygl yn **Nursing Times** yn 1996:

"It is essential that, within the context of Wales, nursing education programmes focus on language awareness and offer students the chance to discuss and understand the power relationships inherent in choice of language in the health setting." (Roberts, G., 1996)

Yn y cyswllt hwn, calonogol iawn yw edrych ar Gynllun Iaith Gymraeg Drafft Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Nodir yn benodol yn hwn y bydd nifer o'r Ysgolion ac Adrannau o fewn y Coleg yn ymgorffori ymwybyddiaeth ddiwylliant ac iaith yn eu cwricwla. Fel rhan o hyn:

- Bydd yr Ysgol Feddygaeth yn gwneud ymwybyddiaeth diwylliant ac iaith yn rhan o'i rhaglen sgiliau cyfathrebu ac o Fodiwlau Astudiaeth Arbennig y cwricwlwm i israddedigion.
- Yn yr Ysgol Ddeintyddol, bydd pynciau ymwybyddiaeth diwylliant ac iaith yn rhan o'r cwrs Gwyddorau Ymddygiadol.

- Ymgorfforir ymwybyddiaeth diwylliant ac iaith yng nghwricwla'r Ysgol Nyrso, yr Ysgol Astudiaethau Gofal Iechyd, a'r Adrannau Addysg Radiograffeg, Addysg Ffisiotherapi, ac Addysg Therapi Galwedigaethol.

Dylai'r math hwn o fenter fod yn esiampl i sefydliadau eraill sy'n hyfforddi staff gofal iechyd y dyfodol. Ond, mae hwn hefyd yn fater y dylai'r darparwyr gwasanaeth fynd i'r afael ag ef. Hyd yn hyn, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ymwybyddiaeth am Gynlluniau Iaith Gymraeg a'u goblygiadau yn isel iawn, ar y cyfan, ymhlith yr union staff sydd â'r cysylltiad mwyaf â chleifion. Nid yw'n syndod felly bod cymaint o anghysondeb wrth weithredu yr agweddau hynny o gynlluniau sy'n ymwneud â gwasanaeth uniongyrchol i'r claf. Dylai Ymddiriedolaethau ac eraill fod yn defnyddio hyfforddiant gofal cwsmer a chyfle cyfartal i geisio unioni'r sefyllfa. Gall y llawlyfr hyfforddi 'Law yn Llaw: Rheoli yn y Gweithle Dwyieithog' a gynhyrchwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg fod o gymorth yn hyn o beth.

Yn rhan annatod o unrhyw ymdrech i wella safon y ddarpariaeth Gymraeg gan unrhyw sefydliad y mae system monitro effeithiol ac iddi ddau brif ddiben:

- (i) Mesur ansawdd y gwasanaeth yn erbyn safonau sefydlog ar gyfer yr hyn y dylid ei ddisgwyl.
- (ii) Mesur ansawdd y gwasanaeth yn erbyn bodlonrwydd neu anfodlonrwydd ei ddefnyddwyr.

Ynglŷn â'r cyntaf o'r dibenion hyn, bydd y safonau y mae'r sefydliad dan sylw yn anelu atynt i'w cael yn ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hunan. O ran yr ail un, bydd yr hyn sy'n pennu a yw defnyddwyr yn fodlon neu beidio ar y gwasanaeth a gânt yn bur anghyson, gan ddibynnu i gryn raddau ar eu disgwyliadau. Cyflyrir y disgwyliadau hyn yn eu tro gan hunan-hyder defnyddwyr a'u profiadau blaenorol o ddefnyddio'r un gwasanaeth. Yn adroddiad 1995 Cyngor Defnyddwyr Cymru, **Disgwyliadau Defnyddwyr, Bodlonrwydd a Chwynion yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru**, nododd Glyn Williams a Roberts fod lefel isel o gwynion yn aml yn arwydd o ddisgwyliadau isel yn hytrach na o fodlonrwydd mawr, gan ddod i'r casgliad fod "at present, most people's expectations of the GIG are defined in terms of the service provision to which they have been accustomed in the past." (Williams, G. & Harris, R., 1995) Y casgliad anodd ei osgoi yw nad yw cyfran sylweddol o ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith yn disgwyl cael defnyddio eu hiaith gyntaf wrth ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd. Daeth yn eglur yn ystod cyfweiliadau gyda defnyddwyr fod tuedd gref, hyd yn oed yn yr ardaloedd lle y mae'r iaith Gymraeg ar ei chryfaf i weld sefydliadau meddygol yn llefydd anghymreig a digroeso i'r iaith Gymraeg: "sobor o Seisnigaidd" oedd disgrifiad un aelod o staff o'r ysbyty yr oedd yn gweithio ynddo. "Saesneg ydy pob dim, wyddoch chi. Ewch chi i fewn i'r ysbyty...Saesneg ydy'r pethau yno," oedd sylw un claf. Er bod y sefyllfa hon, yn amlwg yn un anfodddhaol i lawer o gleifion Cymraeg, tueddir ar y cyfan i'w derbyn yn ddirwgnach, ac nid yw cleifion yn debygol o gwyno'n agored am unrhyw ddiffyg darpariaeth Gymraeg pan ddönt ar ei draws.

Hyd yn oed lle y mae defnyddwyr yn anfodlon, yn aml iawn y mae amharodrwydd mawr i gwyno'n ffurfiol. Mae rhai o'r rhesymau dros hyn yn ymarferol - y mae llunio cynwys swyddogol a'i gyflwyno yn cymryd amser ac ymdrech na all llawer o bobl fforddio eu sbario. Mae rhesymau eraill yn ymwneud ag anwybodaeth am sut i fynd ati i gwyno - yn ôl arolwg Beaufort Research, nid yw 50% o siaradwyr

Cymraeg yn gwybod a yw'r GIG yng Nghymru wedi cyhoeddi trefn gwyno, a 55% heb wybod a yw'r GIG yn ei hardal nhw wedi cyhoeddi polisi ar yr iaith Gymraeg. (Mewn un ardal - gogledd-ddwyrain- 74% a 77% oedd y ffigurau). Disgrifiwyd rhai eraill o resymau cleifion dros beidio â chwyno'n ffurfiol gan Williams a Harries:

"The reluctance of the dissatisfied to express complaints needs further attention. We have identified a number of constraints which deter dissatisfied people from complaining. They include the 'politicisation' of certain issues to do with provision; the stereotyping of protagonists as political extremists; the fear of recrimination; the danger of bias in the investigation procedure... and the desire to reach compromise positions which will resolve the particular issue - rather than remove the root cause of a problem... Furthermore, there are concerns about under-reporting of complaints. Even when a complaint is made, it often will not lead the provider to record the problem, reflect on the complaint and make the necessary changes. Because of a tendency to resolve issues immediately, complaints often go unrecorded. This also occurs because complainants decide that once they are satisfied that their particular problem is resolved, they do not need to formalise their complaint."

Tuedd gref ac un ac iddi wreiddiau dwfn yw'r un i barchu'r proffesiwn meddygol a pheidio â chwestiynu meddygon na chwyno am eu gwaith. Mae tuedd gref hefyd ymhlith llawer o gleifion i adael i ddarparwr unrhyw wasanaeth meddygol benderfynu ymha ffordd y caiff ei gyflwyno, gan gynnwys unrhyw benderfyniad am iaith y trafod. Yn ychwanegol at hyn, mewn cyfweiliadau, soniodd nifer sylweddol o ddefnyddwyr a sawl aelod o staff am duedd gref y Cymry Cymraeg, yn enwedig y rhai o gefndir gwledig, i beidio â chwyno am ddiffygion unrhyw wasanaeth. Codwyd y pwynt hwn hefyd gan Brif Swyddog un Cyngor Iechyd Cymuned mewn ardal draddodiadol Gymraeg, a chafwyd darlun tebyg gan Gwenan Thomas yn ystod ei hymchwil hi i brofiadau merched beichiog Cymraeg yn nalgylch Ysbyty Glangwili. Sylwodd Thomas, er bod nifer o'r mamau yn amlwg yn llai na bodlon eu bod yn gorfod derbyn bydwaig ddi-Gymraeg, nad oedd yr un yn fodlon dweud dim byd am hyn ar y pryd:

"Fyddwn i'n lico midwife Gymraeg, ond hefyd dim yn fodlon 'neud dim byd ambwyti fe."

"Fyddwn i ddim yn teimlo dylwn i 'neud ffws." (Thomas, G., 1998)

Yn eu hadroddiad nhw, gwelai Williams a Harries y duedd hon yn un nodweddiadol Gymreig:

“There is also a cultural dimension, with the Welsh tradition of expressing dissatisfaction through silence and reticence being a major feature. This is partly a reflection of the desire not to be seen to be making a fuss... Furthermore, the more insensitive observer is unlikely to see the relationship between silent retreat and dissatisfaction. It is therefore obvious that the language and cultural sensitivity training is essential.”
(Williams, G. & Harris, R., 1995)

Am yr holl resymau uchod, y mae rhaid i broses fonitro ddibynnu ar rywbeth mwy na chyfrif cwynion. Er hyn, y mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion a gafwyd gan Ymddiriedolaethau Iechyd, a chan Gyngorau Iechyd Cymuned, yn awgrymu mai cyfri syml yw prif ddull, os nad unig ddull, lawer o sefydliadau gofal iechyd Cymru o fonitro teimladau defnyddwyr am ddarpariaeth Gymraeg. At hyn, y mae rhywfaint o dystiolaeth mai dim ond cwynion ffurfiol a dderbynnir ar ffurf llythyr a gyfrifir fel cwynion swyddogol, a bod tueddiad i anwybyddu, neu o leiaf peidio â chofnodi cwynion a wneir yn bersonol neu drwy'r ffôn. Er enghraifft, yn fuan wedi siarad â llefarydd dros un Cyngor Iechyd Cymuned, a honnodd nad oedd erioed wedi derbyn yr un cwyn na sylw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, cyfwelwyd â dynes a ddywedodd ei bod wedi cwyno'n ddiweddar iawn dros y ffôn wrth yr un Cyngor Iechyd Cymuned am ddiffyg darpariaeth Gymraeg yn lleol ar gyfer ei phlentyn uniaith Gymraeg.

Yn arwydd o'r hyn y gellir ei wneud yn lle aros i gwynion ddod i mewn, y mae o leiaf un Ymddiriedolaeth GIG wedi cyhoeddi a dosbarthu holiadur dwyieithog syml ond cynhwysfawr yn mesur bodlonrwydd cleifion ar ei Chynllun Iaith Gymraeg. Trwy gydol yr holiadur y mae'r pwyslais ar sicrhau cyfartaledd y Gymraeg a'r Saesneg, a'r cwestiynau yn cyfeirio at ddwyieithrwydd gwahanol wasanaethau yn hytrach na gofyn a ydynt ar gael yn Gymraeg. Gofynnir i gleifion a gawsant ddefnyddio “yr iaith sydd orau gennych / your preferred language” ac a barchwyd “eich dewis o iaith / your choice of language” yn hytrach na chyfeirio at y naill iaith neu llall. Trwy fframio'r cwestiynau fel hyn pwysleisir y neges mai dwyieithrwydd naturiol a darpariaeth i bob claf yn ei ddewis iaith yw'r ddwy nod yr anelir atynt, ac nid ennill “ffafrau arbennig” i siaradwyr Cymraeg. Mae nifer o Ymddiriedolaethau eraill wedi ymrwymo i gynnal arolygon cyffelyb, ond nid yw'n glir ar hyn o bryd faint o'r rhain sydd wedi cael eu cynnal erbyn hyn na beth yw eu canlyniadau.

Mae'r ddogfen ymgynghori Gofal o Ansawdd a Rhagoriaeth Glinigol a gyhoeddwyd yn 1998 yn sgîl y papur gwyn Rhoi Cleifion yn Gyntaf, fe gydnabyddir yma, “nid oes gan y GIG wybodaeth systemataidd a chymeradwy am farn defnyddwyr a gofalwyr o'r gwasanaeth a gyflwynir ganddo / the NHS does not have systematic and comparable information about what users and carers think about the service it provides.” Yn ateb i'r broblem hon, cyflwynir y syniad o sefydlu arolwg cenedlaethol newydd o farnau defnyddwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i'w gynnal ar lefel Awdurdodau Iechyd:

“Bydd yn holi cleifion ynghylch materion sy'n bwysig iddynt, megis rhwyddineb mynediad i wasanaethau, pa mor hir mae'n rhaid aros am driniaeth, ac a ydynt yn fodlon ar ansawdd y wybodaeth a roddir iddynt am eu gofal. Bydd samplau o safbwyntiau pobl sy'n cael eu trin ymhob ardal awdurdod iechyd yn cael eu hystyried, gan roi darlun cenedlaethol cynhwysfawr o sut mae GIG Cymru yn perfformio o safbwynt y claf. / It will ask patients about issues which really matter to them, such as the ease of access to services, how long they have to wait for treatment, and whether they are happy with the quality of information provided about their care. A sample of views will be taken from people treated in each health authority area, giving a comprehensive national picture of how NHS Wales is performing from the patient's perspective.”

Cyhoeddir canlyniadau'r arolwg hwn mewn adroddiadau blynyddol fel y bydd modd i ddefnyddwyr asesu'r cynydd a wneir gan eu gwasanaethau iechyd lleol dros gyfnod o amser a chymharu eu hansawdd â'r rhai mewn ardaloedd eraill. Cyfle gwych fydd hwn i holi defnyddwyr gofal iechyd am lawer o agweddau ar eu gofal, gan gynnwys yr ymdrech i gwrrdd ag anghenion personol y mae cymaint o sôn amdani yn Rhoi Cleifion yn Gyntaf. Ymhlith yr anghenion hyn, wrth gwrs, y mae anghenion ieithyddol, ac ni fydd yr arolwg iechyd cenedlaethol yn gyflawn oni bai y bydd yn rhoi rhywfaint o sylw i sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd.

Mae nifer fawr o sefydliadau gwirfoddol ac elusennol yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau gofal a chynghori i gleifion yng Nghymru. At hyn, darperir nifer o wasanaethau o fewn sefydliadau meddygol gan weithwyr di-dâl o amryw fudiadau gwirfoddol. Yn ystod gwaith arsylwi, nodwyd bod prif ddesg ymholiadau un ysbyty yng ngofal aelodau'r Groes Goch, a chyflawnir ystod eang o wasanaethau i gleifion mewn ysbytai trwy Brydain i gyd gan Gymdeithas Wirfoddol Frenhinol y Merched (WRVS).

Er nad yw cyrff gwirfoddol yn dod o fewn y diffiniad o "gyrff cyhoeddus" a geir yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993, y mae sawl un ohonynt wedi bod yn cydweithio â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg. Ymhlith y rhain y mae Gofal Cancr Marie Curie, Cymorth i Fenywod yng Nghymru, Barnardos, Cymdeithas Diabetes Prydain a Gwasanaethau Gwirfoddol Ynys Môn / Ynys Môn Voluntary ServicesNSF Cymru, RNIB, RNID a Tenovus. Yn ogystal â hyn, datblygwyd partneriaeth rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru / Wales Council for Voluntary Action, ac o'r bartneriaeth hon fe ddeilliodd nifer o ddogfennau defnyddiol ynglŷn â'r iaith Gymraeg a'r sector gwirfoddol. Mae un o'r rhain, **Recriwtio Gwirfoddolwyr sy'n Medru'r Gymraeg / Recruiting Welsh Speaking Volunteers**, yn codi nifer o bwyntiau pwysig i gyrff gwirfoddol eu hystyried wrth geisio denu siaradwyr Cymraeg i weithio'n wirfoddol, ac wrth gynnal y fath wirfoddolwyr yn eu gwaith. Mae copïau o'r daflen hon, ac o rai eraill ynglŷn â'r Gymraeg a'r sector gwirfoddol, ar gael gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn Llandudno.

Dylid nodi bod nifer o gyrff sector gwirfoddol yn darparu gwasanaethau gofal iechyd o dan gontract i ac ar ran Awdurdodau Iechyd neu Ymddiriedolaethau neu o dan eu goruchwyliaeth. Mewn amgylchiadau felly, mae cyrff gwirfoddol yn asiant i'r cyrff hynny a dylid darparu gwasanaethau yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod/Ymddiriedolaeth. Mae cynlluniau yn ymrwymo cyrff cyhoeddus i sicrhau bod y gofyniad hwn yn cael ei gynnwys mewn unrhyw gontractau neu gytundebau gyda thrydydd parti a'i fod yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae cyrff gwirfoddol hefyd yn cynhyrchu llawer o'r taflenni a phhecynnau gwybodaeth sy'n cyrraedd ysbytai, clinigau a meddygfeydd ac sy'n cael eu harddangos a'u dosbarthu i'r cyhoedd. Mae llawer o'r deunydd hwn yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd.

Ni fu'n bosibl wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn gynnal ymchwil gynhwysfawr i'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer defnyddwyr bregus gan sefydliadau gwirfoddol ac elusennol. Cyn tynnu casgliadau ynglŷn â'r maes gofal hwn, bydd angen casglu llawer mwy o wybodaeth am y pedwar peth canlynol:

- (i) Pa wasanaethau gofal iechyd a ddarperir yng Nghymru gan y fath gyrff.
- (ii) Pwy sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, a faint ohonynt y gellid eu hystyried yn ddefnyddwyr bregus.
- (iii) Pa fath o drefniadau a wnaethpwyd hyd yn hyn ar gyfer defnyddwyr Cymraeg eu hiaith, a beth y bwriedir ei wneud yn y dyfodol.
- (iv) I ba raddau y mae'r ddarpariaeth Gymraeg sydd i'w chael yn diwallu anghenion defnyddwyr Cymraeg y gwasanaethau.

Yn yr un modd, mae angen mwy o wybodaeth ynghylch y ddarpariaeth a geir trwy fusnesau preifat megis Cartrefi Nyrsio sydd â rôl pwysig mewn gofal iechyd.

Pennod 13 - CASGLIADAU

Rhoddir isod restr o brif gasgliadau cyffredinol yr adroddiad hwn. Mae casgliadau mwy manwl am feysydd penodol i'w cael ym mhrif gorff yr adroddiad:

- Yn ôl eu tystiolaeth eu hunain, y mae cael trafod materion iechyd yn eu hiaith gyntaf yn gwneud i lawer o gleifion Cymraeg eu hiaith deimlo'n fwy esmwyth a chyffyrddus. Cadarnheir hyn gan dystiolaeth staff Cymraeg, gan gynnwys rhai sy'n honni y gallant gael gwell gwybodaeth am eu cyflwr gan gleifion Cymraeg trwy siarad â nhw yn Gymraeg.
- Ar y cyfan, bydd cleifion Cymraeg yn gwerthfawrogi'n fawr unrhyw ymdrechion, waeth pa mor fach, i gydnabod eu hiaith a'u diwylliant ac i gyfathrebu â nhw o leiaf yn rhannol yn Gymraeg.
- Yn achos cyfran o gleifion Cymraeg eu hiaith, y mae lle i ddadlau na ellir eu trin yn effeithiol oni wneir hynny yn eu hiaith gyntaf, neu yn eu dwy iaith. Meddylir yn arbennig yn y cyswllt hwn am gleifion therapi iaith a lleferydd, ac am y 4 carfan allweddol a ddisgrifiwyd yn Adran 7.2 uchod, sef:
 - (i) cleifion iechyd meddwl
 - (ii) pobl a chanddynt anabledau dysgu ac anghenion arbennig eraill
 - (iii) yr henoed
 - (iv) plant ifanc.
 - Hwyafr yn y byd y pery unrhyw gwrs o driniaeth, a mwyaf o siarad neu gynghori sy'n rhan o'r driniaeth, pwysicaf y daw dewis iaith fel ystyriaeth ym meddyliau cleifion Cymraeg. Hefyd, po fwyaf difrifol y mae'r cyflwr a pho fwyaf dwys y mae'r gofal, pwysicaf y mae'r iaith. Ymhlith y meysydd y mae'r casgliad hwn yn arbennig o berthnasol iddynt y mae bydweigiaeth, gofal i'r rhai sydd â salwch parhaol neu derfynol, a seiciatryddiaeth a seicotherapi.
 - Ar y cyfan, ar hyn o bryd, ar ddefnyddwyr gofal iechyd yn hytrach na'i ddarparwyr y rhoddir cyfrifoldeb am sicrhau y defnyddir iaith gyffredin y mae pawb yn gyffyrddus ynddi. Ymddengys y cymerir y sefyllfa hon yn ganiataol fel un hollol normal a derbyniol yn y rhan fwyaf o sefydliadau gofal iechyd.
 - Mae dau prif ffactor na ellir eu hanwybyddu sy'n rhwystro datblygiad darpariaeth Gymraeg

yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru:

- prinder staff Cymraeg;
- diffyg ystyried dewis iaith fel ffactor o bwys mewn gofal iechyd;

Er na ellid datrys y cyntaf o'r problemau hyn dros nos, mae eisoes nifer o gynlluniau ardderchog yn eu lle neu ar y gweill mewn sefydliadau i wella'r sefyllfa trwy naill ai cynyddu sgiliau staff presennol neu drwy recriwtio ychwaneg o siradawyr Cymraeg. Nid oes, fodd bynnag, strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â'r mater hwn a, fel canlyniad, nid oes gorolwg o'r sefyllfa na chydlyniant o ran y mesurau sydd eu hangen i wella pethau. Er enghraifft, mae'n ymddangos nad yw sefydliadau addysgol/hyfforddi yn ystyried sgiliau iaith ac anghenion ieithyddol y gweithle dwyieithog wrth ddostrannu llefydd ar gyrsiau. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad yw darparwyr gwasanaethau yn hysbysu'r sefydliadau hyn am eu hanghenion er gwaethaf ymrwymadau mewn cynlluniau iaith i wneud hynny. Yn yr un modd mae'n ymddangos nad yw cyrff achredu yn bod yn broactif yn y cyswllt hwn.

O ran yr ail broblem, y mae cryn dipyn y gellir ei gyflawni trwy'r weithred syml o gydnabod yr iaith Gymraeg fel ystyriaeth wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer cleifion. Oni wneir hyn, ni fydd yr holl ymdrechion i gynyddu niferoedd staff dwyieithog yn tycio dim, gan na fydd sgiliau dwyieithog o ddim gwerth i staff na chleifion oni bai fod system effeithiol i gysylltu staff Cymraeg a chleifion Cymraeg â'i gilydd. At ei gilydd, nid oes fawr o ystyriaeth na chydabyddiaeth bod y Gymraeg yn ffactor o bwys gwirioneddol wrth ddarparu gofal iechyd. Mae'r meddylfryd hwn yn treiddio i bob rhan o'r sector iechyd. Gellir ei weld hyd yn oed yn agwedd y Cynghorau Iechyd Cymuned. Er mai cynrychioli buddiannau cleifion yw eu prif rôl, mae'n ymddangos, ar y cyfan, nad oes nemor dim sylw yn cael ei roi i anghenion ieithyddol cleifion.

- Mae'r ymchwil a wnaethpwyd hefyd wedi amlygu lefel o anwybodaeth ddofn am Gynlluniau Iaith Gymraeg ymhlith staff a chleifion Cymraeg a di-Gymraeg, ac mae gweithredu Cynlluniau Iaith yn effeithiol yn dal i ddibynnu ar ymdrechion ac ymroddiad unigolion - naill ai aelodau unigol o staff sy'n ymwybodol am bwysigrwydd iaith, neu gleifion unigol sy'n ddigon hyderus neu'n ddigon ystyfnig i fynnu cael gwasanaeth Cymraeg.

- Prin iawn yw'r sefydliad gofal iechyd sydd â systemau effeithiol i ganfod a chofnodi dewis iaith cleifion a phasio'r wybodaeth honno ymlaen. Prinach fyth yw'r rhai sy'n gweithredu ar sail y fath wybodaeth ar ôl ei chael. Yn niffyg systemau o'r fath, y mae staff a chleifion Cymraeg yn dibynnu ar ddulliau damweiniol ac anghyson i adnabod ei gilydd.
- Oherwydd nad yw sefydliadau gofal iechyd yn ystyried dewis iaith wrth osod staff penodol gyda chleifion penodol, hyd yn oed lle y mae staff Cymraeg ar gael, os yw cleifion am dderbyn cymorth yn Gymraeg bydd rhaid iddynt yn aml wrthod yn bersonol unrhyw weithiwr di-Gymraeg a ddaw atynt. Bydd hyn weithiau'n arwain at wrthdaro personol a drwgdeimlad diangen.
- Yn groes i bob Cynllun iaith a baratowyd gan sefydliadau iechyd Cymru, y mae cleifion a'u teuluoedd yn gorfod gofyn yn benodol o hyd am wasanaeth Cymraeg. Lle y cynigir gwasanaeth Cymraeg, unwaith eto gweithred annibynnol gan weithwyr unigol fydd honno fel arfer.
- Gwastreffir sgiliau cyfathrebu staff dwyieithog ar hyn o bryd am nad oes cydnabyddiaeth briodol i ddwyieithrwydd fel sgil broffesiynol, werthfawr. Yr ochr arall i'r geiniog hon yw yr amddifedir cleifion Cymraeg o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a allai fod ar gael iddynt ped ystyrid dewis iaith fel ffactor o bwys wrth osod staff penodol gyda chleifion penodol.
- Nid yw staff di-Gymraeg yn aml yn teimlo'n rhan o ymdrechion i wella darpariaeth Gymraeg, a gall hyn weithiau arwain at ddifaterwch a drwgdeimlad yn eu plith ynghylch y fath ymdrechion.
- Casgliad anhyfryd ond amhosibl ei osgoi yw fod nifer fach o weithwyr gofal iechyd, yn creu anhapusrwydd gwirioneddol, ac mewn rhai achosion yn ychwanegu at broblemau cleifion a'u teuluoedd sydd eisoes dan straen, trwy adael i'w hagweddau rhagfarnllyd at ddwyieithrwydd a'r iaith Gymraeg lywio'r cyngor a roddant i gleientiaid. Meddylir yn bennaf yn y cyswllt hwn am ymwelwyr iechyd a staff eraill sydd wedi cynghori rhieni i beidio â siarad Cymraeg â'u plant.
- Gwaethygir yr uchod oherwydd y diffyg cynllunio strategol o fewn y Gwasanaeth cyn belled ag y mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn y cwestiwn. Methodd y Swyddfa Gymreig â rhoi arweiniad a gwelir hyn yn y ffaith nad yw cylchlythyrau, arweinlyfrau, canllawiau a.y.y.b. wedi adlewyrchu anghenion poblogaeth ddwyieithog.
- Mae diffyg gwybodaeth ystadegol fyddai'n hwyluso casgliadau clinigol ystyrion ynaglwn ag iaith.
- Nid oes fawr o dystiolaeth i awgrymu bod darparu gwasanaeth teilwng i siaradwyr Cymraeg yn cael ei weld (fel y dylai) fel rhan o'r agenda Cyfle Cyfartal a fel elfen bwysig yn yr agenda ansawdd gwasanaeth.

“Gellir cyflawni llawer wrth ddefnyddio'r adnoddau sydd gan yr awdurdodau wrth law yn barod a gellir gwneud rhagor o gynnydd eto fel a phan ddaw'r cyfle a hynny heb dynnu fawr o gostau / Much can be achieved with the resources already at the disposal of the authorities and further progress can be made as and when the opportunity arises and at minimum cost.” (Cylchlythyr ar yr iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Swyddfa Gymreig, 1975)

Mae'r rhestr ganlynol o argymhellion yn seiliedig ar y themâu a amlygwyd ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Crynhoir yr argymhellion yn adrannau a cheir trafodaeth ymhob un ar gyfraniadau amryw o gyrrff a grwpiau i weithredu'r argymhellion.

1. Statws yr Iaith Gymraeg/Egwyddorion Gofal

- Fel rhan o unrhyw raglen i wella ansawdd gwasanaethau gofal iechyd, dylid anelu at symud y cyfrifoldeb am sicrhau iaith gyffredin rhwng y darparwr a'r defnyddiwr oddi ar ysgwyddau cleifion a'i roi i raddau llawer mwy ar sefydliadau sy'n darparu gofal iechyd.
- Yn cyd-fynd â hynny, rhaid anelu at newid meddylfryd sylfaenol sy'n ehangu unrhyw ddiffiniadau o ansawdd gofal i gynnwys dewis iaith ymhlith ystyriaethau anghlinigol pwysig eraill.
- Rhaid cydnabod yr angen clinigol am ddarpariaeth Gymraeg mewn rhai meysydd, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd, a'r 4 carfan allweddol a ddisgrifiwyd y **Adran 7.2** uchod, sef:

- (i) cleifion iechyd meddwl
- (ii) pobl a chanddynt anabledau dysgu ac anghenion arbennig eraill
- (iii) yr henoed
- (iv) plant ifanc.

Yn y cyswllt yma, rhaid nodi'r angen am ymchwil manwl i effeithiau clinigol peidio a darparu gwasanaeth Cymraeg yn y meysydd dan sylw. Er mwyn hwyluso'r fath ymchwil, mae angen dechrau casglu ystadegau iechyd penodol ar gyfer Cymru (ac efallai siaradwyr Cymraeg) er mwyn galluogi cymariaethau gyda grwpiau eraill. Mae hyn yn digwydd eisoes gyda Gwyddelod a lleiafrifoedd ethnig yn Lloegr.

- Er mwyn osgoi y gwastraffu sgiliau sy'n digwydd ar hyn o bryd, rhaid cydnabod bod

dwyieithrwydd a'r gallu i siarad Cymraeg yn sgiliau proffesiynol gwerthfawr ym maes gofal iechyd.

CYFRANWYR

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Fel y corff gyda chyfrifoldeb terfynol am y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol rôl allweddol.

Y Cynulliad (a'r Swyddfa Gymreig cynt) sy'n gosod y cywair ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru, ac mae ei ddylanwad yn bellgyrhaeddol. Mae'n rhoi arweiniad ar y rhan fwyaf o agweddau'r Gwasanaeth. Gwneir hyn i raddau helaeth trwy gyhoeddi dogfennau polisi ac arfer da, yn aml ar ffurf cylchlythyrau. Mae'r dogfennau hyn yn cyflwyno polisiau'r Llywodraeth ar lefel ymarferol ac yn llywio blaenoriaethau cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill.

Un o bolisiau'r Llywodraeth yw y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Ymgorfforwyd hyn yn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Gellid disgwyl felly y byddai dogfennau'n deillio o'r Swyddfa Gymreig yn adlewyrchu'r cyd-destun ieithyddol, ochr yn ochr ag ystyriaethau eraill, er mwyn trosglwyddo disgwyliadau'r Llywodraeth yn hyn o beth i ddarparwyr gwasanaethau. Dylai cynnwys yr ystyriaeth hon fod yn rhywbeth arferol a byddai hyn yn fodd i atgoffa'r rheiny fyddai'n gweithredu o dan fantell y ddogfen o'r angen i gynllunio a darparu gwasanaeth gyda'r ddwy iaith mewn golwg.

Ac eithrio'r cylchlythyr penodol “Yr Iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol”, Mawrth 1975 a gyfeirir ato sawl gwaith yn yr astudiaeth hon, does fawr o dystiolaeth i awgrymu bod cyd-destun ieithyddol y gwasanaeth iechyd yng Nghymru wedi cael ei adlewyrchu mewn dogfennau polisi, canllawiau ayyb a ddeuai o'r Swyddfa Gymreig. Does fawr o dystiolaeth ychwaith i awgrymu bod argymhellion cylchlythyr 1975 wedi cael eu dilyn na'u harolygu mewn modd ystyrlon.

Os yw agweddau tuag at ddarparu gwasanaethau yng Nghymraeg i newid o fewn y gwasanaeth Cymraeg, yna, rhaid i'r Cynulliad roi arweiniad cadarn. Dylai bod mecanwaith i sicrhau, pan ystyrir pob menter, polisi newydd ayyb, ei fod hefyd yn cael ei ystyried o safbwynt yr angen i ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Dylai'r ystyriaeth hon, wedyn, dreiddio unrhyw ddogfennaeth neu gyngor sy'n gysylltiedig â'r fenter. Rhaid i'r Cynulliad ei gwneud yn glir i'r Gwasanaeth

Pennod 14 – Argymhellion

trwy ei eiriau a'i weithredoedd bod hwn yn fater gwasanaeth o bwys ac yn elfen hanfodol wrth sicrhau gwasanaeth o ansawdd i'r cyhoedd yng Nghymru. Hefyd ei fod yn ganolog i nod y Cynulliad o sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau i bawb, ac yn rhan o agenda "Gwasanaeth yn Gyntaf" y Llywodraeth.

Y Proffesiynau

Mae sefydliadau proffesiynol yn chwarae rôl allweddol wrth lywio agweddau eu haelodau. Mae nifer o ddatganiadau "proffesiynol" eisoes yn tynnu sylw at yr angen i ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn er mwyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd proffesiynol uchel. Fodd bynnag, o ystyried y diffygion a amlinellir yn yr adroddiad hwn, mae angen bod yn fwy proactif o ran cynyddu proffil pwysigrwydd darpariaeth Gymraeg yng Nghymru ac ymagwedd sensitif i faterion ieithyddol.

Sefydliadau Addysgol/Hyfforddi a Chyrff Achredu a Rheoleiddio/Safoni

Dylai'r cyrff hyn sicrhau bod cyrsiau gofal iechyd yng Nghymru yn rhoi sylw digonol i gyd-destun y gweithle a gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru. Yr adeg ddelfrydol i argyhoeddi darpar ymwelwyr iechyd o bwysigrwydd iaith a sensitifrwydd iaith yw yn ystod eu cyfnod hyfforddi. Gall y rheiny sy'n achredu a rheoleiddio/safoni cyrsiau helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Cynrychiolwyr cleifion a'r rheiny sy'n cynrychioli buddiannau'r cyhoedd

Y grŵp amlwg yn hyn o beth yw'r Cynghorau Iechyd Cymuned, ond mae cyrff cyhoeddus eraill megis y Comisiwn Deddf Iechyd Meddwl hefyd yn cynrychioli buddiannau cleifion fel y mae nifer o gyrff gwirfoddol. Wrth reswm, mae dyletswydd ar unrhyw gorff sy'n cynrychioli'r defnyddiwr yng Nghymru i sicrhau ei fod hefyd yn cynrychioli buddiannau siaradwyr Cymraeg. At hyn, mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae wrth godi proffil yr iaith fel rhan annatod o'r ddarpariaeth. Yn yr un modd, mae angen i sefydliadau megis y Comisiwn Archwilio, Arolygiaethau a chyrff eraill sy'n gwerthuso ansawdd gwasanaeth, werthuso ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg fel rhan o'u gwaith cyffredinol.

Darparwyr Gofal Iechyd

Mae angen i'r darparwyr eu hunain sicrhau bod yr argymhellion uchod yn cael eu gweithredu. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen buddsoddi'n gorfforaethol i'r amcanion ac egwyddorion a nodir. Mae angen i Ymddiriedolaethau ayyb yrru negeseuon

clir i'w gweithwyr ynghylch pwysigrwydd y materion hyn. Mae angen hefyd i'r neges gyrraedd cyrff gwirfoddol a darparwyr gofal preifat sydd yn darparu gofal iechyd yng Nghymru.

Eraill

Dylai Uned Cyfartaledd y GIG, sydd wedi'i lleoli gyda Iechyd Morgannwg Health erbyn hyn, sicrhau bod materion ieithyddol yn cael eu cynnwys fel rhan annatod o'i hagenda cyfle cyfartal. Byddai'n fuddiol pe byddai modd dod o hyd i gyllid ar gyfer aelod penodol o staff i arbenigo yn yr agwedd hon.

2. Recriwtio a Hyfforddi

- Mae angen cyfathrebu mwy effeithiol rhwng darparwyr gwasanaeth, cyrff addysgol/hyfforddi, cyrff cyllido, a chyrff achredu/safoni ynglŷn â nifer y siaradwyr Cymraeg sydd eu hangen. Fel rhan o hyn, dylid cynnal trafodaeth ynghylch a oes digon o lefydd yn y sefydliadau hyfforddi i ddiwallu anghenion y gwasanaeth.
- Mae ymdrechion y fath sefydliadau ag Ysgol Nyrso a Bydwreigiaeth Prifysgol Cymru, Bangor a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Caerdydd, i wneud cyrsiau hyfforddi yn fwy perthnasol a mwy deniadol i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith ac i gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth sensitifrwydd ieithyddol, i'w cymeradwyo a'u croesawu'n gryf. Yr her bellach yw i adeiladu ac ehangu ar y sylfeini hyn, ac i sefydliadau cyffelyb eraill eu hefelychu trwy ddechrau dilyn yr un trywydd.
- Mae'r gwaith a wnaethpwyd yng Ngwynedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg i faes therapi lleferydd i'w gymeradwyo'n gryf fel esiampl i gyflogwyr gofal iechyd eraill. Os na wneir mwy i ddangos i bobl ifanc ddwyieithog sut y gallai gyrfa mewn gofal iechyd fod yn berthnasol ac yn ddeniadol iddyn nhw, araf iawn fydd unrhyw welliant yn lefelau darpariaeth Gymraeg i gleifion.
- Yn gyffredinol, y mae rhaid i gyrsiau o wersi Cymraeg ar gyfer staff gofal iechyd di-Gymraeg fod yn fwy hygyrch, yn fwy deniadol ac yn fwy strwythuredig. Ymroddiad mawr yn gofyn am gryn ddyfalbarhad yw dysgu iaith, ac ni ddylid ychwanegu at y baich trwy gynnal gwersi ar adegau anghyfleus, neu drwy ofyn i staff rhoi gormod o'u harian a'u hamser rhydd eu hunain wrth fynychu gwersi.

- Yn benodol, y mae angen mwy o gefnogaeth ymarferol i ymarferwyr annibynnol o fewn y gwasanaeth iechyd fel meddygon teulu, deintyddion a fferyllwyr sydd am ddysgu'r Gymraeg neu wella'r Gymraeg sydd ganddynt, e.e. bwrseriau, amser i ffwrdd o'r gwaith gyda chyflog, cyfleoedd i rannu swyddi er mwyn rhyddhau amser ar gyfer astudio.
- Fel mater o frys, dylid sicrhau bod gyrwyr ambiwlansys a theleffonyddion y gwasanaeth ambiwlans yn derbyn hyfforddiant iaith digonol i ymdopi'n briodol ag enwau a chyfeiriadau Cymraeg a'u cofnodi'n fanwl gywir. Fel y gwelwyd yn Adran 7.7 Gwasanaethau Argyfwng a Brys, gall unrhyw ddiffygion yn yr adran hon o'r Gwasanaeth Iechyd beryglu bywydau yn ddifrifol.
- Fel rhan o'r broses o gydnabod sgiliau cyfathrebu staff dwyieithog, argymhellir sefydlu cymhwyster galwedigaethol cydnabyddedig mewn sgiliau cyfathrebu dwyieithog. Trwy ennill y cymhwyster hwn, dangosai myfyrwyr eu bod yn medru cyfathrebu yn effeithiol ac yn glir yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd ar lafar ac ar bapur. Dylai cyfleoedd i ennill y fath gymhwyster fod ar gael i fyfyrwyr meddygaeth, nyrsio a gofal fel rhan o'u cyrsiau, ac i aelodau presennol o staff sefydliadau gofal iechyd fel rhan o'u hyfforddiant parhaol yn eu swyddi. Fel hyn, câi'r sgiliau dwyieithog sydd eisoes gan rai staff eu cydnabod yn swyddogol, a châi staff eraill y cyfle i ennill neu i wella sgiliau o'r fath mewn modd trefnus a phwrpasol.
- Er mwyn osgoi sefyllfaoedd o dyndra yn codi o wrthdrawiadau personol rhwng cleifion Cymraeg a staff di-Gymraeg unigol, y mae angen llawer mwy o waith i godi ymwybyddiaeth staff am yr iaith Gymraeg a hunaniaeth ieithyddol cleifion, ac am wahanol Gynlluniau Iaith Gymraeg y sefydliadau y maent yn gweithio drostynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y meysydd, fel gwasanaethau ymwelwyr iechyd, lle y mae tystiolaeth fod rhai staff wedi bod yn ymddwyn yn sarhaus tuag at ddefnyddwyr Cymraeg.
- Yn yr un modd, dylai pob sefydliad sy'n cynnig hyfforddiant i staff gofal iechyd a'r rheiny sy'n ariannu, achredu a rheoleiddio cyrsiau, ystyried a oes sylw digonol yn cael ei roi i faterion sensitifrwydd iaith a diwylliant.

- Yn gyffredinol, y mae angen llawer mwy o waith i dynnu gweithwyr di-Gymraeg i mewn i broses weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg. Ni wellir byth ar lefelau presennol o ddarpariaeth ar gyfer cleifion Cymraeg os nad yw staff yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt o ran hwyluso'r ddarpariaeth honno. Ni cheir fawr o gynnydd chwaith oni bai bod aelodau staff i gyd yn teimlo bod iddyn nhw ran wirioneddol i'w chwarae wrth weithredu unrhyw Gynllun ac yn gweld ei berthnasedd i'r agenda cyfle cyfartal a darpariaeth gwasanaeth o ansawdd.

CYFRANWYR

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'n amlwg bod angen strategaeth genedlaethol o ran sgiliau dwyieithog. Mae unrhyw fath o ymdrech i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio o fewn Cymru yn ddibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dim ond y Cynulliad all roi'r gorolwg sydd ei angen.

At hyn, y cam cyntaf fydd adnabod diffygion (ar y cyd gydag Ymddiriedolaethau ac eraill) yn y niferoedd o staff dwyieithog yn ôl arbenigedd a lleoliad. Lle mae'n glir bod problem genedlaethol, dylai'r Cynulliad gymryd camau i ddelio â hi. Gall hyn olygu cyd-lynu ymgyrch recriwtio trwy Gymru. Gall hefyd olygu rhoi arian i noddi myfyrwyr mewn arbenigeddau lle mae prinder. Gweithiodd hyn yn llwyddiannus gyda therapi iaith a lleferydd yng Ngwynedd a gellid mabwysiadu'r un system mewn manau eraill yn ôl yr angen.

Dylai'r Cynulliad hefyd gydweithio gyda darparwyr addysgol er mwyn eu hysbysu ynghylch y materion hyn. Yn achos addysg nyrsio, mae gan y Cynulliad rôl arbennig o ddylanwadol oherwydd bod y cyllid ar gyfer cyrsiau yn dod yn uniongyrchol o'r Uned Pwrcasu Addysg o fewn y Cynulliad. Dylid defnyddio'r dylanwad hwn i sicrhau bod yr argymhellion uchod yn cael eu gweithredu. Yn benodol, wedi ymgyngori gyda darparwyr gwasanaeth, mae'r Uned yn pennu'r niferoedd o bersonél nyrsio yn ôl arbenigedd sydd i gael eu cofrestru ar gyrsiau yn flynyddol. Yn ei hymwneud â'r Ymddiriedolaethau dylai'r Uned yn ogystal sefydlu'r niferoedd o bersonél dwyieithog sydd eu hangen i weithredu ymrwymadau Cynlluniau Iaith Gymraeg a chynnwys hyn yn y briff i Golegau.

Dylai'r Cynulliad adolygu niferoedd y lleoedd hyfforddi sydd ar gael ac asesu a ydynt yn ddigonol i sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn gallu cael digon o staff dwyieithog cymwys i gyflwyno gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg ar sail gyfartal.

Cyrff proffesiynol

Dylai cyrff proffesiynol ddefnyddio eu dylanwad i annog darparwyr addysgol a hyfforddiant i adlewyrchu'r argymhellion uchod yn eu cyrsiau. Lle mae cyrff proffesiynol yn ymwneud yn uniongyrchol â hyfforddiant, dylent sicrhau bod yr un egwyddorion yn cael eu hystyried.

Sefydliadau Addysgol/Hyfforddi a Chyrff Achredu a Rheoleiddio/Safoni

Wrth reswm, mae'r cyrff hyn yn hollbwysig i weithredu'r argymhellion. O ran recriwtio, dylai sefydliadau Addysgol/Hyfforddi gymryd i ystyriaeth anghenion darparwyr gwasanaeth am staff sy'n gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog. Yn ogystal â sicrhau bod cyrsiau yn ddeniadol ac yn hygyrch i siaradwyr Cymraeg dylai sefydliadau a chyrff achredu ymdrechu i sicrhau bod cyrsiau yn paratoi siaradwyr Cymraeg a Saesneg i weithio mewn gweithle dwyieithog o ran ymwybyddiaeth a sensitifrwydd ieithyddol.

Darparwyr gofal iechyd

Fel y dengys yr adroddiad hwn, mae gan ddarparwyr gofal iechyd lawer i'w wneud i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith eu staff am ddarpariaeth Gymraeg. Dylid cyflwyno hyn yng nghyd-destun gofal cwsmer, cyfle cyfartal a phwyslais ar ofal sy'n canolbwyntio ar anghenion y claf. Mae rôl bwysig i'r darparwyr wrth hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am eu hanghenion o ran staff dwyieithog. Hefyd, fel mae'r esiampl o therapi iaith a lleferydd yng Ngwynedd yn ei ddangos, mae llawer y gellid ei wneud ar lefel leol i gynyddu recriwtio siaradwyr Cymraeg lle mae prinder.

3. Ystyriaethau ymarferol o ran cyflwyno gwasanaeth

- Yn bennaf ac yn gyntaf oll, y mae dirfawr angen sefydlu'n ddi-oed system effeithiol a chynhwysfawr i gofnodi pa leithoedd y mae cleifion yn eu defnyddio yn eu bywydau beunyddiol, fel y caiff hynny ei adlewyrchu yn y gofal a dderbyniant. Ynghyd ag unrhyw wybodaeth hanfodol arall amdanynt, dylai'r cofnod hwn fynd gyda chleifion trwy gydol ei gysylltiad â'r Gwasanaeth Iechyd. Pan fydd meddyg teulu yn cyflwyno gwybodaeth feddygol am gyflwr y claf cyn ei fod yn cael ei dderbyn i ysbyty neu sefydliad meddygol arall, dylai gwybodaeth ynghylch dewis iaith y claf gael ei chynnwys yn yr adran sy'n nodi ei fanylion personol eraill. Pan dderbynnir claf i ysbyty neu sefydliad meddygol arall yn

ddirybudd, dylai'r wybodaeth ynghylch iaith y claf gael ei chynnwys gyda'i fanylion personol eraill wrth iddo gael ei gofrestru gan y sawl sy'n gyfrifol. Dylid wedyn gweithredu ar sail y wybodaeth hon i sicrhau y caiff cleifion eu trin trwy'r iaith y maent fwyaf cyffyrddus ynddi pryd bynnag y mae hynny'n bosibl. Cydnabyddir na fydd yn bosibl bob tro darparu gwasanaeth Cymraeg i bob claf sy'n dymuno ei dderbyn, ac mewn rhai sefydliadau, prin iawn fydd y cyfleodd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg o unrhyw fath o gwbl. Er hyn, cam cyntaf fydd cydnabod dewis iaith tuag at wella'r ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae ysbytai eisoes yn cofnodi'r fath bethau â chrefydd ac anghenion bwyta ac yn gweithredu ar sail y cofnodion hynny i wneud arhosiad y claf yn yr ysbyty yn un mor gartrefol â phosibl. Mae'n hen bryd bod ystyriaeth o anghenion personol yn cael ei ehangu i gynnig dewis iaith.

- Yn yr un modd, er mwyn osgoi'r sefyllfa bresennol lle y mae canfod pa staff sy'n medru'r Gymraeg yn dibynnu ar adnabyddiaeth leol neu graffter greddfod cleifion, y mae rhaid i staff Cymraeg fod yn hawdd eu hadnabod. Gellir gwneud hyn trwy system o fathodynau safonol a chlir. Dylai mannau mewn sefydliadau lle y mae gwasanaeth Cymraeg ar gael eu nodi'n glir. Yn hyn o beth, y mae cynllun **Iaith Gwaith / Working Welsh Bwrdd** yr Iaith Gymraeg i'w gymeradwyo'n gryf, gan ei fod yn cynnwys yn ogystal â bathodynau i staff - taflenni esboniadol a'r fath bethau ag arwyddion desg ac arwyddion wal ar yr un patrwm â'r bathodynau i atgyfnerthu'r neges am ba rannau o unrhyw sefydliad y gellir disgwyl gwasanaeth Cymraeg ynddynt.
- Am fod y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg wedi hen arfer â dderbyn gwasanaeth yn Saesneg mewn sefyllfaoedd swyddogol, nid ydynt yn debyg o ddisgwyl nac o fynnu gwasanaeth Cymraeg yn y fath sefyllfaoedd. Am y rheswm hwn, hyd nes y gwyddys yn sicr fod claf yn ddi-Gymraeg, neu'n dymuno cael gwasanaeth Saesneg am ryw reswm arall, dylid cynnig iddo wasanaeth yn Gymraeg os yw hwnnw yn bosibl ei ddarparu. Dylai gwasanaeth Cymraeg gael ei gynnig heb yr un awgrym bod ei ddarparu yn anghyffredin neu yn anghyfleus i'r darparwr, heb unrhyw bwysau ar y claf i'w wrthod neu'i dderbyn.

- Lle bynnag y bo'n ymarferol, dylid cynllunio gwasanaethau fel bod gweithwyr dwyieithog yn gwneud defnydd llawn o'u sgiliau trwy eu cysylltu â chleifion sy'n dymuno derbyn gwasanaeth yn y Gymraeg. Os yw trefniadau neu weithdrefnau presennol yn milwrio yn erbyn hyn, oherwydd diffyg hyblygrwydd, dylid eu newid.
- Os bydd cyfnod o driniaeth yn debyg o barhau'n hir yng ngofal yr un aelod o staff, dylid gwneud pob ymdrech i ddethol aelod cyfiaith o staff ar gyfer cleifion Cymraeg sy'n dymuno hynny. Ymhlith y meysydd y mae'r argymhelliaid arbennig yn berthnasol iddynt y mae bydwreigiaeth a gofal i'r rhai sydd â salwch parhaol neu derfynol.
- Wrth weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg, rhaid i Ymddiriedolaethau Iechyd roi mwy o sylw i agweddau anghlinigol ar ofal iechyd, megis gwasanaethau caplaniaid a difyrion fel radio, teledu a chylchgronau. Os datblygir system effeithiol o gofnodi dewis iaith fel yr argymhellir uchod, gellid wedyn defnyddio'r wybodaeth honno i weld pa gleifion sy'n debyg o dymuno gweld caplan Cymraeg neu dderbyn cylchgronau neu raglenni radio a theledu Cymraeg.
- Rhaid i raglenni fonitro effeithiolrwydd darpariaeth Gymraeg a bodlonrwydd defnyddwyr fynd y tu hwnt i broses syml o gyfrif cwynion ac ymateb iddynt yn unigol, gan fabwysiadu dulliau mwy proactif.

Cymraeg Gweladwy

- Er mwyn bod yn ddefnyddiol ac ystyrion, y mae rhaid i arwyddion a dogfennau Cymraeg a dwyieithog fod yn gywir ac o safon gyson. Mae arwyddion a dogfennau gwallus neu astrus yn wastraff o arian prin heb fod o ddim cymorth i ddefnyddwyr Cymraeg. Er mwyn cyflawni hyn, y mae rhaid symud y tu hwnt i'r meddylfryd a wêl ddeunydd Cymraeg mewn ffordd eiconig, tuag at asesu'n synhwyrol defnyddioldeb gwirioneddol pob dogfen a phob arwydd a gynhyrchir.
- Er mwyn sicrhau ansawdd a chywirdeb deunydd Cymraeg, dylid ystyried symud tuag at ddulliau cynhyrchu cyfochrog ar gyfer deunydd Cymraeg a Saesneg, yn hytrach na'r system linellol a geir mewn llawer man ar hyn o bryd o gynhyrchu deunydd Cymraeg ar sail deunydd Saesneg.

- O ran adnoddau a gyhoeddir gan sefydliadau gwirfoddol a phreifat, dylid tynhau ar dosbarthiad adnoddau dwy-ieithog (lle mae'n bodoli) fel bo adnoddau Cymraeg a Saesneg ar gael i gleifion. Lle bo adnoddau ond or gael yn Saesneg, dylid gwrthio pwysigrwydd adnoddau dwy-ieithog yng Nghymru.

CYFRANWYR

Mae'r rhan fwyaf o argymhellion yr adran hon yn dod o dan gyfrifoldeb yr Ymddiriedolaethau Iechyd. Serch hynny, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd rôl wrth roi arweiniad ar rai o'r materion perthnasol gan annog cysondeb drwy Gymru. Er enghraifft, dylai'r Cynulliad sicrhau bod unrhyw drefniadau gweithio neu strwythurau, y mae'n eu hargymell, yn hwyluso yn hytrach na rhwystro gwasanaeth dwyieithog. Hefyd, yn eu gwaith cyffredinol o fonitro gwasanaethau a gweithdrefnau, dylai cynrychiolwyr cleifion fod yn gwirio bod y mesurau uchod yn eu lle ac yn gweithio'n foddhaol.

4. AMRYWIOL

- Dylid gwneud pob ymarferydd preifat o fewn y GIG, meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr ac ati yn rhwym i Ddeddf yr Iaith Gymraeg.
- Dylai'r Cynulliad archwilio'r diffyg gwybodaeth ystadegol ar brofiadau siaradwyr Cymraeg mewn arbenigeddau lle gall y rhain fod yn wahanol i grwpiau eraill h.y. seicotherapi, a chymryd camau i sicrhau y gellir casglu'r fath ddata a'i ddefnyddio ar gyfer cynllunio a chyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol.

Gwasanaeth Gwybodaeth:

- Os penderfynir sefydlu yng Nghymru system ymholiad ffôn 'GIG Direct' ar batrwm y cynlluniau peilot a gynhaliwyd yn Lloegr, dylid ystyried yn ofalus sut y gellir darparu ar gyfer galwyr Cymraeg. Fel rhan o hyn, dylid edrych ar y ffyrdd y gellid manteisio ar y dechnoleg deileffon ddiweddaraf i hwyluso dewis iaith ac felly integreiddio darpariaeth Gymraeg i wasanaeth cynhwysfawr i gleifion.

Ymchwil Ychwanegol:

- Mae angen mwy o ymchwil i waith y fath ddarparwyr gofal iechyd â meddygon teulu, deintyddion a fferyllwyr sy'n darparu gwasanaethau meddygol o fewn y Gwasanaeth Iechyd ac hefyd y cartrefi nyrso preifat. Mae

angen edrych ar eu rôl mewn darpariaeth Gymraeg i gleifion, eu hanghenion wrth geisio darparu gwasanaeth dwyieithog, a'u hagweddau at yr iaith a'i phwysigrwydd.

- Yn yr un modd, y mae angen mwy o ymchwil i rôl a phwysigrwydd cyrff gwirfoddol ac elusennol wrth ddarparu gofal iechyd i gleifion Cymraeg.
- Gall ymchwil i'r graddau y mae cylchlythyr y Swyddfa Gymreig: Y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Mawrth 1975, wedi cael ei weithredu, fod yn ddefnyddiol wrth grisialu'r hyn sydd angen ei wneud a rhoi ffocws ar argymhellion yr adroddiad hwn.

LLYFRYDDIAETH

- Aitchison, J. & Carter, H. (1994) *A Geography of the Welsh Language*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Audit Commission (1993) *What Seems to be the Matter: Communication Between Hospitals and Patients*. Llundain: HMSO
- Balarajan, R. & Raleigh, V.S. (1995) *Ethnicity and Health in England*. Llundain: GIG Executive, GIG Ethnic Health Unit
- Bhatt, A. (1997) *Many Voices, One Message - Guidance for the Development and Translation of Health Information*. Llundain: Health Education Authority
- Bhatt, A. & Dickinson R., (1993) *Evaluation of Health Education Materials: A Report of a Survey of South Asian, Chinese and Carribean Communities*. Caerlyr: Centre for Mass Communication Research, Prifysgol Caerlyr.
- Betts, C. (1998) *Campaign to Speak Out for Welsh in Public Life*. Yn *The Western Mail* 8 Awst 1998
- Betts, C. (1998) *Worried Language Society Now Speaks With Forced Tonuge*. Yn *The Western Mail* 6 Tachwedd 1998
- Bower, M. (1998) *Power of Suggestopedia Speeds Up Learning*. Yn *The Western Mail* 26 Rhagfyr 1998
- Bower, M. (1998) *Welsh Lessons Help Social Work*. Yn *The Western Mail* 22 Rhagfyr 1998
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996) *Adroddiad Blynyddol 1995-1996 / Annual Report 1995-1996*. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1997) *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1996-97 / Annual Report and Accounts 1996-97*. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1998) *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1997-98/ 1997-98 Annual Report and Accounts*. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg Iaith Gymraeg (1996) *Cynlluniau Iaith Gymraeg - Eu Paratoi a'u Cymeradwyo yn Unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 / Welsh Language Schemes - Their Preparation and Approval in Accordance With the Welsh Language Act 1993*. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- CCETSW Cymru (blwyddyn cyhoeddi yn anhysbys) *Canllawiau Gweithredu Polisi yr Iaith Gymraeg CCETSW / Guidelines for the Implementation of CCETSW Welsh Language Policy* Caerdydd: CCETSW Cymru

- Clark, L. (1997) Welsh-speaking GPs Find Efforts Rewarded. Yn BMA News Review 5 Chwefror 1997
- Clark, Rh. (1998) Elis-Thomas Slaps Down Welsh-speaker for Outburst. Yn The Western Mail 7 Hydref 1998
- Comisiwn Archwilio (1993) What Seems to be the Matter: Communication Between Hospitals and Patients. Llundain: Llyfrfa ei Mawrhydi (HMSO)
- Cyngor Defnyddwyr Cymru (1995) Cam wrth Gam: Canllawiau Cynhyrchu Gwybodaeth ar Gyfer Defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal yn y Gymuned /Step by Step: A Guide to Producing Information for Users of Social and Community Care Services. Caerdydd: Cyngor Defnyddwyr Cymru
- Cyngor Defnyddwyr Cymru (1993) Defnyddwyr a'r Iaith Gymraeg - Polisiau a Chynlluniau Cyngor Defnyddwyr Cymru. Caerdydd: Cyngor Defnyddwyr Cymru
- Cyngor Defnyddwyr Cymru (1997) Gwybodaeth ar Ofal yn y Gymuned - ei Wneud yn Glir / Community Care Information - Making it Clear. Caerdydd: Cyngor Defnyddwyr Cymru
- Cyngor Defnyddwyr Cymru (1990) Rhoi Pobl yn Gyntaf: Ymgynghori â Defnyddwyr a Gofal Cymunedol / Putting People First: Consumer Consultation and Community Care. Caerdydd: Cyngor Defnyddwyr Cymru
- Cyngor Defnyddwyr Cymru (1991) Therapi Lleferydd a Phlant Mewn Ysgolion: Golwg trwy Lygaid y Defnyddiwr / Speech Therapy and Children in Schools: A Consumer Perspective. Caerdydd: Cyngor Defnyddwyr Cymru
- Cyngor Defnyddwyr Cymru (1996) Y Gymraeg fel Mater Defnyddwyr / Welsh as a Consumer Issue. Caerdydd: Cyngor Defnyddwyr Cymru
- Davies, D. (1998) Report of the British Psychological Society, Psychotherapy Section Conference. Gregynog, Newtown, Powys, Wales. Saturday May 30th 1998. "The Social and Cultural Context of Psychotherapy".
- Davies, D. Within and Without: The Impact of Cultural Factors on Mental Health in Wales. Yn Bhugra D. & Littlewood, R. (gol.) Colonialism and Mental Health. Llundain: Sage Publications.
- Davies, E. (1994) 'They All Speak English Anyway' - Yr Iaith Gymraeg ac Ymarfer Gwrth-Orthrymol / The Welsh Language and Anti-Oppressive Practice (cyhoeddiad dwyieithog) Caerdydd: CCETSW
- Davies, E. (1999) Iaith Mewn Gwasanaeth Gofalgar / The Language of a Caring Service. Caerdydd: adroddiad ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Dobson, R. (1996) Doctors in Wales Should Learn Welsh. Yn British Medical Journal Cyfrol 313, 24 Awst 1996
- Dubé, S. (1998) Therapy Gap Means Farmers Suffer in Silence. Yn The Western Mail 2 Mehefin 1998
- Dubé, S. (1998) Welsh-speakers Losing out in Provision of Psychological Services. Yn The Western Mail 12 Mehefin 1998
- Evas, J. (1997) European Bureau for Lesser Used Languages Study Trip to Galicia, November 1997: Sociolinguistic Research and Public Administration. Caerdydd: Adran Gymraeg, Prifysgol Cymru, Caerdydd
- Flynn, P. (1998) Baglu 'Mlaen. Caernarfon: Gwasg Gwynedd.
- Gardner N., (1992) Ewyllys Da, Cynlluniau Ieithyddol a Pholisiau Iaith / Goodwill, Language Planning, and Language Policies (cyhoeddiad dwyieithog). Caerfyrddin: Cydweithgor Dwyieithrwydd yn Nyfed / Joint Working Party on Bilingualism in Dyfed
- Generalitat de Catalunya (1995) General Language Normalisation Plan - Approved by the Generalitat of Catalonia on 7th March 1995 (fersiwn Saesneg). Barcelona: Generalitat de Catalunya
- Glenister, H. (1998) A Oes Heddwch? Dim Gobaith - y Gymdeithas yn Erbyn y Bwrdd. Yn Golwg 30 Gorffennaf 1998
- Glenister, H. (1998) Doctor, Doctor.... Yn Golwg 20 Awst 1998
- Griffiths, G. (1998) Y Gorau ar Gyfer Addysg Arbennig. Yn Y Cymro 9 Rhagfyr 1998
- Gwyn, R. (1989) Cyrraedd Teimladau Dwfn: Yr Hawl i Gael Help yn Gymraeg. Yn Golwg 20 Gorffennaf 1989
- Halloran, J. & Bhatt, A. (blwyddyn cyhoeddi yn anhysbys) A Report on the Evaluation of the Leicestershire Health Sunrise Radio Project "Health Matters". Caerlŷr: Centre for Mass Communication Research, Prifysgol Caerlŷr.
- Hancock, R. (1998) Bureaucracy and Policy a Cause of Ill-Health in Rural Communities. Yn The Western Mail 3 Hydref 1998
- HMSO (1993) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Llundain: HMSO
- Hughes, C. (1998) New Initiative Offers Opportunities to Help Through Welsh. Yn The Western Mail 26 Rhagfyr 1998

Pennod 14 – Argymhellion

- Huws Williams, Rh., Williams, H. & Davies E. (1994) Gwaith Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg / Social Work and the Welsh Language (cyhoeddiad dwyieithog). Caerdydd: CCETSW a Gwasg Prifysgol Cymru
- Iorwerth, D. (1998) Mam-iaith - Yr Hawl i Eni yn Gymraeg. Yn Golwg 9 Gorffennaf 1998
- Iorwerth, D. (1998) Euog am Fod yn Gymraeg. Yn Golwg 10 Rhagfyr 1998
- JM Consulting Ltd. (1999). The Regulation of Nurses, Midwives and Health Visitors. Bristol: JM Consulting Ltd on behalf of the UK Health Departments
- Lovell, S. (gol.) (1990) Health in Any Language - A Guide to Producing Health Information for Non-English People. Llundain: INHOUSE Public Relations, North East Thames Regional Health Authority
- National Consumer Council (1997) GIG Complaints Procedures: The First Year. Llundain: National Consumer Council.
- National Consumer Council (1998) Our Healthier Nation - The National Consumer Council's Response to the Government's Green Paper. Llundain: National Consumer Council.
- National Consumer Council (1998) Consumer Issues in Implementing the GIG White Paper: The New GIG, Modern, Dependable - Comments by the National Consumer Council. Llundain: National Consumer Council.
- Pearson, N. (1998) Language as a Consumer Issue. Yn South Wales Argus 7 Medi 1998
- Roberts, G. (gol.) (1997) "Deall Ein Gilydd": Gweithgareddau Gynhadledd a Gynhaliwyd 19 Hydref 1996 yng Ngregynog. Prifysgol Cymru gan y Gymdeithas Gymraeg ar Gyfer Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd / "Deall Ein Gilydd": Proceedings of the 19 October Conference Held at Gregynog, University of Wales by the Welsh Society for Nurses, Widwives and Health Visitors. Bangor: Y Gymdeithas Gymraeg ar Gyfer Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd.
- Roberts, G. & Paden, L. (1998) Mapio'r Defnydd o Ieithoedd Lleiafrifol Mewn Addysg Gofal Iechyd ar Draws Cymunedau Ieithoedd Ewrop / Mapping Minority Language Use in Health Care Education Across European Language Communities. Bangor: Ysgol Astudiaethau Nyrsio a Bydwreigiaeth Prifysgol Cymru, Bangor (Fersiynau Cymraeg, Saesneg a Chatalaneg ar gael ar wahân)
- Roberts, G. (1998) Mentrau Dwyieithog Mewn Addysg Bydwreigiaeth / Bi-lingual Initiatives in Midwifery Education. Bangor: Ysgol Astudiaethau Nyrsio a Bydwreigiaeth Prifysgol Cymru, Bangor
- Roberts, G. (1994) Nurse/Patient Communication Within a Bilingual Health Setting. Yn British Journal of Nursing Cyfrol 3 Rhifyn 2, 1994
- Roberts, G. & Prys D. (1995) Termau Nysrio a Bydwreigiaeth: An English -Welsh Dictionary of Nursing and Midwifery Terms, Bangor: Prifysgol Cymru Bangor
- Roberts, G. (1996) The Power of Language in a Bilingual Community. Yn Nursing Times Cyfrol 92 Rhifyn 39, 25 Medi 1996
- Royal College of Speech and Language Therapists (1990) Good Practice for Speech Therapists Working with Clients from Linguistic Minority Communities. Llundain: RCSLT
- Swyddfa Gymreig (1997) Digest of Welsh Statistics 1997/ Crynodeb o Ystadegau Cymru 1997. Caerdydd: Swyddfa Gymreig
- Swyddfa Gymreig (1998) Gofal o Ansawdd a Rhagoriaeth Glinigol / Quality of Care and Clinical Excellence (dogfen drafod yn sgîl y papur gwyn Rhoi Cleifion yn Gyntaf / Putting Patients First). Caerdydd: Swyddfa Gymreig
- Swyddfa Gymreig / Welsh Office (1998) Gwneud Gwahaniaeth: Ymchwil a Datblygu ar Gyfer Gwell Iechyd a Gofal Iechyd / Making a Difference: Research and Development for Better Health and Health Care. Caerdydd: Swyddfa Gymreig.
- Swyddfa Gymreig (1999) NHS Direct Workshop Information Pack. Caerdydd: Swyddfa Gymreig
- Swyddfa Gymreig (1998) Gwell Iechyd - Gwell Cymru: Fframwaith Strategol / Better Health Better Wales: Strategic Framework. Caerdydd: Swyddfa Gymreig
- Swyddfa Gymreig (1998) GIG Cymru - Rhoi Cleifion yn Gyntaf / GIG Wales - Putting Patients First. Caerdydd: Swyddfa Gymreig. Ar gael hefyd ar y We: <http://www.official-documnets.co.uk/document/welshoff/GIGwales/content.htm>
- Swyddfa Gymreig (1996) Siatr y Claf - Siatr i Gleifion yng Nghymru / The Patient's Charter - A Charter for Patients in Wales. Caerdydd: Swyddfa Gymreig
- Swyddfa Gymreig Siatr y Claf - Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru / The Patient's Charter - Services for Children and Young People in Wales. Caerdydd: Swyddfa Gymreig

Thomas, G. (1998) The Experience of Welsh Speaking Women in a Bilingual Maternity Service. Caerdydd: Traethawd MSc anghyhoeddedig yn Ysgol Astudiaethau Nyrso Coleg Meddygol Prifysgol Cymru

Turner, R. (1998) GIG 'Racist' Towards Patients and Staff. Yn The Western Mail 1 Rhagfyr 1998

UKCC (1992) Code of Professional Conduct. Llundain: UKCC (Ar gael ar y We: <http://www.ukcc.org.uk/codecon.htm>)

Uned Cyfartaledd GIG Cymru & Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol / GIG Wales Equality Unit & Commission for Racial Equality (1998) Diwallu Anghenion Iechyd Pobl Lleiafrif Ethnig yng Nghymru: Arolwg o Ymarfer Gofal Iechyd Eilaidd Cyfredol / Meeting the Needs of Ethnic Minority People in Wales A Survey of Current Secondary Health Care Practice. Pontyclun: GIG Cymru

Walford, J (1995) Nurses to the Rescue With a Word for Patients. Yn The Western Mail 2 Mai 1995

Williams, C. & Evas, J. (1997) Y Cynllun Ymchwil Cymunedol. Caerdydd: Adran Gymraeg Prifysgol Cymru, Caerdydd (Ar gael hefyd ar y We gyda Chrynodeb Gweithredol / Executive Summary yn Gymraeg a Saesneg:

<http://www.cf.ac.uk/uwc/cymraeg/ymchwil/index.html>)

Williams, C. & Evas, J. (1997) Y Cynllun Ymchwil Cymunedol: Y Camau Nesaf. Cyhoeddiad ar y We gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg: <http://www.netwales.co.uk/byig/dog313.htm>

Williams, E., (1997) GPs Learn Welsh to Help Their Patients. Yn Daily Post 7 Chwefror 1997

Williams, G. & Harris, R. (1995) Disgwyliadau Defnyddwyr, Bodlonrwydd a Chywnion yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru / Consumer Expectations, Satisfaction and Complaints in the GIG in Wales. Caerdydd: Cyngor Defnyddwyr Cymru

Wilson J., (1998). Ansawdd Gwasanaeth, Dwyieithrwydd a'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru / Quality of Service, Bilingualism and the Public Utility Services in Wales. Caerdydd: Y Sefydliad Materion Cymreig a Chyngor Defnyddwyr Cymru / The Institute of Welsh Affairs and The Welsh Consumer Council

Wyn Siencyn, S. (1995) Sain Deall - Cyflwyniad i Ymwybyddiaeth Iaith / A Sound Understanding - An Introduction to Language Awareness. Caerdydd: CCETSW Cymrun

ASTUDIWYD Y CYNLLUNIAU IAITH GYMRAEG A BARATOWYD GAN Y SEFYDLIADAU ISOD O DAN DDEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993

Awdurdod Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru / Welsh Common Health Service Authority

Awdurdod Iechyd Bro Taf

Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru

Awdurdod Iechyd Gwent

Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru (drafft)

Iechyd Morgannwg Health

UKCC (Cyngor Canolig y Deyrnas Unedig dros Nyrso, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd United Kingdom Central Council for Nursing Midwifery and Health Visiting)

WNB (Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrso, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd / Welsh National Board for Nursing Midwifery and Health Visiting)

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Amiwylans GIG

Ymddiriedolaeth GIG Caerfyrddin a'r Dalgylch

Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a'r Canolbarth

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Ymddiriedolaeth GIG Gofal Cymuned Clwydian

Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Amiwylans Gogledd Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Llanelli/Dinefwr

Ymddiriedolaeth GIG Pen-y-Bont a'r Cylch

Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen

Ymddiriedolaeth GIG y Rhondda

Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Gwynedd

Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Glan Clwyd

Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Llandochau (Llandough) a'r Gymuned

Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Maelor Wrecsam

Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd GIG Ysbyty Athrofaol Cymru

Ymddiriedolaeth Iechyd Cymuned Gwynedd

Pennod 14 – Argymhellion

SAFLEOEDD AR Y WE A DDEFNYDDIWD:

Adran Iechyd: <http://www.doh.gov.uk>

BBC Cymru State of the Nation: <http://www.bbc.co.uk/stateofnation/wales/health>

Bwrdd yr Iaith Gymraeg: <http://www.netwales.co.uk/byig>

Canolfan Bedwyr: <http://hydraulix.bangor.ac.uk/ar/cb/cb.htm>

Canolfan Safoni Termau / Centre for the Standardization of Welsh Terminology:

<http://weblife.bangor.ac.uk/adranadd/cyrsiau.cst.html> (Cymraeg)

<http://weblife.bangor.ac.uk/adranadd/courses.cst.html> (Saesneg)

Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru / University of Wales College of Medicine: <http://uwcm.web.cf.ac.uk>

Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (Royal College of Speech and Language Therapists):

<http://www.rcslt.org>

Cyfeiriadur y Lolfa: <http://www.ylolf.wales.com>

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru: <http://www.fundraising.co.uk/services/wcva.html>

Cymdeithas Atal Dweud Prydain (British Stammering Association): <http://www.stammer.demon.co.uk>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: <http://www.cynulliad.cymru.gov.uk> (Gymraeg) neu

<http://www.assembly.wales.gov.uk> (Saesneg)

Disability on the Agenda (tudalennau'r llywodraeth ar wahanol agweddau ar anabledd): <http://www.disability.gov.uk>

Dogfennau Swyddogol Llyfrfa ei Mawrhydi (HMSO Official Documents): <http://www.official-documents.co.uk>

Sefydliad Iechyd Gwledig / Institute of Rural Health: <http://home.rednet.co.uk/homepages/irh>

Sefydliad yr Ieithyddion (Institute of Linguists): <http://www.iol.org.uk>

Siartr y Claf: <http://www.servicefirst.gov.uk/list/wpatient.htm> (Cymraeg) neu

<http://www.servicefirst.gov.uk/list/wepatient.htm> (Saesneg)

Swyddfa Gymreig: <http://www.wales.gov.uk>

UKCC United Kingdom Central Council for Nursing, Midwifery and Health Visitors: <http://www.ukcc.org.uk>

Western Mail: <http://www.totalwales.com>